

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2013

Amser:
09:00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Polisi: Tom Jackson
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8597
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

Agenda

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (9:00 – 9:05)

1. Sesiwn Friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori'

2. (9:05 – 9:30) (Tudalennau 1 – 62)

PAC(4) 07–13 – Papur 1 – Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori

3. Sesiwn Friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd' (9:30 – 10:00) (Tudalennau 63 – 122)

PAC(4) 07–13 – Papur 2 – Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd

4. Papurau i'w nodi (Tudalennau 123 – 124)

5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 6 i 9.

6. Ystyried yr opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori' (10:00 – 10:10)

7. Ystyried yr opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd' (10:10 – 10:20)

8. Ystyried yr opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg' (10:20 – 10:40) (Tudalennau 125 – 140)

9. Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen (10:40 – 11:00) (Tudalennau 141 – 225)



Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori



Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori

Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru oedd Simon Howells, Phil Jones, Jackie Joyce, Jeremy Morgan a Emma Roberts o dan gyfarwyddyd Paul Dimblebee.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae yntau'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilyddwr i gyrrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfi aeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2013

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Cyflwynwyd yr adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 21 Chwefror 2013



Crynodeb	6
Argymhellion	12
1 Mae'r sector cyhoeddus wedi lleihau ei wariant ar wasanaethau ymgynghori, ond ychydig o gyrff cyhoeddus sydd â strategaeth gadarn ar gyfer caffael a rheoli ymgynghorwyr	15
Mae'r sector cyhoeddus wedi lleihau ei wariant ar wasanaethau ymgynghori o amcangyfrif o £173 miliwn yn 2007-08 i £133 miliwn yn 2010-11	15
Ychydig o gyrff cyhoeddus sydd ag ymagwedd strategol tuag at gaffael a rheoli ymgynghorwyr a honno'n seiliedig ar ddata dibynadwy	21
2 Ychydig o gydweithredu sydd rhwng cyrff cyhoeddus wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori	26
Ychydig o effaith y mae cynlluniau sy'n ceisio sicrhau ymagweddau mwy cyson a chydlynol ar draws sectorau ac o'u mewn wedi'i chael hyd yn hyn	26
Mae cynllun ar y gweill i sefydlu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gyda'r nod o fod yn gyfrwng strategol i hwyluso arbedion wrth gaffael drwy sicrhau gwell cydweithredu ar draws pob rhan o'r sector cyhoeddus	30
3 Mae cyrff cyhoeddus yn peryglu gwerth am arian drwy fethu â dilyn arferion da wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori	32
Drwy roi arferion da ar waith wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori, dylai hynny olygu bod cyrff cyhoeddus yn sicrhau gwell gwerth am arian wrth iddynt ddefnyddio ymgynghorwyr	32
Mae ansawdd y cofnodion sy'n ategu prosiectau gwasanaethau ymgynghori yn wael ar y cyfan	35
Nid oedd gan lawer o gyrff cyhoeddus systemau cadarn ar gyfer asesu'r angen am ymgynghorwyr a phennu eu gofynion	36

Nid yw cyrff cyhoeddus yn rhoi digon o ystyriaeth i'r opsiynau o ran adnoddau wrth gynllunio prosiectau ymgynghori	40
Mae lle i wella'r ffordd y bydd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn caffael ymgynghorwyr	42
Mae'r trefniadau rheoli contract wrth gyflawni prosiectau ymgynghori'n wan mewn llawer o gyrff cyhoeddus	50
Nid yw cyrff cyhoeddus yn gwerthuso'n rheolaidd y manteision a ddaw yn sgil defnyddio ymgynghorwyr, ac ni fyddant ychwaith yn dysgu gwersi yn sgil hynny	53

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg	55
Atodiad 2 – Pecyn Hunanasesu ar gyfer Ymgynghori y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	59

Crynodeb

- 1 Gwariodd cyrff cyhoeddus yng Nghymru oddeutu £133 miliwn ar ymgynghorwyr yn 2010-11. Mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio gwasanaethau ymgynghori am lawer o resymau. Os cânt eu defnyddio'n effeithiol, gall gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau ymgynghorwyr helpu i ddarparu gwasanaethau a chynlluniau newydd yn gyflym a chydag arbenigedd. Yn ogystal, mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio ymgynghorwyr pan na fydd y gallu ganddynt i wneud gwaith yn fewnol.
 - 2 Fodd bynnag, oni fydd cyrff cyhoeddus yn rheoli gwasanaethau ymgynghori'n effeithiol, gallant fod yn ffordd ddrud o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, ac mae'n bosibl y collir cyfleoedd i ddefnyddio sgiliau ymgynghorwyr i'r eithaf a meithrin gwybodaeth a sgiliau newydd. Mae cael gwerth am arian gan wasanaethau ymgynghori'n dibynnu ar ddiffinio a chyfiawnhau'r angen, caffael yn effeithlon, rheoli prosiectau'n effeithiol a gwerthuso'n drwyadl y manteision a geir yn eu sgil.
 - 3 Cyhoeddodd Tasglu Caffael Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi¹ Llywodraeth Cymru adroddiad ym mis Chwefror 2011 a oedd yn adolygu caffael cyhoeddus yng Nghymru.² Roedd yr adroddiad yn dweud bod gwasanaethau ymgynghori yn faes y mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario llawer arno a'i argymhelliad oedd y dylid edrych yn fanylach ar gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori, gan gynnwys ystyried y posibiladau ar gyfer cytundebau cydweithredu i Gymru gyfan.
 - 4 Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i p'un a yw cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn caffael ac yn rheoli gwasanaethau ymgynghori mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth da am arian. Ein casgliad cyffredinol oedd, er bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi lleihau eu gwariant ar ymgynghorwyr, ni allant ddangos gwerth am arian o ran cynllunio, caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori. Mae sicrhau gwerth am arian yn cael ei lesteirio oherwydd diffyg ymagwedd strategol, oherwydd nad yw cyrff cyhoeddus yn cydweithredu digon, ac mewn llawer o achosion, oherwydd nad ydynt yn dilyn arferion da cydnabyddedig wrth gaffael a rheoli ymgynghorwyr.
- Mae'r sector cyhoeddus wedi lleihau ei wariant ar wasanaethau ymgynghori, ond ychydig o gyrff cyhoeddus sydd â strategaeth gadarn ar gyfer caffael a rheoli ymgynghorwyr**
- 5 **Mae'r sector cyhoeddus wedi lleihau ei wariant ar wasanaethau ymgynghori o amcangyfrif o £173 miliwn yn 2007-08 i £133 miliwn yn 2010-11.** Roedd y gwariant ar wasanaethau ymgynghori yn 2010-11 tua phedwar y cant o gyfanswm y gwariant a anfonebwyd ar nwyddau a gwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus. Y categori lle y gwariwyd y swm mwyaf ar wasanaethau ymgynghori yn 2010-11 oedd y categori ymgynghorwyr eiddo ac adeiladu (£54 miliwn), ac yna ymgynghorwyr busnes a rheoli (£46 miliwn).

1 Sefydlwyd y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi ar gyfer y sector cyhoeddus drwyddo draw gan Lywodraeth Cymru yn 2010 i ddarparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu ffyrdd o leihau costau a gwella gwasanaethau drwy effeithlonrwydd ac arloesi.

2 *Buying Smarter in Tougher Times: Conclusions and Recommendations of the Efficiency and Innovation Board Procurement Taskforce*, Chwefror 2011



- 6** Llywodraeth leol oedd y sector a oedd yn gwario fwyaf (£86 miliwn), gyda Llywodraeth Cymru yn ail (£42 miliwn) ac yna'r sector iechyd (£5.5 miliwn). Fodd bynnag, roedd gwariant Llywodraeth Cymru ar wasanaethau ymgynghori'n 16 y cant o gostau ei chyflogau. Roedd hyn yn cymharu â 3.1 y cant ar gyfartaledd gan lywodraeth leol ac 1.6 y cant gan y sector iechyd.
- 7** Erbyn 2010-11, mae cyfanswm y gwariant ar wasanaethau ymgynghori wedi lleihau £40 miliwn ers 2007-08, sef y tro diwethaf i ddata o bob rhan o sector cyhoeddus Cymru gael eu casglu a'u dadansoddi. Lleihaodd gwariant Llywodraeth Cymru ar ymgynghorwyr 19 y cant (o £52 miliwn i £42 miliwn) rhwng 2007-08 a 2010-11. Mae hyn yn rhannol oherwydd ymdrech ddygn i leihau'r gwariant ar ymgynghorwyr rheoli. Dros yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o 21 y cant (£23 miliwn) yn y gwariant ar ymgynghorwyr gan y sector llywodraeth leol a gostyngiad 50 y cant (£5.5 miliwn) mewn gwariant o'r fath gan y sector iechyd hefyd.
- 8** Dim ond un agwedd ar sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio gwasanaethau ymgynghori yw lleihau gwariant. Er mwyn sicrhau a dangos gwerth da am arian, mae angen i gyrff cyhoeddus fabwysiadu ymagwedd strategol tuag at gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori, a honno'n ymagwedd sydd wedi'i seilio ar arferion da cydnabyddedig.
- 9** **Ychydig o gyrff cyhoeddus sydd ag ymagwedd strategol tuag at gaffael a rheoli ymgynghorwyr a honno'n seiliedig ar ddata dibynadwy.** Dim ond 20 y cant o gyrff cyhoeddus a ddywedodd fod ganddynt strategaeth benodol ar gyfer caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori. Fod bynnag, lle'r oedd strategaethau ar gael, nid oeddent fawr mwy na chanllawiau neu bolisi ar sut i brynu gwasanaethau ymgynghori, yn hytrach nag ymagwedd strategol tuag at gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori.
- 10** Ychydig o wybodaeth reoli ddibynadwy sydd gan gyrff cyhoeddus, megis ynglŷn â'r bylchau sgiliau y mae ymgynghorwyr wedi eu llenwi, ac ynglŷn â gwerthuso perfformiad ymgynghorwyr, er mwyn i hynny fod yn sail i ymagwedd strategol. Canfuwyd nifer o anawsterau wrth geisio cael gaffael ar wybodaeth reoli gywir, ddibynadwy a chyson ynglŷn â gwasanaethau ymgynghori. Mae'r data am wariant yn annibynadwy gan mwyaf hefyd. Yr unig ffynhonnell ddata gyson a oedd ar gael i ni oedd y data a gasglwyd yn ystod ymarfer gan Spikes Cavell,³ ond, oherwydd y ffordd y cesglir y data, dim ond amcangyfrif rhesymol o'r gwariant a ddarperir gan y data hyn.
- 11** Yn ogystal â'r ffaith nad yw cyrff cyhoeddus yn casglu nac yn dadansoddi data am wasanaethau ymgynghori, mae gwahanol gyrff cyhoeddus ac adrannau o fewn y cyrff hynny yn diffinio gwasanaethau ymgynghori mewn ffordd wahanol i'w gilydd. Mae hyn yn golygu bod y gwariant wedi'i godio mewn gwahanol ffyrdd gan arwain at ragor o anghysonderau o ran ansawdd a chymaroldeb gwybodaeth reoli.

³ Cwmni preifat sy'n darparu gwasanaethau dadansoddi gwariant a data ar gyfer sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

Ychydig o gydweithredu sydd rhwng cyrff cyhoeddus wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori

- 12 Ychydig o effaith y mae cynlluniau sy'n ceisio sicrhau ymagweddau mwy cyson a chydlynol ar draws sectorau ac o'u mewn wedi'i chael hyd yn hyn.** Ychydig o dystiolaeth a welsom o gydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru wrth iddynt gaffael gwasanaethau ymgynghori, a chredwn fod lle i gydweithredu llawer mwy. Er bod rhai prosiectau ymgynghori o bosibl yn rhai sy'n perthyn yn benodol iawn i gyrff cyhoeddus unigol, mae llawer o rai eraill, o ran eu natur, yn rhai lle y dylid ymchwilio i'r posibiladau ar gyfer cydweithredu. Byddai hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle y mae cyrff cyhoeddus yn caffael yr un gwasanaethau neu wasanaethau tebyg gan yr un cyflenwr, megis ym maes rheoli'r trysorlys, ymgynghori ariannol ac ymgynghori ym maes rheoli.
- 13** Mae Gwerth Cymru yn asesu pa mor fuddiol fyddai sefydlu Gwasanaeth Cyngori ar Ddefnyddio Ymgynghorwyr a fyddai'n llwyfan ar gyfer darparu canllawiau a rhannu gwybodaeth am yr arferion gorau wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori. Mae Gwerth Cymru yn bwriadu lansio'r gwasanaeth ym mis Ebrill 2013.
- 14** Mae Gwasanaeth Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2011, wedi dweud bod gwasanaethau ymgynghori tua brig y rhestr o feysydd gwariant cyffredin ac ailadroddus yn y GIG. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i ni ddod i gasgliadau ynglŷn ag effaith y Gwasanaeth o ran hwyluso rhagor o gydweithredu.
- 15** Er bod cydweithredu wedi bod yn un o nodweddion caffael llywodraeth leol ers nifer o flynyddoedd, nid yw consortia caffael llywodraeth leol ar hyn o bryd yn caffael gwasanaethau ymgynghori ar ran eu haelodau. Nid oes gan Bartneriaeth Caffael Gogledd Cymru fentrau penodol ar gyfer gwasanaethau ymgynghori, ond mae'n adnewyddu contract fframwaith gwasanaethau proffesiynol ar gyfer adeiladu. Mae Consortiwm Prynu Cymru (sy'n cynnwys 16 o awdurdodau lleol yn y de, y canolbarth a'r gorllewin) wedi nodi meysydd penodol lle y bydd cyrff yn gwario ar wasanaethau ymgynghori a lle y gellid cydweithredu. Fodd bynnag, mae'n sylweddoli bod angen iddo wneud rhagor i ddarbwylllo rheolwyr contractau y byddai o fudd iddynt gydweithredu.
- 16** **Mae cynllun ar y gweill i sefydlu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gyda'r nod o fod yn gyfrwng strategol i hwyluso arbedion wrth gaffael drwy sicrhau gwell cydweithredu ar draws pob rhan o'r sector cyhoeddus.** Ers mis Rhagfyr 2010, mae Gwerth Cymru wedi bod yn arwain ar ddatblygu achos busnes dros Wasanaeth Caffael Cenedlaethol, er mwyn cryfhau caffael cydweithredol ar draws sector cyhoeddus Cymru. Mae Gwerth Cymru wedi nodi bod gwasanaethau ymgynghori'n gategori allweddol er mwyn sicrhau arbedion posibl rhwng £1.4 miliwn a £5.6 miliwn y flwyddyn drwy gyflwyno'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar draws y sector cyhoeddus.



Mae cyrff cyhoeddus yn peryglu gwerth am arian drwy fethu â dilyn arferion da wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori

17 Drwy roi arferion da ar waith wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori, dylai cyrff cyhoeddus allu sicrhau gwell gwerth am arian o ran y defnydd o ymgynghorwyr.

Datblygwyd meini prawf archwilio gennym a seiliwyd ar arferion da cydnabyddedig y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddeg Cyhoeddus (CIPFA), y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a chyn Swyddfa Masnach y Llywodraeth (OGC) i ymchwilio i'r graddau y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi arferion da ar waith wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori a hynny ar hyd pum cam prosiect nodweddiadol:

- a** cam 1: asesu'r anghenion a phennu gofynion adnoddau;
- b** cam 2: ystyried opsiynau ar gyfer adnoddau;
- c** cam 3: tendro, dyfarnu a'r contract;
- ch** cam 4: cyflawni'r prosiect, ymrwymiad y tîm a throsglwyddo sgiliau;
- d** cam 5: gwerthuso ar ôl y contract.

18 Yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2006 am y ffordd yr oedd y llywodraeth ganolog yn defnyddio ymgynghorwyr, gwelwyd y gellid sicrhau hyd at 30 y cant o arbedion effeithlonrwydd petai adrannau'r llywodraeth ganolog yn mabwysiadu arferion da. Gan ddefnyddio'r un fethodoleg ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gwelsom y gellid sicrhau mwy na £23 miliwn (18 y cant) o arbedion effeithlonrwydd petai pob corff cyhoeddus yn dilyn arferion da wrth gaffael a rheoli

gwasanaethau ymgynghori, yn enwedig wrth asesu'r anghenion a phennu'r gofynion ac ystyried dewisiadau amgen yn lle defnyddio ymgynghorwyr.

19 Mae ansawdd y cofnodion sy'n ategu prosiectau gwasanaethau ymgynghori yn wael ar y cyfan. Ac eithrio yn Llywodraeth Cymru, gwelsom fod cofnodion ynglŷn â chaffael a rheoli ymgynghorwyr yn wael, a'i bod yn aml yn anodd cael gaffael ar wybodaeth sylfaenol. Oherwydd bod y trefniadau rheoli cofnodion yn annigonol, cyfyngir ar y gallu i wneud penderfyniadau a rheoli prosiectau'n effeithiol. Mae hefyd yn cyfyngu ar allu cyrff cyhoeddus i ddangos eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol.

20 Nid oedd gan lawer o gyrff cyhoeddus systemau cadarn ar gyfer asesu'r angen am ymgynghorwyr a phennu eu gofynion. Cyn prynu gwasanaethau ymgynghori, dylai cyrff cyhoeddus sicrhau bod modd cyfiawnhau eu defnyddio a bod gwneud hynny'n rhesymol. Dylai cyrff cyhoeddus amlinellu hyn mewn achos busnes sy'n adlewyrchu maint, effaith a risg y prosiect. Mae'r achos busnes yn allweddol er mwyn pennu a chynnal cyfeiriad clir ar gyfer unrhyw brosiect a dylai gynnwys manylion am hyd a lled arfaethedig y prosiect, yr opsiynau ar gyfer ei gyflawni, y manteision a ragwelir, yr amseru a'r trefniadau adrodd a llywodraethu. Gwelsom mai anaml yr oedd achos busnes ar gael i ategu prosiectau gwasanaethau ymgynghori ac mai dim ond 17 y cant o'r prosiectau a adolygwyd gennym ar draws saith o gyrff cyhoeddus a oedd ag unrhyw fath o achos busnes yn eu ffeiliau. Lle'r oedd achosion busnes wedi'u datblygu, roedd eu hansawdd yn amrywio ac, yn aml, roedd gwybodaeth allweddol ar goll, megis amcangostau a'r manteision a ragwelid.

- 21** Dylai achosion busnes bennu'n glir beth yw gofynion manwl y prosiect, gan gynnwys y canlyniadau a'r manteision disgwylidig. Mae manyleb glir yn sicrhau bod y cleient a'r contractwr yn gwybod beth yn union sy'n ofynnol, ac mae'n ei gwneud yn haws negodi contract pris penodedig sy'n golygu bod llai o berygl i'r costau a'r amser a dreulir ar y prosiect fod yn fwy na'r disgwyl. Gwelsom fod cyrff cyhoeddus yn amlwg yn ffafrio defnyddio contractau pris penodedig, ond cyfaddefodd llawer fod adegau pan oedd rhaid defnyddio contractau amser a deunyddiau, yn enwedig pan nad oedd manyleb y prosiect yn ddigon clir.
- 22** Drwy ymgysylltu â chyflenwyr yn fuan yn ystod cam cynllunio'r prosiect, bydd corff cyhoeddus yn gallu deall yn well yr hyn y mae'n dymuno'i gael gan ymgynghorydd a bydd yn dod yn gleient mwy deallus. Dylai hyn arwain at fanylebau eglurach ac ymatebion sydd wedi'u teilwra'n well i wahoddiadau i dendro. Fodd bynnag, gwelsom mai ychydig o gyrff cyhoeddus sy'n ceisio ymgysylltu â'r farchnad ymgynghori yn ystod cam cynllunio prosiect.
- 23** **Nid yw cyrff cyhoeddus yn rhoi digon o ystyriaeth i'r opsiynau o ran adnoddau wrth gynllunio prosiectau ymgynghori.** Dylai'r achos busnes gynnwys asesiad cynhwysfawr, ond cymesur, i weld a oes dewis amgen yn lle defnyddio ymgynghorwyr. Dywedodd cyrff cyhoeddus wrthym mai'r prif sbardunau sy'n eu hysgogi i ddefnyddio gwasanaethau ymgynghori oedd bod angen cael gafael ar sgiliau a gwybodaeth arbenigol a syniadau newydd ac arloesol, ac na allant ddod o hyd i staff mewnol addas i gyflawni prosiectau. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond saith y cant o'r prosiectau ymgynghori a archwiliwyd gennym a oedd wedi arfarnu p'un a oedd ganddynt adnoddau mewnol addas a'r posibilrwydd y gellid defnyddio'r adnoddau mewnol hynny i gyflawni'r prosiect yn hytrach na defnyddio ymgynghorwyr, er bod dros hanner y cyrff cyhoeddus a adolygwyd gennym yn dweud bod ganddynt broses ffurfiol ar gyfer gwneud hynny.
- 24** Os bydd cyrff cyhoeddus yn meddwl mai'r rheswm dros ddefnyddio ymgynghorwyr yw diffyg adnoddau mewnol a'r sgiliau priodol i gyflawni prosiectau, dylent nodi'r bylchau sgiliau a bwydo'r wybodaeth honno i gynlluniau tymor canol a thymor hir ar gyfer eu gweithlu, er mwyn lleihau eu dibyniaeth ar ymgynghorwyr yn y dyfodol. Fodd bynnag ychydig o dystiolaeth a welsom fod cyrff cyhoeddus yn dadansoddi'r gwaith y bydd ymgynghorwyr yn ei wneud er mwyn defnyddio'r wybodaeth honno wrth gynllunio'u gweithlu.
- 25** **Mae lle i wella'r ffordd y bydd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn caffael ymgynghorwyr.** Ar y cyfan, bydd cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â rheolau ac egwyddorion caffael yr Undeb Ewropeaidd ac â'u rheolau sefydlog a'u polisïau mewnol wrth brynu gwasanaethau ymgynghori. Fodd bynnag, gwelsom nifer o eithriadau nodedig:
- a** wrth brynu gwasanaethau ymgynghori is eu gwerth, ond sydd weithiau'n uchel o ran risg neu o ran eu pwysigrwydd, bydd y gwaith yn aml yn cael ei wneud gan bobl nad ydynt wedi cael unrhyw hyfforddiant o gwbl ym maes caffael;
 - b** nid yw'r prynu'n cydymffurfio â chanllawiau mewnol nac â deddfwriaeth caffael;
 - c** gwelwyd diffygion o ran tendro cystadleuol, er enghraifft, drwy osod tendr heb gystadleuaeth;
 - ch** mae uwch reolwyr wedi anwybyddu'r canllawiau caffael mewnol.



- 26** Gwelsom fod cytundebau fframwaith yn cael eu defnyddio'n dda mewn rhai achosion, sydd gan amlaf yn arwain at brisiau is, a phrynwyd bron draean o'r gwasanaethau ymgynghori fel hyn. Roedd y cytundebau fframwaith a oedd ar waith wedi'u sefydlu'n bennaf gan Wasanaeth Caffael y Llywodraeth,⁴ a rhai wedi'u datblygu gan gonsortia prynu Cymru a chyrrff cyhoeddus unigol. Fodd bynnag, roedd bron chwedeg y cant o'r contractau a brynwyd drwy gytundeb fframwaith wedi'u dyfarnu'n uniongyrchol i gyflenwyr a oedd yn rhan o'r fframwaith, heb unrhyw gystadleuaeth rhyngddynt o gwbl. Oherwydd diffyg cystadleuaeth o fewn fframweithiau, mae cyrrff cyhoeddus yn agored i rai o'r peryglon sy'n gysylltiedig â thendro heb gystadleuaeth - sef colli'r manteision a ddaw yn sgil y cystadlu, gwell prisiau ac ystod ehangach o syniadau ar gyfer cyflawni prosiect.
- 27** **Mae'r trefniadau rheoli contract wrth gyflawni prosiectau ymgynghori'n wan mewn llawer o gyrff cyhoeddus.** Ar ôl contractio ymgynghorwyr, mae angen i gyrff cyhoeddus eu rheoli'n effeithiol er mwyn sicrhau bod y manteision a fwriadwyd yn cael eu cyflawni'n briodol o ran amser, cost ac ansawdd. Gwelsom fod safon rheoli contractau'n amrywio, ac mai ychydig o gyrff cyhoeddus sy'n hyfforddi eu staff er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r gallu i reoli contractau'n effeithiol.
- 28** Dylid disgrifio'r trefniadau rheoli perfformiad a'r gofynion o ran gwybodaeth reoli yn yr achos busnes a'u pennu yn y contract. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond 14 y cant o'r contractau ymgynghori a oedd wedi cofnodi gwybodaeth a oedd yn berthnasol i berfformiad yr ymgynghorydd wrth iddo gyflawni'r contract, ac mai ychydig o gyrff cyhoeddus a oedd wedi datblygu canllawiau ar gyfer rheolwyr contractau ynglŷn â sut i werthuso perfformiad ymgynghorwyr.
- Gwelsom fod monitro a gwerthuso contractau, os caiff ei wneud o gwbl, yn tueddu i ddigwydd ar hap ac yn anffurfiol, a'i fod wedi'i seilio'n bennaf ar ganfyddiadau ynglŷn â pherfformiad y cyflenwr.
- 29** Un o'r manteision sy'n deillio o ddefnyddio gwasanaethau ymgynghorwyr yw'r potensial i drosglwyddo sgiliau'r ymgynghorwyr i staff y sefydliad ei hun wrth i brosiect gael ei gyflawni. Mae trosglwyddo sgiliau'n effeithiol yn cryfhau'r sylfaen sgiliau mewnol a gallai olygu na fyddai'n rhaid dibynnu gymaint yn y dyfodol ar wasanaethau ymgynghori sydd o bosibl yn fwy costus. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a welsom fod cyrrff cyhoeddus yn cynllunio'n rheolaidd ar gyfer trosglwyddo sgiliau, ac nid oedd unrhyw un o fanylebau'r contractau a archwiliwyd gennym yn dweud sut y dylid trosglwyddo'r sgiliau hynny. Dim ond un o'r 93 prosiect a adolygwyd gennym a oedd wedi arfarnu p'un a oedd unrhyw sgiliau wedi'u trosglwyddo o'r ymgynghorwyr i staff y corff cyhoeddus wedi i'r prosiect gael ei gwblhau.
- 30** **Ni fydd cyrrff cyhoeddus yn gwerthuso'n rheolaidd y manteision a ddaw yn sgil defnyddio ymgynghorwyr, ac ni fyddant ychwaith yn dysgu gwersi yn sgil hynny.** Dylai cyrrff cyhoeddus werthuso prosiectau ymgynghori ar ôl eu cwblhau i ddangos y gwerth am arian a gafwyd yn sgil gwaith yr ymgynghorwyr, a dysgu'r gwersi yn sgil y prosiectau sydd wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, ychydig o gyrff cyhoeddus a oedd yn gwneud unrhyw fath o werthuso ar ôl cwblhau'r prosiect pan fyddai contractau gwasanaethau ymgynghori'n dod i ben. Dim ond un o'r contractau ymgynghori a archwiliwyd gennym a oedd wedi gwneud hyn. Hyd yn oed os oedd cyrrff cyhoeddus wedi datblygu prosesau gwerthuso ffurfiol, y duedd oedd iddynt beidio â chael eu rhoi ar waith.

⁴ Un o asiantaethau gweithredol Swyddfa'r Cabinet, a'i blaenoriaeth gyffredinol yw sicrhau arbedion wrth gaffael i'r Sector Cyhoeddus drwyddo draw yn y Deyrnas Unedig, ac yn benodol i wneud gwaith caffael canolog ar ran Adranau'r Llywodraeth Ganolog.

Argymhellion

Gwybodaeth reoli

1 Mae ansawdd y wybodaeth reoli sy'n ategu'r broses o gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori'n wael. Nid yw cyrff cyhoeddus yn casglu data dibynadwy am wariant mewn ffordd gyson ac maent yn dibynnu ar gyflenwyr allanol i roi gwybodaeth ystyrlon am wariant iddynt. Mae ansawdd gwybodaeth reoli am gaffael, cyflawni contractau a pherfformiad ymgynghorwyr yn wael hefyd ac nid yw fawr o werth o ran bod yn sail i benderfyniadau prynu neu helpu i reoli contractau'n effeithiol.

Argymhellwn:

- a **bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn unigol ac ar y cyd, yn ceisio gwella ansawdd, amseroldeb a chysondeb y wybodaeth y maent yn ei chasglu i ategu'r gwaith o gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori;**
 - b **dylai Gwerth Cymru neu'r Gwasanaeth Cynghori ar Ddefnyddio Ymgynghorwyr (ar ôl ei sefydlu) helpu cyrff cyhoeddus drwy nodi a rhannu arferion da, a thrwy sefydlu cronfa ddata ganolog o wybodaeth am ymgynghorwyr a fyddai o fudd i bob corff cyhoeddus.**
- 2 Mae sicrhau bod gwybodaeth reoli o safon, sy'n gyson ac yn gymaradwy ar gael yn cael ei lesteirio am fod cyrff cyhoeddus yn diffinio gwasanaethau ymgynghori mewn gwahanol ffyrdd. **Argymhellwn y dylai Gwerth Cymru annog cyrff cyhoeddus i gytuno ar ddiffiniad cyffredin o wasanaethau ymgynghori a'i fabwysiadu, a chysoni'r ffordd y maent yn categoreiddio ac yn codio gwasanaethau ymgynghori yn eu systemau ariannol a'u cronfeydd data ar gyfer caffael.**

Cydweithredu

3 Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu Gwasanaeth Cynghori ar Ddefnyddio Ymgynghorwyr i roi cyngor i gyrff ynglŷn â chaffael a rheoli ymgynghorwyr. **Argymhellwn, wrth ddatblygu Gwasanaeth Cynghori ar Ddefnyddio Ymgynghorwyr, y dylai Llywodraeth Cymru ystyried argymhellion yr adroddiad hwn ac arferion da cydnabyddedig, megis y Rhaglen Gynghori ar Ymgynghori, Pecyn Hunanasesu ar gyfer Ymgynghori y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Phecyn Archwilio Contractau CIPFA.**

Hunanasesu

4 Dylai cyrff cyhoeddus geisio gwella'u perfformiad yn barhaus a sicrhau gwell gwerth am arian wrth gaffael a rheoli ymgynghorwyr. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi datblygu Pecyn Hunanasesu ar gyfer Ymgynghori, sy'n cynnwys methodoleg i alluogi cyrff cyhoeddus i ddadansoddi eu perfformiad wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori mewn pum cam allweddol, ac mae'n nodi'r prif feysydd lle mae angen gwella'u hymddygiad a'u prosesau er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian gan ymgynghorwyr. **Argymhellwn y dylai Gwerth Cymru annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio Pecyn Hunanasesu ar gyfer Ymgynghori y Swyddfa Archwilio Genedlaethol bob blwyddyn, i ddadansoddi eu perfformiad wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori, ac i ganfod arbedion effeithlonrwydd posibl drwy wella'u perfformiad. Dylai Gwerth Cymru gydlynu'r ymarfer hunanasesu, gwerthuso'r canlyniadau ar lefel sector ac ar lefel Cymru gyfan, a chyfleu negeseuon allweddol y gwerthusiad i gyrff cyhoeddus.**



Rheoli cofnodion

- 5** Mae ansawdd y cofnodion sy'n ategu prosiectau gwasanaethau ymgynghori yn wael ar y cyfan yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus. Dylai gyrff cyhoeddus gadw cofnodion priodol i ategu prosiectau gwasanaethau ymgynghori, fel sylfaen dystiolaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau a rheoli prosiectau'n effeithiol. Mae cadw cofnodion yn briodol hefyd yn hwyluso trefniadau archwilio ac arolygu, ac yn darparu tystiolaeth bod y sefydliad wedi cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol. **Argymhellwn y dylai gyrff cyhoeddus reoli'r wybodaeth sy'n ategu prosiectau gwasanaethau ymgynghori'n well, gan ddilyn esiampl Llywodraeth Cymru, lle y bydd cofnodion ar gyfer pob cam o brosiect, boed hynny ar bapur neu'n electronig, yn cael eu cadw gyda'i gilydd.**

Achosion busnes a gwerthuso'r opsiynau

- 6** Cyn prynu gwasanaethau ymgynghori, dylai gyrff cyhoeddus sicrhau bod modd cyfiawnhau eu defnyddio a'i bod yn rhesymol gwneud hynny. Dylai gyrff cyhoeddus egluro hyn mewn achos busnes sy'n adlewyrchu maint, effaith a risg y prosiect. Mae'r achos busnes yn allweddol er mwyn pennu a chynnal cyfeiriad clir ar gyfer unrhyw brosiect a dylai gynnwys manylion am hyd a lled arfaethedig y prosiect, yr opsiynau ar gyfer ei gyflawni, y manteision a ragwelir, yr amseru a'r trefniadau ar gyfer adroddiadau a llywodraethu. Gwelsom mai ychydig o brosiectau gwasanaethau ymgynghori a oedd ag achos busnes wedi'i ddogfennu'n llawn i'w hategu. Lle mae achosion busnes wedi'u datblygu, maent yn amrywio o ran eu hansawdd. **Argymhellwn y dylai gyrff cyhoeddus ddatblygu templed ar gyfer achos busnes, ynghyd â chanllawiau cysylltiedig, i'w defnyddio ar gyfer pob prosiect gwasanaethau ymgynghori. Dylai'r**

templed ei gwneud yn ofynnol iddynt roi sylw i bob ffactor hanfodol y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth brynu gwasanaethau ymgynghori. Dylai'r canlynol fod yn ofynnol:

- a** pennu'n fuan pa wasanaeth yn union sydd ei angen, y canlyniadau a ddymunir a'r costau tebygol, er mwyn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cymeradwyo prosiect ac ar gyfer rheoli a gwerthuso'r contract wedyn, ac er mwyn hwyluso cytundeb ynglŷn â chontractau pris penodedig;
- b** gwerthuso dewisiadau amgen yn hytrach na defnyddio ymgynghorwyr, gan gynnwys defnyddio staff mewnol, a chofnodi p'un a oes angen defnyddio ymgynghorwyr oherwydd na all staff mewnol wneud y gwaith neu oherwydd bod ymgynghorwyr yn debygol o gynnig gwell gwerth am arian;
- c** ymgysylltu'n fuan â'r farchnad ymgynghori i ymchwilio i ystod o ymagweddau a dulliau contractio posibl, ac annog ymatebion mwy arloesol sydd wedi'u teilwra'n fwy penodol i gyd-fynd â gofynion y corff cyhoeddus;
- ch** ystyried yn fuan y potensial ar gyfer trosglwyddo sgiliau, a sut mae gwneud hynny.

Cynllunio'r gweithlu

- 7** Bydd ymgynghorwyr yn aml yn cael eu defnyddio oherwydd nad yw'r sgiliau angenrheidiol ar gael o fewn y gyrff cyhoeddus eu hunain. Dylai gyrff cyhoeddus fod yn rhestru'r bylchau sgiliau sy'n cael eu llenwi gan ymgynghorwyr a bwydo'r rheini i gynlluniau tymor canol a thymor hir ar gyfer

y gweithlu, er mwyn lleihau eu dibyniaeth yn y dyfodol ar wasanaethau ymgynghori allanol, ond ychydig o dystiolaeth sydd bod hyn yn digwydd. **Argymhellwn y dylai cyrff cyhoeddus ddadansoddi sut maent wedi defnyddio ymgynghorwyr yn y gorffennol, a'r galw a fydd amdanynt yn y dyfodol, a dylent gynnwys y dadansoddiad hwn yn eu cynlluniau ar gyfer y gweithlu.**

Caffael

8 Mae dewis cyflenwr i ddarparu'r gwasanaeth priodol am y pris cywir ac o'r safon briodol fel rheol yn golygu bod gofyn cynnal proses gaffael gystadleuol. Mae lle i wella sut y bydd cyrff cyhoeddus yn caffael gwasanaethau ymgynghori er mwyn sicrhau gwerth am arian a'u bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. **Argymhellwn y dylai cyrff cyhoeddus:**

- a** dynhau'r rheolaeth dros osod tendrau heb gystadleuaeth drwy, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i uwch reolwyr gymeradwyo proses o'r fath;
- b** hyfforddi'r holl staff sy'n gyfrifol am brynu nwyddau a gwasanaethau ynglŷn ag elfennau sylfaenol rheoliadau caffael ac ynglŷn â'r canllawiau mewnol a'r rheolau sefydlog perthnasol;
- c** sicrhau bod timau uwch reoli'n ymwybodol o ganllawiau caffael mewnol a rheolau sefydlog;
- ch** lle y bo hynny'n briodol, cynnal mân gystadlaethau wrth gaffael o fewn trefniadau fframweithiau;
- d** lle y bo'n briodol, defnyddio contractau sy'n seiliedig ar gymhellion.

Rheoli a gwerthuso contractau

9 Mae angen rheoli ymgynghorwyr yn ofalus ac yn effeithiol er mwyn i brosiectau ymgynghori sicrhau'r canlyniadau a'r manteision y bwriadwyd iddynt eu cyflawni. Fodd bynnag, ychydig o gyrff cyhoeddus sy'n hyfforddi eu staff i reoli contractau, sy'n golygu bod cyrff cyhoeddus yn wynebu'r risg na fydd prosiectau ymgynghori'n sicrhau gwerth am arian. Ychydig o dystiolaeth a welsom hefyd o reoli perfformiad yn effeithiol wrth gyflawni contractau, nac o werthuso perfformiad a'r gwersi a ddysgwyd wrth eu cwblhau.

Argymhellwn:

- a** y dylai Llywodraeth Cymru, drwy raglen Gwerth Cymru, hyrwyddo ac annog defnyddio'i chwrs hyfforddi ar reoli contractau ar draws y sector cyhoeddus;
- b** y dylai cyrff cyhoeddus ddarparu hyfforddiant rheoli contractau i wella sgiliau masnachol staff sy'n gyfrifol am reoli contractau gwasanaethau ymgynghori, a cheisio'u gwella;
- c** y dylai cyrff cyhoeddus werthuso'r manteision a sicrhawyd drwy brosiectau a gwblhawyd, gan ddefnyddio meini prawf arferion gorau, megis yr Adolygiadau o Berfformiad Ymgynghori a ddatblygwyd gan y Rhaglen Gwerth Ymgynghori, a chan roi sylw i bob un o gamau cynllunio'r contract a'r broses reoli.



Rhan 1 - Mae'r sector cyhoeddus wedi lleihau ei wariant ar wasanaethau ymgynghori, ond ychydig o gyrff cyhoeddus sydd â strategaeth gadarn ar gyfer caffael a rheoli ymgynghorwyr

Mae'r sector cyhoeddus wedi lleihau ei wariant ar wasanaethau ymgynghori o amcangyfrif o £173 miliwn yn 2007-08 i £133 miliwn yn 2010-11

- 1.1** Bydd ymgynghorwyr allanol yn darparu ystod o wasanaethau i gyrff cyhoeddus. O'u defnyddio'n effeithiol, gall ymgynghorwyr ddarparu gwybodaeth arbenigol, arbenigedd a gallu'n gyflym ac yn annibynnol, fel rheol ar gyfer prosiectau tymor byr sydd wedi'u diffinio. Ar wasanaethau ymgynghori (**Blwch 1**) y gwerir swm mawr o wariant dewisol drwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru.
- 1.2** Nid yw gwybodaeth am wario ar wasanaethau ymgynghori'n cael ei chasglu na'i monitro'n rheolaidd gan holl gyrff cyhoeddus Cymru, a phan fydd hynny'n digwydd, nid yw'n cael ei wneud mewn ffordd gyson. Fel rhan o strategaeth Gwerth Cymru i hyrwyddo arbedion effeithlonrwydd wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus, ymrwymwyd Spikes Cavell gan Lywodraeth Cymru i gasglu a dadansoddi data am wariant gan gyrff cyhoeddus yng nghyswllt caffael yr holl nwyddau a'r gwasanaethau yn 2007-08, ac eto yn 2010-11 (**Blwch 2**).

Blwch 1 – Beth yw gwasanaethau ymgynghori?

Gwaith ymgynghori yw gwaith sy'n cael ei osod ar gontract i gyflenwr allanol. Gwaith sy'n seiliedig ar brosiectau yw hwn, y tu allan i 'fusnes fel rheol' cleient, a lle bydd pen draw clir i gyfraniad y cyflenwr. Cyfrifoldeb y cleient yn bennaf yw'r canlyniad terfynol, neu'r gwasanaeth parhaus. Bydd gwasanaethau ymgynghori fel rheol yn cynnwys:

- ariannu;
- adnoddau dynol, hyfforddiant ac addysg;
- gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu a systemau gwybodaeth;
- ymgynghori ym maes rheoli (strategaeth, rheoli prosiectau a rhaglenni);
- marchnata a chyfathrebu;
- eiddo ac adeiladu;
- gwasanaethau technegol.

Mae gwasanaethau ymgynghori'n wahanol i wasanaethau sy'n cael eu rhoi allan ar gontract sydd rheini yn eu hanfod wedi'u diffinio'n glir ac yn wasanaethau rheolaidd gan gyflenwr am gyfnod penodedig (e.e. darparu gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu).

Mae gwasanaethau ymgynghori'n wahanol hefyd i drefniadau cyflenwi staff/trefniadau dros dro, sef gwasanaethau sydd o fewn maes busnes arferol sefydliad ond lle nad oes digon o staff ar gael i wneud gwaith (megis gweithwyr cymdeithasol a gyflogir drwy asiantaeth recriwtio).

Ffynhonnell: Swyddfa'r Cabinet a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Daw'r categorïau o'r Arolwg o Wariant ar Gaffael yn y Sector Cyhoeddus gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth.

Blwch 2 – Casglu data gan Spikes Cavell

Cwmni preifat yw Spikes Cavell sy'n darparu gwasanaethau dadansoddi data ynglŷn â gwariant a chontractau yn sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Yn 2008, comisiynwyd Spikes Cavell gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymarfer glanhau a dadansoddi data gwariant 22 awdurdod lleol Cymru a'i gwariant hi ei hun yn 2007-08. Cynhaliwyd yr ymarfer ar wariant unwaith eto yn 2010-11, gan gynnwys hefyd y Comisiwn Coedwigaeth, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Proses allweddol yng ngwaith Spikes Cavell oedd glanhau'r data a ddarparwyd gan gyrrff cyhoeddus. Roedd hyn yn golygu safoni'r data, dileu cofnodion dyblyg a chanfod a chywiro gwallau.

- 1.3** Ar sail ein dadansoddiad o ddata Spikes Cavell, a dadansoddiad ychwanegol ar ddata cyrrff cyhoeddus nad oeddent wedi'u cynnwys yn ymarfer Spikes Cavell (Ffigur 1)⁵ rydym yn amcangyfrif bod y 32 corff cyhoeddus dan sylw yn 2010-11 rhyngddynt wedi gwario £133 miliwn ar wasanaethau ymgynghori.

Roedd hyn yn bedwar y cant o'r holl wariant ar nwyddau a gwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus. Y categori lle y gwariwyd y swm mwyaf oedd ar ymgynghorwyr adeiladu (£54 miliwn) ac yna ar ymgynghorwyr busnes a rheoli (£46 miliwn) (Ffigur 2).

- 1.4** Yn 2007-08, sef y flwyddyn gyntaf pan gasglwyd gwybodaeth am wariant gan Spikes Cavell, gwariodd y 32 corff cyhoeddus amcangyfrif o £173 miliwn⁶ ar wasanaethau ymgynghori,⁷ sef chwech y cant o gyfanswm y gwariant ar nwyddau a gwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus. Dros y tair blynedd hyd at 2010-11, gwelwyd gostyngiad yn y gwariant ar wasanaethau ymgynghori, sef oddeutu £30 miliwn (23 y cant). Dros yr un cyfnod, gostyngodd cyfanswm y gwariant ar nwyddau a gwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus wyth y cant.

Ffigur 1 - Ffynonellau data ar gyfer dadansoddi'r gwariant ar wasanaethau ymgynghori

Sector	Nifer y cyrrff cyhoeddus	2007-08	2010-11
Llywodraeth Cymru	1	Spikes Cavell	Spikes Cavell
Llywodraeth Leol	22	Spikes Cavell	Spikes Cavell
Iechyd	9	Datganiadau Ariannol y GIG	Datganiadau Ariannol y GIG

⁵ Er mwyn galluogi cymhariaeth ystyrlon dros amser, ni chynhwyswyd yn ein dadansoddiad y tri chorff cyhoeddus arall a gafodd eu cynnwys yn ymarfer data Spikes Cavell yn 2010-11, ond nid ar gyfer 2007-08 - y Comisiwn Coedwigaeth, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gorllewin Cymru. Roedd cyfanswm gwariant y tri chorff hyn ar wasanaethau ymgynghori yn 2010-11 yn £0.7 miliwn.

Ni chynhwyswyd ychwaith saith corff cyhoeddus arall (Comisiwn y Cynulliad, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ac Awdurdod Heddlu De Cymru) nad oeddent yn rhan o ymarfer Spikes Cavell ond a roddodd amcangyfrif i ni o'u gwariant ar wasanaethau ymgynghori ar gyfer 2010-11, sef cyfanswm o £1.48 miliwn.


Nid oedd modd i bedwar corff cyhoeddus (Cyngor Celfyddydau Cymru, Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Chwaraeon Cymru) ddarparu unrhyw ddata ar wariant ar wasanaethau ymgynghori.

⁶ Mae'r ffigur hwn yn wahanol i'r amcanwariant, sef £224 miliwn ar wasanaethau ymgynghori ar gyfer 2007-08 a gyhoeddwyd yn *Buying Smarter in Tougher Times*. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnwys £51 miliwn ar gyfer gwasanaethau TGCh a brynir o'r tu allan, nad ydynt yn wasanaethau ymgynghori, yn ei hamcangyfrifon.

⁷ Tynnwyd y data am wariant cyrrff iechyd yn 2007-08 ac yn 2010-11 o ddatganiadau ariannol y GIG gan 22 Bwrdd Iechyd Lleol ac wyth o Ymddiriedolaethau'r GIG.



Ffigur 2 - Gwariant ar wasanaethau ymgynghori gan gyrrff cyhoeddus yn 2010-11




* Rheoli trafnidiaeth; TGCh; gofal a gwasanaethau cymdeithasol; a labordy
 Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Spikes Cavell

1.5 Roedd y gwariant ar wasanaethau ymgynghori yn 2010-11 yn cynnwys taliadau i 1,129 o gyflenwyr. Nid oeddem yn gallu cadarnhau cyfanswm nifer y contractau ymgynghori oherwydd ni fydd cyrff cyhoeddus yn casglu'r wybodaeth hon yn rheolaidd. Fodd bynnag, gwelsom y gall y gwariant ar wasanaethau ymgynghori gynnwys nifer o gontractau mawr. Er enghraifft, o'r £4.5 miliwn a wariwyd gan Gyngor Caerdydd ar wasanaethau ymgynghori yn 2010-11, roedd oddeutu £1 miliwn o'r swm hwn wedi'i wario ar ei raglen trawsnewid.

1.6 Yn 2010-11, llywodraeth leol oedd y sector a oedd yn gwario'r swm mwyaf ar wasanaethau ymgynghori (£86 miliwn). Roedd Llywodraeth Cymru yn gwario ychydig yn llai na hanner y swm hwnnw (£42 miliwn). Mae'r gwario gan y sector iechyd wedi bod yn llai nag mewn sectorau eraill, ac yn 2010-11, gwariodd £5.5 miliwn ar wasanaethau ymgynghori (Ffigur 3).

Ffigur 3 - Gwariant ar wasanaethau ymgynghori fesul sector yn 2007-08 ac yn 2010-11



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Spikes Cavell a Datganiadau Ariannol y GIG



1.7 Er mwyn cael dull o fesur i ba raddau y bydd gwahanol gyrrff cyhoeddus yn defnyddio gwasanaethau ymgynghori, cyfrifwyd cost gwasanaethau ymgynghori fel canran o gyfanswm costau'r cyflogau⁸ yn 2010-11 (**Ffigur 4**). Roedd hyn yn dangos bod gwariant Llywodraeth Cymru ar wasanaethau ymgynghori yn 16 y cant o gostau ei chyflogau. Roedd hyn yn cymharu â 3.1 y cant ar gyfartaledd gan lywodraeth leol ac 1.6 y cant gan ieuchyd. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad yw ei ffigur yn golygu ei bod yn dibynnu ar wasanaethau ymgynghori i gynnal niferoedd cyffredinol y staff a'i gweithgarwch rheolaidd. Yn hytrach, gwariant yw hwn ar adnoddau nad yw'n eu defnyddio i raddau sylweddol, a hynny er mwyn cynnig arbenigedd i helpu rhaglenni a phrosiectau penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn meddwl y bydd galw o hyd am sgiliau arbenigol am gyfnod penodol, a gwybodaeth na all ond ymgynghorwyr yn aml eu darparu, er enghraifft i gefnogi rhoi meddalwedd busnes a rheolaeth ariannol neu ei raglen adeiladu ffordd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau ei gwariant ar wasanaethau ymgynghori 19 y cant dros dair blynedd hyd at 2010-11

1.8 Mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau ei gwariant ar wasanaethau ymgynghori 19 y cant dros y tair blynedd diwethaf, sef o £52 miliwn yn 2007-08 i £42 miliwn yn 2010-11. Mae hyn yn ostyngiad o 22 y cant i 16 y cant yn y swm a wariwyd ar wasanaethau ymgynghori fel canran o gyfanswm costau ei chyflogau.

1.9 Sefydlodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen *Llwyddo â Llai* ym mis Chwefror 2010 (**Blwch 3**) a oedd yn dweud bod gwariant ar ymgynghori (yn enwedig ar ymgynghori ym maes rheoli⁹) yn faes targed ar gyfer rhyddhau arbedion. Mewn papur gan Wasanaeth Caffael Corfforaethol Llywodraeth Cymru i Fwrdd Cyflawni a Pherfformio Strategol Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2011 soniwyd am y cynnydd diweddaraf o ran gwaith i leihau'r gwariant ar ymgynghori ym maes rheoli. Yn y papur, wrth grynhoi, dywedwyd bod y gwariant ar ymgynghori ym maes rheoli wedi gostwng o £10.8 miliwn yn 2009-10 i £4.2 miliwn yn 2010-11, a hynny'n bennaf drwy ddefnyddio'r staff a oedd ar gael yn hytrach na phrynu ymgynghorwyr allanol.¹⁰ Nid yw meysydd eraill gwasanaethau ymgynghori wedi'u targedu na'u dadansoddi yn yr un ffordd.

Blwch 3 – Rhaglen *Llwyddo â Llai* Llywodraeth Cymru

Sefydlodd Llywodraeth Cymru'r rhaglen *Llwyddo â Llai* ym mis Chwefror 2010, gyda'r nod o ymgysylltu â staff i ganfod ffyrdd o leihau costau cynnal Llywodraeth Cymru. Y nod oedd gostwng cyllideb ei gwasanaethau canolog £77 miliwn mewn termau real rhwng 2010-11 a 2013-14. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod y rhaglen wedi arbed oddeutu £14 miliwn hyd at ddiwedd Mai 2011, er nad yw'r amcangyfrif hwn wedi'i ddilysu'n annibynnol.


Ffynhonnell: Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011, Swyddfa Archwilio Cymru

⁸ Mae 'cost cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau am swyddfa breifat; ac unrhyw lwfans arall, i'r graddau ei bod yn cael ei threthu yn y Deyrnas Unedig.

⁹ Diffiniad Cymdeithas yr Ymgynghorwyr Rheoli o ymgynghori ym maes rheoli yw creu gwerth i sefydliadau, drwy wella perfformiad, a hynny drwy gynnig cyngor gwrthrychol a rhoi atebion busnes ar waith.

¹⁰ *Reducing Consultancy Spend across Welsh Government, Gorffennaf 2011*

Ffigur 4 - Gwariant 2010-11 ar wasanaethau ymgynghori fel canran o gyfanswm costau cyflogau



Nodyn: Dim ond i staff gweinyddol, clericio, cynnal a chadw a gweithfeydd y mae costau cyflogau ar gyfer cyrff iechyd yn berthnasol; nid ydynt yn cynnwys costau staff meddygol, deintyddol, nyrsio a therapiwtig.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Spikes Cavell; Datganiadau Ariannol Byrddau Iechyd 2010-11; Cyfrifon Llywodraeth Gyfan 2010-11; ac Adroddiad a Chyfrifon Adnoddau Cyfunol Blynnyddol Llywodraeth Cymru 2010-11



1.10 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod y cyhoedd yn meddwl yn gyffredinol mai 'moethusrwydd drud' yw ymgynghorwyr, ac y dylai defnyddio llai arnynt nid yn unig leihau costau, ond hefyd osgoi ymateb negyddol gan y cyhoedd mewn cyfnod ariannol llwm. Er bod *Llwyddo â Llai* wedi golygu bod y Llywodraeth wedi gwario llai ar ymgynghorwyr rheoli dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar ostwng costau, yn hytrach nag ar ddull mwy strategol o sicrhau'r gwerth gorau am arian gan ymgynghorwyr.

Mae llywodraeth leol a'r sector iechyd hefyd wedi lleihau eu gwariant ar wasanaethau ymgynghori

1.11 Er nad oes data ar gael inni allu cymharu o flwyddyn i flwyddyn, mae'r sector llywodraeth leol ac iechyd hefyd wedi gostwng eu gwariant ar wasanaethau ymgynghori rhwng 2007-08 a 2010-11 (**Ffigur 3**).¹¹ Llwyddodd y sector llywodraeth leol i leihau ei wariant 21 y cant (£24 miliwn), a'r sector iechyd 50 y cant (£5.5 miliwn).

1.12 Ar wahân i raglen *Llwyddo â Llai* Llywodraeth Cymru, ni welsom ddim cynlluniau na chyfarwyddiadau eraill ar waith drwy'r sector i leihau'r gwariant ar wasanaethau ymgynghori. Er bod rhai awdurdodau lleol a byrddau iechyd unigol wedi dweud wrthym eu bod wedi targedu gwariant ar wasanaethau ymgynghori'n faes ar gyfer lleihau gwariant mewn cyfnod ariannol llwm, nid oedd ganddynt ymagwedd strategol at wneud hynny.

Ychydig o gyrff cyhoeddus sydd ag ymagwedd strategol tuag at gaffael a rheoli ymgynghorwyr a honno'n seiliedig ar ddata dibynadwy

1.13 Nid yw lleihau gwariant ar ei ben ei hun yn golygu bod gyrff cyhoeddus yn cael gwell gwerth am arian wrth wario ar wasanaethau ymgynghori. Er mwyn sicrhau gwerth da am arian, mae angen i gyrff cyhoeddus fabwysiadu ymagwedd strategol at gaffael a rheoli ymgynghorwyr. Mae angen iddynt asesu'n effeithiol pam mae angen adnoddau allanol arnynt fel rhan o drefniadau gynllunio da ar gyfer eu gweithlu, ac wedyn, mae angen iddynt gynllunio, caffael, rheoli, cyflwyno adroddiadau, gwerthuso a gwella'n barhaus y ffordd y byddant yn defnyddio ymgynghorwyr. Mae angen data o ansawdd da hefyd i sicrhau gwerth am arian yn sgil y gwario.

Dim ond 20 y cant o gyrff cyhoeddus Cymru sydd â strategaeth benodol ar gyfer caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori, ac roedd ansawdd y canllawiau a oedd ar gael yn amrywiol

1.14 Fel rhan o'n harolwg ymhlith gyrff cyhoeddus, gofynnwyd a oedd ganddynt strategaeth benodol ar gyfer caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori. Dim ond un o bob pump a ddywedodd wrthym fod ganddynt strategaeth. Fodd bynnag, wrth archwilio'n fanylach, gwelsom nad oedd y rhan fwyaf o'r strategaethau'n fawr mwy na chanllawiau neu bolisi ynglŷn â sut i brynu gwasanaethau ymgynghori, yn hytrach nag yn ymagwedd strategol at gaffael a rheoli'r gwasanaethau hynny. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Penfro wedi cynhyrchu ei

¹¹ Nid oes data ar gael ar gyfer y blynyddoedd rhwng y rhain. Talodd Llywodraeth Cymru i Spikes Cavell gasglu data llywodraeth leol a'i data hi ei hun yn 2007-08 ac yn 2010-11 (roedd hyn hefyd yn cynnwys byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd) yn unig. Tynnwyd data'r sector iechyd ar gyfer 2007-08 o'r datganiadau ariannol.

ganllawiau mewnol ei hun ynglŷn â sut mae caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori, ond dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym mai strategaeth y Cyngor yw defnyddio cyn lleied o ymgynghorwyr ac sy'n bosibl drwy chwilio am y sgiliau perthnasol yn fewnol yn gyntaf a defnyddio'u staff ei hun i'r eithaf. Fodd bynnag, nid yw'r strategaeth hon yn cael ei mynegi mewn unrhyw un o bolisiau na chanllawiau'r sefydliad.

1.15 Roedd y canllawiau a'r polisiau a gynhyrchwyd gan y cyrff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy'n amrywio o ran eu hansawdd ac roeddent yn aml yn hen. Er enghraifft, roedd Llywodraeth Cymru yn seilio'i chanllawiau cyfredol ar gyfer caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori ar ganllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n dweud, pan fydd swyddogion yn cyflogi ymgynghorwyr, ei bod yn rhaid iddynt hysbysu'r Uned Effeithlonrwydd; y gall rheolwyr prosiectau gysylltu â'r Uned Effeithlonrwydd i gael cyngor ynglŷn â rheoli prosiect; ac y dylai Rheolwyr Prosiectau ymgynghori â'r Uned Effeithlonrwydd ynglŷn â chynigion yn fuan yn y broses, er mwyn penderfynu a oes modd gwneud y gwaith yn fewnol. Fodd bynnag, nid yw'r Uned Effeithlonrwydd yn rhan o Lywodraeth Cymru. Un o gyn-adrannau Swyddfa'r Cabinet yw hi nad yw'n bodoli rhagor.

1.16 Ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf, gwelsom nad oedd rhai rhannau o'r sefydliad yn ymwybodol o'r canllawiau a oedd ar gael. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael ganllawiau'r Bwrdd Iechyd ar gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori inni, ond roedd rhai adrannau y tu allan i'r adrannau Caffael a Chyllid nad oeddent yn ymwybodol o'r canllawiau hyn.

Ychydig y bydd cyrff cyhoeddus yn ei wneud i gasglu a dadansoddi gwybodaeth reoli er mwyn i hynny ategu ymagwedd strategol at gaffael a rheoli ymgynghorwyr

- 1.17** Ni fydd cyrff cyhoeddus yn casglu digon o wybodaeth reoli berthnasol yn rheolaidd i ategu strategaeth ynglŷn â defnyddio ymgynghorwyr, ac i fod yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau doeth ynglŷn â'u gofynion ar y pryd ac yn y dyfodol o ran gwasanaethau ymgynghori. Mae arferion da'n awgrymu y dylai cyrff cyhoeddus, fan leiaf, gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y canlynol:
- a** yr arian a wariwyd yn y gorffennol a'r arian yr amcangyfrifir a gaiff ei wario yn y dyfodol ar wasanaethau ymgynghori, mewn meysydd gwasanaeth unigol ac ar draws y sefydliad;
 - b** y math o wasanaethau ymgynghori a brynir a'r tueddiadau o ran eu defnyddio;
 - c** y bylchau sgiliau sy'n sbarduno'r galw am wasanaethau ymgynghori;
 - ch** perfformiad ymgynghorwyr;
 - d** y gwerth a'r manteision a ddarperir gan ymgynghorwyr;
 - dd** gwybodaeth reoli am gontractau, megis oes contractau ac estyn y cyfnodau hynny;
 - e** amcangyfrifon ynglŷn â'r gwasanaethau ymgynghori y bydd gofyn amdanynt yn y dyfodol.



1.18 Yn ein harolwg ac wrth inni ymweld â chyrrff cyhoeddus, ni welwyd dim tystiolaeth fod unrhyw fath o wybodaeth reoli fel hyn yn cael ei chasglu a'i dadansoddi'n systematig. Ni welsom ychwaith ddim cynlluniau sector cyfan na gwaith gan Gwerth Cymru i gasglu a dadansoddi gwybodaeth reoli o'r math hwn. Er bod rhywfaint o wybodaeth reoli wedi'i darparu yn sgil ymarfer casglu data a dadansoddi Spikes Cavell, nid yw ar gael o'r naill flwyddyn i'r llall oni fydd cyrrff cyhoeddus yn penderfynu eu hunain i dalu am gasglu'r data a'u dadansoddi. Dim ond pedwar awdurdod lleol sydd wedi gwneud hyn.

1.19 Dim ond o fis Ebrill 2012 y darparwyd set gyfan data 2010-11 gan Spikes Cavell. Y rheswm pennaf dros yr oedi hwn oedd anallu llawer o gyrff cyhoeddus sy'n cymryd rhan i ddarparu'r data crai angenrheidiol o'u systemau rheoli ariannol. Roedd hyn yn cyfyngu ar y ffordd y gellid defnyddio'r data, er enghraifft, ar gyfer dadansoddi sectorau unigol a Chymru gyfan. Roedd y bwlch amser rhwng y gwario mewn gwirionedd ar wasanaethau ymgynghori yn 2010-11 a'r adeg pan oedd gwybodaeth reoli Spikes Cavell ar gael hefyd yn golygu nad oedd modd i gyrff cyhoeddus ddefnyddio'r wybodaeth er mwyn llunio ymagwedd strategol at gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori a'i seilio ar yr wybodaeth reoli ddiweddaraf, nac ychwaith i oleuo penderfyniadau prynu yn 2011-12.

Mae ansicrwydd ynghylch cywirdeb a chysondeb y data am wariant

1.20 Wrth wneud ein gwaith maes, daethom ar draws nifer o anawsterau wrth geisio cael gwybodaeth reoli gywir, ddibynadwy a chyson, yn enwedig o ran gwariant ar brosiectau gwasanaethau ymgynghori. Er enghraifft,

ar gyfer llawer o brosiectau, ni allem gyfatebu'r anfonebau a'r data am wariant a gadwai cyrrff cyhoeddus â chontractau neu brosiectau unigol.

1.21 Mae'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth ansawdd y data am wariant yn gyson â chanfyddiadau archwiliadau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig (**Ffigur 5**).

1.22 Oherwydd y diffyg gwybodaeth ddibynadwy a chyson gan gyrff cyhoeddus, prif ffynhonnell yr wybodaeth yw honno a ddarperir gan Spikes Cavell. Er bod yr wybodaeth sy'n cael ei darparu gan Spikes Cavell yn dod gan gyrff cyhoeddus, oherwydd bod Spikes Cavell yn glanhau'r data (**Blwch 2**) mae'n fwy cynhwysfawr a dibynadwy na'r wybodaeth a ddarperir gan gyrff cyhoeddus yn uniongyrchol. Fodd bynnag, dim ond amcangyfrif bras o'r gwariant ar wasanaethau ymgynghori y mae'r wybodaeth gan Spikes Cavell yn ei ddarparu. Y rheswm dros hyn yw bod y dadansoddi wedi'i seilio ar brif weithgarwch y cyflenwr yn hytrach nag ar yr union wasanaethau a ddarperir. Er enghraifft, os peirianeg sifil yw prif weithgarwch busnes cyflenwr, ac os bydd hefyd yn darparu gwasanaethau ymgynghori, bydd unrhyw wariant ar wasanaethau ymgynghori'n cael ei ystyried yn wariant ar beirianeg sifil, oherwydd mai dyna brif weithgarwch busnes y cwmni. Er hyn, mae'r wybodaeth reoli gan Spikes Cavell yn cynnig rhywfaint o gysondeb ar gyfer meincnodi ar draws cyrrff cyhoeddus a sectorau nad oes modd ei gael drwy ddadansoddi a chymharu gwybodaeth reoli a ddarperir gan y cyrrff cyhoeddus unigol.

Ffigur 5 - Canfyddiadau archwiliadau ynglŷn ag ansawdd gwybodaeth am wariant ar wasanaethau ymgynghori yn y Deyrnas Unedig

Corff archwilio	Adroddiad	Canfyddiad lefel uchel
Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon	<i>Use of Consultants (2004)</i>	Mae Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon yn cadw manylion am wariant ar ymgynghori, ond mae'r wybodaeth y mae'n ei chasglu'n amrywiol ac yn gyfyngedig o ran ei natur. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i fonitro ac archwilio'n ddigonol y gwariant ar ymgynghori mewn adrannau.
	<i>Use of External Consultants by Northern Ireland Departments: Follow-up Report (2011)</i>	Mae'r data am wariant a gafwyd a'r sampl o gontractau ymgynghori allanol a aseswyd yn dangos gwallau penodol. Roedd hyn yn cynnwys darparu ffigurau am wariant a oedd yn anghyson â'r rheini a gyhoeddwyd yn adroddiad cydymffurfio blynyddol yr Adran Gyllid a Phersonél.
Swyddfa Archwilio'r Alban	<i>Central Government's use of consultancy services (2009)</i>	Nid oes cofnodion canolog ac mae ymgynghori'n cael ei gategoreiddio mewn ffordd gul. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd canfod faint y mae llywodraeth ganol yn ei wario ar wasanaethau ymgynghori a sut mae'r gwariant hwn yn newid dros gyfnod.
Swyddfa Archwilio Genedlaethol	<i>Central Government's use of consultants (2006)</i>	Mae Swyddfa Masnach y Llywodraeth wedi casglu gwybodaeth am wariant ar ymgynghorwyr yn y gorffennol fel rhan o ymarfer sy'n edrych ar wariant y llywodraeth. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgarwch hwn yn cael ei wneud rhagor gan fod yr wybodaeth a ddarperid gan yr adrannau'n anghyson ac yn anghyflawn. Roedd hyn yn dibrisio gwerth yr ymarfer.
	<i>Central Government's use of consultants and interims (2010)</i>	Yn gyffredinol, mae ansawdd gwybodaeth reoli adrannau'n wael. Ychydig o ddyfnder sydd i'r wybodaeth reoli am ymgynghorwyr. Ychydig o adrannau sy'n gallu darparu gwybodaeth gywir am gategoreiddio'r gwariant yn ôl math o wasanaeth ymgynghori.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon; Swyddfa Archwilio'r Alban; a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol



Mae cyrff cyhoeddus yn diffinio gwasanaethau ymgynghori mewn gwahanol ffyrdd

1.23 Mae'r data ynglŷn â gwariant ar ymgynghori'n llai dibynadwy a chymaradwy eto oherwydd bod cyrff cyhoeddus yn diffinio gwasanaethau ymgynghori'n wahanol i'w gilydd a'u bod yn eu diffinio'n wahanol hefyd o fewn eu cyrff hwy eu hunain. Wrth inni drafod â Gwerth Cymru ac ymweld â chyrff cyhoeddus, gwelsom nad oes diffiniad safonol o wasanaethau ymgynghori. Oherwydd nad oes diffiniad clir o wasanaethau ymgynghori, neu oherwydd bod gwahanol ddiffiniadau'n cael eu defnyddio, bydd cyrff cyhoeddus yn codio'r gwariant mewn ffordd anghyson ar eu systemau ariannol.

1.24 Yn ystod ein hymweliadau, gwelsom fod rhai cyrff cyhoeddus yn diffinio gwasanaethau ymgynghori fel ymgynghori ym maes rheoli'n unig, ac nad oeddent yn cynnwys meysydd eraill lle y dyfarnwyd contractau i gyrff allanol i wneud gwaith prosiect ac iddo ben draw penodol. Ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf, nid oedd un o'r uwch reolwyr yn sylweddoli bod diffiniad y Bwrdd Iechyd o wasanaethau ymgynghori'n ehangach na dim ond ymgynghori ym maes rheoli. Wrth inni ymweld â Chyngor Caerdydd, dywedwyd wrthym eu bod wedi sylweddoli nad oedd yr un diffiniad cenedlaethol cydnabyddedig o wasanaethau ymgynghori ar gael. Yn sgil hyn, mabwysiadwyd y diffiniad yr ydym wedi'i ddefnyddio yn yr astudiaeth hon ganddynt (**Blwch 1**). Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Sir Benfro wrthym nad oes ganddynt unrhyw ddiffiniad corfforaethol o wasanaethau ymgynghori. Dywedodd Cyngor Penfro wrthym y byddai'n cynnwys diffiniad ffurfiol o wasanaethau ymgynghori y tro nesaf y byddant yn diwygio'u Protocol ar gyfer Penodi Ymgynghorwyr.

1.25 At ddibenion yr astudiaeth hon, archwiliwyd prosiectau ymgynghori a oedd yn dod o dan y diffiniad o wasanaethau ymgynghori a ddefnyddid gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn eu hadroddiadau yn 2006 a 2010 sef, Central Government's use of Consultants, ar y sail bod y mathau o brosiectau sy'n dod o dan y diffiniad yn cynnwys yr un mathau o risg, ac felly bod gofyn cael trefniadau cynllunio, caffael, rheoli contractau a gwerthuso priodol ar eu cyfer. Mae'r diffiniad a ddefnyddir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn debyg iawn i'r diffiniad a ddefnyddir gan Swyddfa'r Cabinet (**Blwch 1**).¹² Dyma'r diffiniad a ddefnyddiwyd gennym yn ein harolwg o gyrff cyhoeddus. Yn ystod ein gwaith maes, gwelsom fod sawl corff cyhoeddus (Cyngor Caerdydd er enghraifft) wedi mabwysiadu'r diffiniad hwn wedyn, gan nad oedd ganddynt ddiffiniad cyn hynny.

¹² Central Government's use of Consultants, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2006; Central Government's use of Consultants and Interims, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2010

Rhan 2 - Ychydig o gydweithredu sydd rhwng cyrff cyhoeddus wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn archwilio cynlluniau'r sector cyhoeddus sydd wedi ceisio sicrhau mwy o gydweithredu a chydlynu wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori ledled Cymru, o fewn sectorau ac ar draws rhanbarthau. Gall caffael cydweithredol arbed arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau am y rhesymau a ganlyn:

- a** drwy ddefnyddio cydwybodaeth am y farchnad i herio prisiau cyflenwyr, dylai hynny ostwng prisiau;
- b** drwy gronni'r galw, dylai hynny gryfhau'r pŵer prynu;
- c** drwy ddileu ymarferion tendro dyblyg, dylai hynny arwain at gostau gweinyddu is;
- ch** drwy weinyddu llai o anfonebau a thrafodion, dylai hynny ostwng costau trafodaethol.

Ychydig o effaith y mae cynlluniau sy'n ceisio sicrhau ymagweddau mwy cyson a chydlynol ar draws sectorau ac o'u mewn wedi'i chael hyd yn hyn

2.2 Yn 2011, cyhoeddodd Tasglu Caffael y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi (**Blwch 4**) adroddiad a oedd yn archwilio cyfleoedd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd wrth gaffael ac i gefnogi adfywio economaidd ledled Cymru. Casgliad yr adroddiad oedd bod cyfanswm y gwariant ar nwyddau a gwasanaethau ledled y sector cyhoeddus yn rhy dameidiog o hyd, ac, er bod pocedi o ragoriaeth mewn rhai sectorau, bod gennym, ar y cyfan, ormod o sefydliadau sy'n prynu eitemau tebyg ar wahân.¹³ Dywedai'r adroddiad hefyd, lle bydd cyrff yn cydweithredu, bod yr ymddygiad ar brydiau'n tanseilio'r manteision, oherwydd bod cyndynrwydd i gyfaddawdu ynglŷn â manylebau a chomisiynu mewn ffordd wahanol, ac mae hyn yn atgyfnerthu'r diwylliant sy'n bodoli eisoes.

2.3 Yn adroddiad y Tasglu Caffael, nodwyd bod ymgynghori'n faes gwariant mawr ac roedd yn argymhell y dylai cyrff cyhoeddus archwilio'r posibiladau ar gyfer cytundebau Cymru gyfan, yn enwedig yn y meysydd lle y gwerid y symiau mwyaf ar ymgynghori, sef ar TGCh, eiddo ac adeiladu a rheoli.

¹³ *Buying Smarter in Tougher Times: Conclusions and Recommendations of the Efficiency and Innovation Board Procurement Taskforce*, Chwefror 2011



Blwch 4 – Y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi a Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlwyd Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi ar gyfer y sector cyhoeddus drwyddo draw gan Lywodraeth Cymru yn 2010 i ddarparu fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu dull o leihau costau a gwella gwasanaethau drwy effeithlonrwydd ac arloesi. Daeth y rhaglen ag arweinwyr y sector cyhoeddus ynghyd i ddatblygu prosiectau ar draws ystod eang o feysydd, gan gynnwys caffael a chomisiynu. Un o is-grwpiau'r ffrwd waith Caffael a Chomisiynu oedd y Tasglu Caffael, ac roedd yn cynnwys arbenigwyr caffael o ystod o gyrff cyhoeddus. Nod y Tasglu oedd archwilio 'gallu' (sgiliau, systemau, seilwaith, prosesau – h.y. sut mae'r gwaith caffael yn cael ei wneud) a 'chategoriâu' o wariant (archwilio strategaethau a'r cyfleoedd a oedd ar y pryd ym mhreif feysydd gwariant sector cyhoeddus Cymru).

Ar ôl etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011, penderfynodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau dynnu'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi i ben a sefydlu'r Grŵp Arwain Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei lle. Mae'r grŵp newydd hwn wedi bwrw ymlaen â llawer o waith y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi. Mae'r grŵp yn cynnwys Bwrdd Caffael sy'n ceisio:

- datblygu cynigion ar gyfer Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yng nghyswllt gwariant cyffredin ac ailadroddus;
- mabwysiadu arfau caffael ar-lein a defnyddio rhagor arnynt;
- symleiddio a safoni arferion caffael ar draws y sector cyhoeddus;
- annog rhagor o ddefnydd ar gytundebau caffael cydweithredol.

Mae lle i sicrhau mwy o gydweithredu wrth gaffael gwasanaethau ymgynghori

2.4 Yn ein harolwg o gyrff cyhoeddus, gwelwyd bod 35 y cant wedi cydweithredu â chyrrff cyhoeddus eraill wrth gaffael gwasanaethau ymgynghori yn ystod y tair blynedd flaenorol. Fodd bynnag, wrth ymweld â chyrrff cyhoeddus, gwelsom fod llai o gydweithredu na'r hyn a awgrymwyd yn yr arolwg. Dim ond un cytundeb fframwaith a welsom – i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol – a ddefnyddir ledled y sector cyhoeddus yng Nghymru. Lle'r oedd cydweithredu, y duedd oedd bod hynny'n digwydd ar raddfa fach o ran gwariant a dim ond nifer fach o gyrff cyhoeddus a oedd yn rhan o'r broses. Dyma ambell enghraifft:

- a sawl cytundeb rhwng awdurdodau lleol i gaffael gwasanaethau ymgynghori ym maes peirianeg ac adeiladu;
- b cydweithredu rhwng sawl un o awdurdodau lleol y gogledd er mwyn cael cyngor gan ymgynghorwyr ynglŷn â sefydlu gwasanaeth caffael rhanbarthol;
- c cydweithredu rhwng Cyngor Powys a Chyngor Gwynedd i gael cyngor gan ymgynghorwyr ynglŷn â sefydlu cwmni cydfenter ym maes gwasanaethau peirianeg, adeiladu ac eiddo;
- ch tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn trefnu i gaffael ymgynghorwyr ar y cyd i adolygu eu gwasanaethau rheoli datblygu.

2.5 Ar sail ein dadansoddiad o wariant yn 2010-11 a'n hymweliadau â chyrrff cyhoeddus, credwn fod lle i lawer mwy o gydweithredu rhwng cyrrff cyhoeddus wrth gaffael gwasanaethau ymgynghori. Er bod rhai prosiectau ymgynghori efallai'n berthnasol mewn ffordd benodol iawn i gyrff cyhoeddus unigol, mae llawer o rai eraill, o ran eu natur, yn rhai sy'n awgrymu y dylid ystyried y posibilrwydd o gydweithredu (**Ffigur 6**). Er enghraifft, gwelsom fod 18 y cant (£23.7 miliwn) o'r holl wariant ar ymgynghori ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru yn 2010-11 wedi'i wario drwy Grŵp Capita. Roedd hyn yn cynnwys contractau rhwng Grŵp Capita a 24 o gyrff cyhoeddus.

Mae Gwerth Cymru yn pwysu a mesur a fyddai'n fuddiol sefydlu gwasanaeth cynghori ar ddefnyddio ymgynghorwyr

2.6 Yn 2010, adolygodd Gwerth Cymru wariant sector cyhoeddus Cymru ar ymgynghori, gan seilio hynny ar y data am wariant a ddarparwyd gan Spikes Cavell ar gyfer 2007-08.¹⁴ Roedd yr adroddiad a ddeilliodd o hynny'n sôn am gynlluniau rhagarweiniol i ddatblygu gwasanaeth cynghori ar ddefnyddio ymgynghorwyr i'r holl gyrff cyhoeddus. Byddai'r gwasanaeth yn llwyfan i gynnig canllawiau a rhannu gwybodaeth am yr arferion gorau wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori.

Ffigur 6 - Meysydd cydweithredu posibl ar gyfer gwasanaethau ymgynghori

Maes cydweithredu posibl	Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwariant yn 2010-11
Rheoli'r Trysorlys	Contractau gydag 13 o gyrff llywodraeth leol a chyrrff Tân ac Achub - cyfanswm y gwariant yn £700,000. Roedd gan bob un o'r 13 sefydliad gontract ar wahân gyda Sector Treasury Services Ltd, sy'n rhan o Grŵp Capita.
Gwasanaethau cymorth busnes	Contractau gyda 42 o wahanol gyflenwyr, gwariant yn £8.5 miliwn. Roedd 22 o gyrff cyhoeddus, ar draws pob sector, wedi defnyddio PricewaterhouseCoopers.
Ymgynghori ym maes eiddo ac adeiladu	Er bod gwahanol gytundebau fframwaith ar waith ar gyfer ymgynghori ym maes adeiladu, mae lle i gydweithredu rhagor. 345 o wahanol gyflenwyr, gwariant yn £54 miliwn. Bydd 14 o gyrff cyhoeddus yn contractio gyda Capita, gwariant yn £11.5 miliwn.
Marchnata a chyfathrebu	Contractiodd chwech o gyrff cyhoeddus ag Euro RSCG Riley, gwariant yn £1.5 miliwn.
Ymgynghori ym maes rheoli	Contractau gyda 488 o wahanol gyflenwyr, gwariant yn £46 miliwn. Bydd 24 o gyrff cyhoeddus yn contractio gyda Capita, gwariant yn £5.5 miliwn.

Ffynhonnell: Gwaith maes a dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Spikes Cavell

14 Consultancy Expenditure Review Report, Gwerth Cymru, 2010



- 2.7** Mae Gwerth Cymru ar hyn o bryd yn mynd drwy gamau cyntaf datblygu'r achos busnes ar gyfer y gwasanaeth gyda golwg ar ei lansio ym mis Ebrill 2013. Nid yw'r trefniadau llywodraethu ac ariannu ar gyfer y gwasanaeth wedi'u pennu eto.

Dylai Gwasanaeth Caffael Partneriaeth Cydwasaethau'r GIG arwain at well caffael cydweithredol ym maes gwasanaethau ymgynghori, ond mae'n rhy fuan i ddweud eto pa ddylanwad a gaiff

- 2.8** Sefydlwyd Gwasanaeth Caffael Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ym mis Ebrill 2011. Mae'n cyfuno'r swyddogaethau caffael a fu gynt yn rhan o'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd unigol ac o sefydliad Cyflenwadau Iechyd Cymru¹⁵ nad yw'n bodoli rhagor. Nod y Gwasanaeth yw cryfhau'r gwaith cydweithredol a safoni systemau, prisiau a gweithdrefnau.
- 2.9** Mae'r gwaith cychwynnol gan y Gwasanaeth Caffael wedi dweud bod gwasanaethau ymgynghori tua brig rhestr o feysydd gwario cyffredin ac ailadroddus yn y GIG. Mae'r Gwasanaeth wrthi yn awr yn gweld beth yw'r potensial ar gyfer arbed a sicrhau manteision eraill drwy gaffael cydweithredol, ond mae'n rhy fuan dweud pa ddylanwad a gaiff y Gwasanaeth o ran hwyluso rhagor o gydweithredu.

Nid yw consortia caffael Llywodraeth Leol ar hyn o bryd yn caffael gwasanaethau ymgynghori ar ran eu haelodau

- 2.10** Mae cydweithredu wedi bod yn un o nodweddion caffael llywodraeth leol ers ffurfio Consortiwm Prynu Cymru, corff sydd wedi'i seilio yn y de'n bennaf, yn 1974, a Phartneriaeth Caffael Gogledd Cymru yn 2008 (**Blwch 5**).

Blwch 5 – Consortia caffael llywodraeth leol

Consortiwm Prynu Cymru

Mae Consortiwm Prynu Cymru yn cynnwys 16 awdurdod lleol yn y de, y canolbarth a'r gorllewin. Nod y Consortiwm yw sicrhau ystod o fanteision i'w aelodau. Mae'r rhain yn cynnwys darparu trefniadau caffael cystadleuol, sydd wedi arwain at arbedion sylweddol ac arbedion effeithlonrwydd eraill, rhannu'r arferion gorau, a datblygu a mabwysiadu cyfres o ddogfennau caffael safonol. Mae tîm rheoli canolog, sy'n cynnwys rheolwr caffael a dau arbenigwr caffael, yn ategu'r Consortiwm, sy'n cael ei lywodraethu gan fwrdd rheoli a hwnnw'n cynnwys cynghorwyr a swyddogion caffael o bob awdurdod sy'n aelod. Bydd pob awdurdod sy'n aelod yn trefnu contractau neu gytundebau fframwaith ar ran pob un o'r 16 awdurdod lleol.

Partneriaeth Caffael Gogledd Cymru

Ffurfiodd chwe Chyngor Gogledd Cymru bartneriaeth caffael yn 2008, a'i nod oedd arbed miliynau o bunnoedd ar gostau nwyddau a gwasanaethau a brynwyd ganddynt. Cyngor Gwynedd sy'n cynnal y Bartneriaeth ac mae ganddi dîm bychan o staff sy'n gweithio gyda grwpiau o swyddogion caffael proffesiynol drwy'r rhanbarth i brynu rhagor o nwyddau a gwasanaethau ar y cyd. Noddir y Bartneriaeth gan bob un o chwe Chyngor y gogledd, ac fe'i rheolir gan fwrdd rheoli ar y cyd.

- 2.11** Ym mis Ionawr 2009, sefydlodd Consortiwm Prynu Cymru Grŵp Gwasanaethau Proffesiynol ac Anghenion Corfforaethol, un o chwe grŵp o gategoriâu sy'n pennu pa nwyddau a gwasanaethau a brynir drwy'r consortiwm drwy broses rheoli categorïau (**Blwch 6**). Un o'r meysydd sy'n flaenoriaeth ar gyfer rhagor o gydweithredu a nodwyd gan y Grŵp yw gwasanaethau ymgynghori.

¹⁵ Roedd Cyflenwadau Iechyd Cymru yn darparu gwasanaethau ar gyfer GIG Cymru ac fe reolid y gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg fel yr oedd ar y pryd. Ei rôl oedd darparu dwy ddolen bwysig yn y gadwyn gyflenwi i Ymddiriedolaethau GIG Cymru: negodi contractau a rheoli stociau a rhestrau deunyddiau.

Blwch 6 – Rheoli Categorïau

Rheoli categorïau yw grwpio (yn gategorïau) nwyddau a gwasanaethau tebyg neu gysylltiedig megis offer swyddfa neu wasanaethau proffesiynol. Drwy reoli categorïau, anogir sefydliadau i symud oddi wrth bocedi o gaffael a thug at dull mwy strategol a allai ryddhau arbedion drwy symleiddio'r gweithgarwch caffael.

Mae nifer o elfennau allweddol ynghlwm wrth reoli categorïau: diffinio'r categorïau a'r is-gategorïau; deall gofynion mewnol a rhanddeiliaid ar gyfer pob categori; deall y farchnad a'r cyflenwyr ar gyfer pob categori; datblygu strategaethau a chynlluniau ar gyfer y categorïau; gwerthuso a dethol opsiwn cyflenwi a llwybr contractio ar gyfer pob ymarfer caffael yn y categori; dethol cyflenwyr; rhoi contractau ar waith; a rheoli contractau a chyflenwyr.

Mae gwasanaethau proffesiynol, gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori, yn rhan o bob categori. Mae'r Bartneriaeth yn archwilio meysydd cydweithredu posibl ar gyfer gwasanaethau ymgynghori, ac wedi nodi bod adnewyddu fframwaith gwasanaethau proffesiynol ym maes adeiladu'n flaenoriaeth.

Mae cynllun ar y gweill i sefydlu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gyda'r nod o fod yn gyfrwng strategol i hwyluso arbedion wrth gaffael drwy sicrhau gwell cydweithredu ar draws pob rhan o'r sector cyhoeddus

- 2.12** Mae'r Grŵp Gwasanaethau Proffesiynol ac Anghenion Corfforaethol wedi dweud bod rheoli'r trysorlys ac yswiriant yn ddau faes gwario ar ymgynghori lle y gellid cydweithredu. Fodd bynnag, nid yw'r swyddogion sy'n arwain y Grŵp wedi gweld fawr o archwaeth am gydweithredu ymhlith swyddogion yr awdurdodau lleol sy'n rheoli contractau ymgynghori ar hyn o bryd yn y meysydd hyn. Mae'r Grŵp wedi cydnabod, er bod swyddogion caffael mewn awdurdodau lleol yn deall manteision posibl cydweithredu, bod angen iddo wneud rhagor i argyhoeddi'r rheolwyr contractau sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn feunyddiol ynglŷn â'r manteision hynny a'u hegluro iddynt.
- 2.13** Mae Partneriaeth Caffael Gogledd Cymru wedi diffinio pedwar categori o nwyddau a gwasanaethau i'w prynu drwy'r bartneriaeth: gofal cymdeithasol; fflyd a thrafnidiaeth; corfforaethol ac addysg; ac adeiladu.

- 2.14** Roedd adroddiad Tasglu Caffael y Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi ym mis Chwefror 2011 yn argymhell datblygu model cydwasanaeth ar gyfer caffael ar draws sector cyhoeddus Cymru. Byddai'r model yn cael ei seilio ar egwyddorion rheoli categorïau a byddai gwasanaethau proffesiynol yn un o'r categorïau hynny.¹⁶ Ers mis Rhagfyr 2010, mae Gwerth Cymru wedi bod yn arwain y gwaith i ddatblygu achos busnes dros Wasanaeth Caffael Cenedlaethol, a phwrpas hynny fyddai:

- a** canfod meysydd gwario cyffredin ac ailadroddus ar draws yr holl gyrff cyhoeddus ac wedyn, prynu rhwng 20 y cant a 30 y cant o nwyddau a gwasanaethau drwy'r cydwasanaeth (amcangyfrifir y gallai hynny arbed rhwng £9.2 miliwn a £24.6 miliwn y flwyddyn);

¹⁶ Mae Achos Busnes y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn rhagweld mai'r categorïau gwario cyffredin ac ailadroddus a gaffaelir drwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fydd gwasanaethau proffesiynol, TGCh, trafndiaeth, deunyddiau adeiladu a pheirianeg, darpariaethau rheoli gwastraff, nwyddau swyddfa, goleuadau stryd, dillad gwarchodol a glanhau.



- b** bod yn gyfrifol am yr holl dendro, rheoli'r catalogau a'r contractau yn y meysydd gwario cyffredin ac ailadroddus a nodwyd, gan ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus ymrwymo i ddefnyddio contractau cydwasanaeth.
- 2.15** Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, bwriad Gwerth Cymru yw cadw mewn cof y strwythurau presennol, megis consortia caffael sector llywodraeth leol a'r sector iechyd. Yr egwyddor sylfaenol sy'n sail i'r achos dros gael y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yw, er bod cryn dipyn o gaffael cydweithredol wedi digwydd drwy Gymru eisoes, mae'r cydweithredu hwnnw wedi canolbwyntio ar sicrhau'r manteision mwyaf yn sgil pŵer prynu, er enghraifft drwy arbedion maint. Mae'r achos busnes dros y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn datgan nad yw'r sector cyhoeddus wedi manteisio'n llawn ar strategaethau caffael eraill, megis rheoli'r galw, sy'n ymwneud â rheoli gofynion (er enghraifft drwy bolisi sy'n cyfyngu ar bwy a gaiff dderbyn nwydd neu wasanaeth) a gwahaniaethu rhwng dymuniadau ac anghenion.
- 2.16** Mae Gwerth Cymru wedi nodi bod gwasanaethau ymgynghori'n is-gategori allweddol ym maes gwasanaethau proffesiynol ac y gellid arbed arian drwy roi'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar waith ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r achos busnes wedi amcangyfrif y gellid arbed rhwng £1.4 miliwn a £5.6 miliwn y flwyddyn ar wariant ar wasanaethau ymgynghori drwy:
- a** negodi prisiau is drwy gynyddu nifer y prynwyr;
- b** defnyddio adnoddau mewnol y sector cyhoeddus ei hun yn well yn hytrach na chaffael ymgynghorwyr, er bod y gweithwyr proffesiynol caffael yr ymgynghorwyd â hwy wedi herio'r rhan hon o gylich gwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol;
- c** manyleb fwy manwl ar gyfer gofynion contractau.

Rhan 3 - Mae cyrff cyhoeddus yn peryglu gwerth am arian drwy fethu â dilyn arferion da wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori

Drwy roi arferion da ar waith wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori, dylai hynny olygu bod cyrff cyhoeddus yn sicrhau gwell gwerth am arian wrth iddynt ddefnyddio ymgynghorwyr

3.1 Er mwyn sicrhau gwerth da am arian a'i ddangos wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori, mae angen i gyrff cyhoeddus fabwysiadu a dilyn prosesau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r arferion gorau. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn archwilio i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi arferion da ar waith yn y prif feysydd a ganlyn:

- a** cam 1: asesu'r anghenion a phennu gofynion adnoddau;
- b** cam 2: ystyried opsiynau ar gyfer adnoddau;
- c** cam 3: tendro, dyfarnu a'r contract;
- ch** cam 4: cyflawni'r prosiect, ymrwymiad y tîm a throsglwyddo sgiliau;
- d** cam 5: gwerthuso ar ôl y contract.

Datblygwyd meini prawf archwilio gennym i archwilio i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn rhoi arferion da ar waith wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori

3.2 Datblygwyd meini prawf archwilio gennym a oedd yn cynnwys y prosesau allweddol y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori'n effeithlon ac yn effeithiol yn unol ag arferion da. Sail ein meini prawf archwilio oedd y Pecyn Archwilio Contractau a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddeg Cyhoeddus (CIPFA) yn 2009 (**Blwch 7**).

3.3 Teilwriwyd y pecyn gennym drwy gynnwys cwestiynau penodol am y gwasanaeth ymgynghori a meini prawf archwilio a dynnwyd o ddwy ffynhonnell o arferion da cydnabyddedig: Pecyn Hunanasesu ar gyfer Ymgynghori y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sydd wedi'i seilio ar ganfyddiadau ei adroddiad yn 2006 am sut mae'r Llywodraeth Ganolog yn Defnyddio Ymgynghorwyr (**Blwch 8**) a Rhaglen Gwerth Ymgynghori Swyddfa Masnach y Llywodraeth (**Blwch 9**). Mae'r pecynnau a'r arferion da'n nodi'n gyson bod angen dull systematig ar gyfer caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori gan seilio hynny ar drefniadau cadarn wrth reoli prosiectau a lliniaru risg, gyda'r nod cyffredinol o sicrhau gwell gwerth am arian.



Blwch 7 – Pecyn Archwilio Contractau y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifyddeg Cyhoeddus (CIPFA) (2009)

Dyluniwyd y Pecyn Archwilio Contractau gan Transport for London. Cafodd gymeradwyaeth fawr gan CIPFA pan gyflwynwyd ef am Wobr Cliff Nicholson, gwobr am arloesi ym maes archwilio. Mae'r pecyn yn dilyn cylch oes ar gyfer caffael a chontractio, gan rannu'r broses yn gamau sy'n digwydd cyn dyfarnu contract ac wedyn. Mae'n sôn am y risgiau sy'n gysylltiedig â phob cam, ac mae hynny'n sylfaen ar gyfer archwiliad seiliedig ar risg. Mae hefyd yn cyfeirio at gyfraith contract a'i pherthnasedd yn ystod pob cam.

Gallai cyrff cyhoeddus yng Nghymru arbed mwy na £23 miliwn (18 y cant) ar eu gwariant ar wasanaethau ymgynghori drwy roi arferion da ar waith

3.4 Gan ddefnyddio data Spikes Cavell am wariant, y data o'n harolwg a'r dystiolaeth o'n hymweliadau â chyrff cyhoeddus, aseswyd perfformiad y saith corff cyhoeddus yng Nghymru yr ymwelwyd â hwy drwy gymharu'r wybodaeth â'r datganiadau gwerthuso ym Mhecyn Hunanasesu ar gyfer Ymgynghori y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (**Atodiad 2**). Drwy wneud hyn, llwyddwyd i weld ym mha brif feysydd yr oedd angen i'r saith corff cyhoeddus wella yng Nghymru er mwyn cael y gwerth gorau am arian yn sgil caffael a rheoli ymgynghorwyr. Er inni weld bod lle i wella ym mhob un o'r pum cam, gwelsom mai'r prif feysydd lle'r oedd angen gwella oedd:

- a** cam 1: asesu'r anghenion a phennu gofynion adnoddau;
- b** cam 4: cyflawni'r prosiect, ymrwymiad y tîm a throsglwyddo sgiliau;
- c** cam 5: gwerthuso ar ôl y contract.

Blwch 8 – Pecyn Hunanasesu ar gyfer Ymgynghori y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2008)

Roedd adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *Central Government's Use of Consultants* (2006), yn argymhell sut y gallai Llywodraeth Ganolog wella'r ffordd y mae'n rheoli caffael ac yn defnyddio gwasanaethau ymgynghori. Seiliwyd yr argymhellion ar y casgliad cyffredinol nad oedd wedi bod yn bosibl asesu manteision cyffredinol yr arian a wariwyd ar ymgynghorwyr, a hynny'n rhannol oherwydd mai anaml y bydd adrannau'n casglu unrhyw wybodaeth am yr hyn a gyflawnwyd. Datblygwyd Pecyn Hunanasesu ar gyfer Ymgynghori gan y Swyddfa Archwilio genedlaethol ar sail canfyddiadau ac argymhellion ei adroddiad.

Mae pecyn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnig methodoleg i alluogi cyrff cyhoeddus i ddadansoddi eu perfformiad wrth gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori ar hyd pum prif gam. Mae'r prif gamau hyn yn cynrychioli meysydd lle mae angen i ymddygiad a phrosesau wella er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian gan ymgynghorwyr.

Cam 1: Asesu'r anghenion a phennu gofynion adnoddau

Archwilir sut mae defnyddio ymgynghorwyr yn cydweddu â strategaeth recriwtio a hyfforddi'r sefydliad, sut y gellir cyfiawnhau eu defnyddio a sut y lluniwyd y fanyleb.

Cam 2: Ystyried opsiynau ar gyfer adnoddau

Mae'n edrych ar yr opsiynau ar gyfer llenwi'r bwll adnoddau, drwy ddefnyddio staff mewnol er enghraifft.

Cam 3: Tendro, dyfarnu a'r contract

Ystyrir a yw'r timau caffael yn gwneud y gwaith tendro a chontractio'n effeithiol, er enghraifft drwy'r cytundebau fframwaith, gwahanol strwythurau talu a chystadleuaeth.

Cam 4: Cyflawni'r prosiect, ymrwymiad y tîm a throsglwyddo sgiliau

Gwerthusir y cyfathrebu a'r berthynas ag ymgynghorwyr, a sut y throsglwyddir sgiliau o ymgynghorwyr i staff y cleient.

Cam 5: Gwerthuso ar ôl y contract

Asesir sut y casglwyd ac y defnyddiwyd gwybodaeth reoli, gan gynnwys gwerthusiadau ar ôl prosiectau.

Ffynhonnell: Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Blwch 9 – Swyddfa Masnach y Llywodraeth – Rhaglen Gwerth Ymgynghori (2007)

Gan ymateb i adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac ar ôl cynnal astudiaeth meincnodi, lansiodd Swyddfa Masnach y Llywodraeth, ar y cyd ag adrannau'r llywodraeth ganolog, y Rhaglen Gwerth Ymgynghori yn 2007. Nod y rhaglen yn y pen draw yw helpu cyrff y Llywodraeth Ganolog i sicrhau bod yr arian a werir ar ymgynghori'n cynnig gwerth am arian, drwy fynd i'r afael, ymhlith pethau eraill, â rheoli'r galw, adolygu'r perfformiad ar gontractau a rheoli cyflenwyr.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddefnyddio ymgynghorwyr mewn ffordd gyson sydd o dan reolaeth ac sy'n effeithiol drwy newid ymddygiad a chynnal y newid hwnnw. Mae'n cynnwys defnyddio achos busnes safonol i benderfynu ai ymgynghoriaeth yw'r ateb gorau ynteu a oes atebion amgen ar gael a fyddai'n fwy addas.

Mae'r rhaglen wedi cael ei rhoi ar waith gan y Llywodraeth Ganolog. Mae Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn honni ei bod wedi sicrhau cryn sylw mewn adrannau ac ar draws y llywodraeth a bod hyn wedi arwain at y canlynol:

- lleihau'r gwariant;
- y gallu i ymdopi o fewn cyllidebau ymgynghori sy'n sylweddol lai;
- gwasanaethau ymgynghori o fewn adrannau'n cael eu rheoli'n well ac yn fwy gweladwy;
- mwy o ymwybyddiaeth bod angen gwella ymagweddau at wario ar ymgynghori;
- y gallu i ymateb i feirniadaeth ynglŷn â gorddefnyddio ymgynghorwyr.

Mae'r Rhaglen bellach yn cael ei threialu mewn llywodraeth leol yn Lloegr ar sail ranbarthol yn Ne-orllewin Lloegr ac yn Nwyrain a Gorllewin y Canoldir.

Mae Cyngor Dinas Birmingham wedi bod yn treialu'r Rhaglen Gwerth Ymgynghori ers dechrau 2009-10. Wrth roi'r Rhaglen ar waith, gwelwyd gwariant y Cyngor ar wasanaethau ymgynghori yn gostwng 33 y cant o £18 miliwn yn 2009-10 i £12 miliwn yn 2010-11. Dywedodd y Cyngor, er bod rhywfaint o'r gostyngiad oherwydd y cyfyngiadau ar y gyllideb, mai'r prif reswm oedd bod y Cyngor wedi rhoi egwyddorion y Rhaglen Gwerth Ymgynghori ar waith: rheoli'r galw'n well, mwy o graffu gwleidyddol ar ddefnyddio ymgynghorwyr ac ymwybyddiaeth gryfach o'r angen i gwblhau achos busnes safonol ffurfiol. Dywedodd y Cyngor fod gorfod cwblhau achos busnes safonol ynddo'i hun yn atal pobl rhag defnyddio ymgynghorwyr heb ystyried o ddirif.

Ffynhonnell: Swyddfa Masnach y Llywodraeth ac Improvement and Efficiency Gorllewin Canoldir Lloegr¹⁷


3.5 Mae pecyn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn cynnwys cyfrifiannell arbedion effeithlonrwydd i fesur yr arbedion effeithlonrwydd y gallai cyrff cyhoeddus eu sicrhau petaent yn dilyn yr arferion gorau ac yn newid eu hymddygiad o ran caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori (**Atodiad 2**). Yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol am y ffordd y defnyddiai Llywodraeth Ganolog Ymgynghorwyr, amcangyfrifwyd, petai pob adran yn y llywodraeth ganolog yn mabwysiadu ei hargymhellion ar gyfer caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori, y gellid sicrhau arbedion o hyd at 30 y cant.

3.6 Wrth ddefnyddio'r cyfrifiannell arbedion effeithlonrwydd, amcangyfrifwyd y gellid arbed 18 y cant drwy effeithlonrwydd yn y saith corff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy, a hynny'n bennaf drwy reoli'r galw'n well. Petai'r darlun hwn yn cael ei ailadrodd gan bob corff cyhoeddus yng Nghymru, ar sail y gwario cyffredinol ar wasanaethau ymgynghori, sef £133 miliwn yn 2010-11, amcangyfrifwn y gellid arbed dros £23 miliwn drwy effeithlonrwydd (**Ffigur 7** ac **Atodiad 2**). Fodd bynnag, nid yw'r cyfrifiannell arbedion effeithlonrwydd ond mor ddibynadwy ag ansawdd yr wybodaeth a'r penderfyniadau a ddefnyddir yn sail wrth gyfrifo. Yn hynny o beth, nid yw ond yn cynnig awgrym cyffredinol ynglŷn â faint o arbedion effeithlonrwydd a allai fod yn bosibl.

¹⁷ Corff sy'n cael ei arwain gan y sector yw Improvement and Efficiency West Midlands. Mae'n cefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid cyhoeddus eangach yn eu hymgyrch i fod yn fwy effeithlon a gwella gwasanaethau cyhoeddus lleol.



Ffigur 7 - Yr arbedion effeithlonrwydd blynyddol y gellid eu sicrhau pe bai'r holl gyrff cyhoeddus yn rhoi'r arferion gorau ar waith



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o saith corff cyhoeddus sy'n defnyddio Pecyn Hunanasesu ar gyfer Ymgynghori a Chyfrifiannell Arbedion Effeithlonrwydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Mae ansawdd y cofnodion sy'n ategu prosiectau gwasanaethau ymgynghori yn wael ar y cyfan

3.7 Dylai cyrff cyhoeddus gadw cofnodion priodol i ategu prosiectau gwasanaethau ymgynghori, yn sylfaen dystiolaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau a rheoli prosiectau'n effeithiol. Mae cadw cofnodion yn briodol hefyd yn hwyluso gwaith archwilio ac arolygu, ac yn darparu tystiolaeth bod y sefydliad wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol.¹⁸

3.8 Wrth inni adolygu ffeiliau prosiectau gwasanaethau ymgynghori yn y saith sefydliad yr ymwelwyd â hwy, cawsom anhawster wrth geisio cael gafael ar wybodaeth sylfaenol ynglŷn â phrosiectau, megis achosion busnes, enwau rheolwyr contractau, dyddiadau digwyddiadau allweddol, gwybodaeth am gostau, a manylion monitro contractau a gwerthusiadau ar ôl i gontractau ddod i ben. Naill ai nid oedd yr wybodaeth yn bodoli, ni ellid dod o hyd iddi, neu roedd yr wybodaeth wedi'i gwasgaru ar draws sawl adran a gwasanaeth. Gwelsom enghreifftiau o'r canlynol:

¹⁸ Er enghraifft, deddfwriaeth Ewrop sy'n ymwneud â Rhyddid Gwybodaeth ac â chaffael.

- a** cofnodion ynglŷn â thendrau'r contractau a'r dyfarniadau yn cael eu cadw gan y swyddogaeth gaffael, ond nid gan reolwr y contract;
 - b** ar gyfer yr un prosiect gwasanaethau ymgynghori, roedd rhai contractau'n cael eu cadw ar ffurf electronig ac eraill yn cael eu cadw ar ffurf ffeil bapur;
 - c** roedd rhai cofnodion yn cael eu cadw gan wasanaeth neu adran, ac eraill wedi'u harchifo;
 - ch** prosiectau ymgynghori a oedd wedi cael eu rheoli gan wahanol reolwyr contractau ar wahanol adegau, a phob rheolwr yn cadw'i ffeiliau ei hun ar gyfer y cyfnod yr oedd yn rheoli'r prosiect;
 - d** ffeiliau prosiectau ymgynghori a oedd wedi dod i ben yn ddiweddar wedi'u dinistrio.
- 3.9** Gwelsom eithriad nodedig yn Llywodraeth Cymru. Mae'n cadw'r holl gofnodion a'r wybodaeth am brosiectau mewn ffeiliau sy'n ymwneud â'r prosiect, yn hytrach na ffeiliau sy'n ymwneud â gwahanol gamau'r prosiect. Bydd ffeil y prosiect wedyn yn cael ei chadw gyda'i gilydd er mwyn i'r holl swyddogion sy'n ymwneud â gwahanol gamau'r prosiect allu cael gafael ar yr holl wybodaeth berthnasol amdano.
- 3.10** Lle bydd prosesau caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori'n dameidiog, mwyaf tebygol fydd hi bod y trefniadau rheoli cofnodion yn wael. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd y swyddogaeth gaffael wedi gwneud y gwaith tendro ac wedi cadw'r gwaith papur a oedd yn berthnasol i hynny, a lle'r oedd y maes gwasanaeth wedi cadw'r cofnodion a oedd yn ymwneud â chynllunio a rheoli'r prosiect. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy lle'r oedd hyn

yn broblem y dylai rheoli categorïau olygu bod prosesau caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori yn fwy canolog, ac y dylai hynny olygu bod trefniadau goruchwylio prosiectau a rheoli cofnodion yn gwella'n gyffredinol hefyd yn sgil hynny.

- 3.11** Mae gweddill y rhan hon o'r adroddiad yn archwilio perfformiad cyrff cyhoeddus o'i gymharu â'r arferion gorau ym mhob un o bum cam prosiect ymgynghori nodweddiadol fel y'u nodwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ([paragraff 3.1](#) a [Blwch 8](#)).

Nid oedd gan lawer o gyrff cyhoeddus systemau cadarn ar gyfer asesu'r angen am ymgynghorwyr a phennu eu gofynion

Roedd achosion busnes a ddefnyddid i asesu'r angen am ymgynghorwyr ac i fanylu ynglŷn â'r gofynion, yn wael eu hansawdd ar y cyfan

- 3.12** Cyn prynu gwasanaethau ymgynghori, dylai cyrff cyhoeddus sicrhau bod modd cyfiawnhau eu defnyddio a bod gwneud hynny'n rhesymol. Dylai cyrff cyhoeddus egluro hyn mewn achos busnes sy'n adlewyrchu maint, effaith a risg y prosiect. Mae'r achos busnes yn allweddol er mwyn pennu a chynnal cyfeiriad clir ar gyfer unrhyw brosiect a dylai gynnwys manylion am hyd a lled arfaethedig y prosiect, yr opsiynau ar gyfer ei gyflawni, y manteision a ragwelir, yr amseru a'r trefniadau ar gyfer adroddiadau a llywodraethu. Drwy bennu'n glir beth sydd ei angen gan ymgynghorwyr, dylai hynny ei gwneud yn fwy tebygol y gwnaiff cyrff cyhoeddus ddewis y cyflenwr iawn drwy'r broses gaffael, yn ogystal â'i gwneud yn fwy tebygol y cyflawnir y canlyniadau y dymunir i'r prosiect eu cyflawni.



- 3.13** Gwelsom mai anaml y byddai achos busnes ar gael yn ategu prosiectau gwasanaethau ymgynghori. Wrth adolygu ffeiliau 93 o brosiectau yn y saith corff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy, gwelsom mai dim ond 17 y cant ohonynt a oedd wedi defnyddio rhyw fath o achos busnes neu gyfiawnhad ariannol i ddangos pam yr oedd gofyn defnyddio ymgynghorwyr, ac roedd y gweddill wedi cael rhyw fath o gymeradwyaeth, ffurfiol neu anffurfiol, ond heb achos busnes i'w hategu. Yn ein harolwg, gofynnwyd hefyd i gyrff cyhoeddus a ddefnyddir achosion busnes wrth benderfynu defnyddio ymgynghorwyr. Llai nag 20 y cant a ddywedodd ei bod yn ofynnol ganddynt baratoi achos busnes a'i gymeradwyo cyn prynu gwasanaethau ymgynghori.
- 3.14** Lle'r oedd achosion busnes yn cael eu defnyddio i ategu prosiectau, gwelwyd bod eu hansawdd yn amrywio ac mai ychydig ohonynt a oedd wedi'u seilio ar dempled safonol. Gwelsom nad oedd yr achosion busnes yn gymesur â maint a chymhlethdod prosiectau ac nad oedd amcangyfrif o'r costau mewn llawer ohonynt, nad oeddent yn nodi'r manteision a'r canlyniadau dymunol a ddisgwyliid, neu nad oeddent yn cynnwys cynigion gwerthuso.
- 3.15** Mae llawer o dempledi achos busnes ar gael i gyrff cyhoeddus eu defnyddio a gellir addasu'r rhan fwyaf ohonynt i adlewyrchu maint a natur prosiectau ymgynghori unigol. Er enghraifft, mae Capital Ambition¹⁹ a'r Rhaglen Gwerth Ymgynghori wedi cyhoeddi templedi achos busnes safonol ar gyfer gwasanaethau ymgynghorol i gyrff cyhoeddus eu defnyddio.
- 3.16** Mae Rhaglen Gwerth Ymgynghori Swyddfa Masnach y Llywodraeth (**Blwch 9**) yn argymhell fformat safonol ar gyfer achos busnes, a rhestr wirio i'w ategu sy'n rhestru'r pethau hanfodol i'w hystyried, i'w ddefnyddio wrth gaffael ymgynghorwyr.²⁰ Gall defnyddio achos busnes safonol gynnig y manteision a ganlyn:
- a** bydd gofyn i bob prosiect ymgynghori, a reolir gan wahanol bobl ar draws sefydliad, ddarparu set sylfaenol o wybodaeth ar ddechrau prosiect, gan ddarparu llinell sylfaen ar gyfer rheoli a gwerthuso'r prosiect;
 - b** drwy ddarparu data llinell sylfaen safonol (megis amcangyfrif o'r costau ac amserlenni), mae'n bosibl monitro perfformiad prosiectau'n gyson;
 - c** gellir mesur y manteision yn sgil prosiectau, er mwyn sicrhau cysondeb ac er mwyn meincnodi perfformiad ymgynghorwyr;
 - ch** proses fwy effeithlon, gan arbed amser ac arian.
- 3.17** Gofynnwyd i'r gyrff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy a ydynt yn defnyddio templed achos busnes safonol i gaffael gwasanaethau ymgynghori, ond nid oedd yr un ohonynt yn gwneud hynny. Dim ond un enghraifft o gorff cyhoeddus yng Nghymru a welwyd a oedd yn defnyddio templed achos busnes safonol ar gyfer gwasanaethau ymgynghori, a rhoddwyd honno ynghlwm wrth yr atebion i'n harolwg (**Astudiaeth Achos 1**).

¹⁹ Partneriaeth Gwella ac Effeithiolrwydd Ranbarthol yw Capital Ambition ac fe'i sefydlwyd i gynorthwyo awdurdodau Llundain a phartneriaethau strategol lleol i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, gwella perfformiad a chefnogi dulliau arloesol o weithio.

²⁰ Consultancy Value Programme Toolkit – Local Government, Swyddfa Masnach y Llywodraeth, 2010

Astudiaeth Achos 1 – Cyngor Gwynedd – templed achos busnes ar gyfer caffael gwasanaethau ymgynghori

Roedd Cyngor Gwynedd wedi addasu templed achos busnes Canolfan Ragoriaeth Llundain²¹ ar gyfer gwasanaethau ymgynghori. Mae'r templed yn nodi'r gofynion sylfaenol, gyda'r opsiwn o ehangu ei gwmpas a dibynnu ar gymhlethdod a chost prosiect unigol.

Datblygwyd y templed oherwydd bod swyddogaeth gaffael y Cyngor wedi bod yn poeni nad oedd y Cyngor yn effeithiol wrth reoli'r ffordd yr oedd yn defnyddio ymgynghorwyr. Pwrpas y templed achos busnes yw sicrhau bod y gwahanol opsiynau ar gyfer cyflawni'n cael eu hystyried yn llawn, a bod y Cyngor yn cael gwerth am arian. Fodd bynnag, dywedodd Rheolwr Caffael Gwynedd wrthym, nad oedd y templed achos busnes wedi cael croeso mawr ar ôl ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2009, a bod rhai swyddogion yn meddwl bod gorfod llenwi templed achos busnes cyn caffael yn rhy feichus.

Nid yw defnyddio'r templed achos busnes yn orfodol eto, a dim ond pedair gwaith y mae wedi cael ei ddefnyddio ers mis Gorffennaf 2009. Ym mhob achos, penodwyd ymgynghorwyr a'r rhesymau a roddwyd oedd:

- 1 bod angen cael arbenigedd allanol; a/neu
- 2 bod angen gallu ychwanegol (annibynnol) er mwyn cwblhau achos busnes ar gyfer prosiect cydweithredol mewn cyfnod byr.

3.18 Dylai'r achosion busnes nodi'n eithaf manwl y gofynion y disgwylir eu cyflawni drwy ddefnyddio gwasanaethau ymgynghori. Mae Pecyn Archwilio Contractau CIPFA yn dweud bod paratoi'n dda'n hanfodol er mwyn sicrhau gwerth da am arian yn sgil unrhyw gontract, ac y dylai hyn gynnwys asesu anghenion a gofynion yn gywir gan helpu i greu manyleb glir sydd wedi'i seilio ar ganlyniadau. Dylai hefyd helpu cyrff cyhoeddus i amcangyfrif costau, a sicrhau bod darpar ymgynghorwyr yn glir ynghylch pa wasanaethau y disgwylir iddynt eu darparu.²²

3.19 Os bydd achosion busnes yn diffinio'n glir y canlyniadau a'r manteision a ddisgwylir, mae'n debygol o fod yn haws i gyrff cyhoeddus negodi contract pris penodedig gyda'r ymgynghorydd. Bydd contractau pris penodedig yn gyffredinol yn help i reoli costau ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddau barti fod yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir, erbyn pryd ac am faint.

3.20 Lle na fydd y canlyniadau wedi'u diffinio gystal a'i bod yn llai amlwg beth mae corff y sector cyhoeddus yn ei ddisgwyl gan yr ymgynghorydd, gall cyrff cyhoeddus ddewis defnyddio contractau amser a deunyddiau.²³ Fodd bynnag, ni fydd contractau amser a deunyddiau'n annog ymgynghorydd yn uniongyrchol i weithio'n effeithlon, ac mae'r corff cyhoeddus yn ysgwyddo'r risg o weld y prosiect yn cael ei ymestyn o ran ei hyd a'r costau'n cynyddu (**Astudiaeth Achos 2**).

3.21 Wrth arolygu cyrff cyhoeddus, gwelwyd ei bod yn well gan y rhan fwyaf ddefnyddio contractau prisiau penodedig, ond cyfaddefodd llawer bod adegau'n codi pan nad oedd ond modd defnyddio contractau amser a deunyddiau, oherwydd nad oedd manyleb y prosiect yn ddigon clir. Yn ystod ein hymweliadau â chyrff cyhoeddus, gofynnwyd i'r staff a oedd yn ymwneud â chaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori beth yn eu barn hwy oedd y prif anawsterau a wynebid ganddynt wrth gael gwerth da am arian gan ymgynghorwyr. Wrth ymateb, cyfeiriodd y rhan fwyaf at y ffaith bod angen i fanylebau fod yn fwy manwl ynghylch â'r canlyniadau.

²¹ Rhagflaenydd Capital Ambition.

²² Contract Audit Toolkit, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, 2009

²³ Mae amser a deunyddiau'n cyfeirio at gontractau lle mae taliad yn seiliedig ar yr amser a weithiwyd a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd yn hytrach nag ar gynhyrchu allbwn penodol.



Astudiaeth Achos 2 – Prosiect Llais Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus – cymorth ymgynghorwyr

Gwasanaeth cyfathrebu cenedlaethol cydweithredol yw rhwydwaith Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus. Sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yw aelodau'r rhwydwaith ac mae'n darparu gwasanaethau cyfathrebu llais, fideo a data ar gyfer 100 o gyrff cyhoeddus mewn mwy na 2,500 o safleoedd.

Contractiwyd 4C Strategies gan Lywodraeth Cymru yn ymgynghorwyr i helpu i roi Gwasanaeth Llais y Prosiect ar waith. Bydd y prosiect yn caniatáu i sefydliadau sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith ffonio'i gilydd yn ddi-dâl, a bydd hefyd yn lleihau costau presennol eu switsfwrdd drwy gynnig gwasanaethau newydd y ganolfan alwadau.

Telir 4C Strategies ar sail amser a deunyddiau a'r gost darged wreiddiol oedd £60,000. Fodd bynnag, oherwydd yr oedi wrth gyflawni'r contract gwreiddiol, bod angen ymgysylltu'n fwy eang â rhanddeiliaid, gofynion newydd wrth i fframwaith Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddatblygu, ac er mwyn ymateb i fylchau o ran gallu, caniatuodd Llywodraeth Cymru estyniad ar yr amser a'r disgwyl oedd y byddai'r prosiect yn costio mwy na'r targed gwreiddiol.

Wrth ddyfarnu'r estyniad, caniatuwyd cyfnod tybiannol o 12 mis er mwyn cynnig mwy o hyblygrwydd. Ni roddodd Llywodraeth Cymru amcangyfrif o'r gost ar gyfer gweddill y prosiect, ond penderfynodd ymestyn y gost darged i £250,000. Yn hytrach na seilio hyn ar unrhyw amcangyfrifon cadarn, pwrpas cynyddu'r gost darged oedd darparu digon nenfwd talu a fyddai'n ddigon uchel i allu ymateb i unrhyw newid arall yng nghwmpas neu ofynion Rhwydwaith Gwasanaeth Cyhoeddus Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Mae'r gwaith o dan y contract bron wedi'i gwblhau, ac ym mis Mehefin 2012, cyfanswm y gost oedd £267,000.

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffeiliau prosiect Llywodraeth Cymru

Wrth ddatblygu eu gofynion, nid yw cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu'n effeithiol â chyflenwyr

- 3.22** Drwy ymgysylltu'n fuan â'r farchnad yn ystod cam cynllunio'r prosiect, gall corff cyhoeddus ddeall yn well yr hyn y mae'n ofynnol ei gael gan ymgynghorydd a'r hyn y gall y farchnad ei ddarparu. Dylai hyn arwain at fanylebau eglurach ynglŷn â'r gofynion ac ymatebion sydd wedi'u teilwra'n well gan gyflenwyr i wahoddiadau i dendro. Gall cyrff cyhoeddus elwa hefyd o syniadau arloesol neu atebion amgen sy'n herio'r dull caffael a chontractio gwreiddiol mewn ffordd adeiladol.
- 3.23** Wrth adolygu ffeiliau a chyfweld â rheolwyr prosiectau yn y saith corff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy, gwelsom mai ychydig o gyrff cyhoeddus sy'n ceisio ymgysylltu â'r farchnad ymgynghori cyn pennu'n ffurfiol beth yw eu gofynion a chyhoeddi gwahoddiadau i dendro. Er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â'r farchnad ymgynghori, mae angen i gyrff cyhoeddus feddu ar sgiliau cwsmer deallus. Mae'r farchnad ymgynghori'n aeddfed ac yn llawn cwmnïau sydd â llawer iawn o brofiad ac os nad yw cyrff cyhoeddus yn meddu ar sgiliau'r cwsmer deallus, mae perygl iddynt gollu'r budd a ddaw wrth ymgysylltu'n fuan â'r farchnad.

Nid yw cyrff cyhoeddus yn rhoi digon o ystyriaeth i'r opsiynau o ran adnoddau wrth gynllunio prosiectau ymgynghori

Ychydig o gyrff cyhoeddus sy'n mynd ati'n rheolaidd ac yn drylwyr i arfarnu dewisiadau amgen yn lle defnyddio ymgynghorwyr

- 3.24** Dylai pob achos busnes gynnwys arfarniad cynhwysfawr, ond cymesur, i benderfynu ai defnyddio gwasanaethau ymgynghori yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r canlyniadau y dymunir i brosiect eu cyflawni. Dylent werthuso opsiynau amgen, gan gynnwys a oes adnoddau mewnol addas â'r gallu a'r sgiliau priodol i gyflawni'r prosiect.
- 3.25** Yn ein harolwg, gofynnwyd i gyrff cyhoeddus beth, o blith wyth opsiwn, yw'r tri phrif sbardun yn eu barn hwy, sy'n eu hysgogi i ddefnyddio gwasanaethau ymgynghori (Ffigur 8). Dywedodd chwe deg a thri y cant o'r cyrff cyhoeddus wrthym mai diffyg staff mewnol addas ar gael oedd un o'r tri phrif sbardun iddynt.
- 3.26** Wrth gynnal arolwg ymhlith y cyrff cyhoeddus, gwelwyd bod gan 50 y cant broses ffurfiol i chwilio am staff mewnol i gyflawni prosiectau neu raglenni, cyn ystyried defnyddio ymgynghorwyr. Fodd bynnag, wrth adolygu ffeiliau 93 o gontractau gwasanaethau ymgynghori mewn saith corff cyhoeddus, gwelwyd mai dim ond saith y cant o'r prosiectau ymgynghori a oedd yn cynnwys arfarniad ar addasrwydd a gallu adnoddau mewnol a allai o bosibl gyflawni'r prosiect, yn lle ymgynghorwyr. Gydag ambell eithriad bosibl (Astudiaeth Achos 3), ychydig o dystiolaeth a welsom fod gyrff cyhoeddus yn defnyddio gweithdrefnau'n gyson i chwilio am staff mewnol i gyflawni prosiectau neu raglenni

cyn iddynt ystyried defnyddio ymgynghorwyr (Astudiaeth Achos 4). Dywedodd rhai rheolwyr contractau wrthym y byddent yn ystyried defnyddio adnoddau mewnol cyn cyflogi ymgynghorwyr, ond nad oedd mecanwaith ar waith i'w galluogi i ddod o hyd i adnoddau mewnol â'r sgiliau priodol a sicrhau eu bod ar gael.

Astudiaeth Achos 3 – Atebion Llywodraeth Cymru


Fel rhan o'i rhaglen *Llwyddo â Llai*, datblygodd Llywodraeth Cymru gronfa o staff y gellid eu hadleoli i unrhyw ran o'r sefydliad lle y gallai eu sgiliau a'u profiad fod o fudd. Ers 2010, bydd tîm Atebion Llywodraeth Cymru yn asesu'r holl brosiectau ymgynghori posibl cyn unrhyw weithgarwch caffael er mwyn gweld a oes adnodd mewnol ar gael i gyflawni'r prosiect yn hytrach na defnyddio contractwyr allanol. Un agwedd ar y rhaglen yw hyfforddi grŵp o swyddogion i reoli prosiectau er mwyn eu galluogi i reoli prosiectau sy'n cael eu hariannu'n ganolog. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynyddu niferoedd y rheolwyr prosiect sydd wedi'u hyfforddi oherwydd bod y galw'n fwy na'r cyflenwad. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio y gwnaiff hyn olygu bod llai o angen prynu gwasanaethau ymgynghori.

Nid yw cyrff cyhoeddus yn cynllunio'r gweithlu mewn ffordd effeithiol i leihau eu dibyniaeth ar wasanaethau ymgynghori

- 3.27** Methu dod o hyd i staff mewnol â'r sgiliau priodol i gyflawni prosiectau oedd yr ail sbardun mwyaf cyffredin ymhlith y tri uchaf sy'n ysgogi cyrff cyhoeddus i ddefnyddio gwasanaethau ymgynghori (Ffigur 8). Mae hyn yn awgrymu nad yw cyrff cyhoeddus o bosibl yn cynllunio'r gweithlu mewn ffordd effeithiol i ganfod y sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol ac i recriwtio a datblygu eu staff eu hunain er mwyn lleihau eu dibyniaeth ar wasanaethau ymgynghori yn y dyfodol.



Ffigur 8 - Y prif sbardunau sy'n ysgogi defnyddio gwasanaethau ymgynghori



Ffynhonnell: Arolwg o gyrrff cyhoeddus gan Swyddfa Archwilio Cymru

Astudiaeth Achos 4 – Gweld a oes adnoddau mewnol ar gael yng Nghyngor Sir Penfro a Chyngor Caerdydd

Rhaid i'r holl wasanaethau ymgynghori a brynir gan **Cyngor Sir Penfro** gael eu cymeradwyo gan uwch reolwyr. Dywedodd swyddogion wrthym fod gofyn i Bennaeth y Gwasanaeth asesu a oedd adnoddau mewnol ar gael i wneud y gwaith neu beidio. Dywed protocol y Cyngor ar gyfer penodi ymgynghorwyr mai'r unig adeg y ceir cyflogi Ymgynghorwyr yw lle bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a Hamdden wedi cytuno nad oes digon o adnoddau ar gael i gyflawni'r gwasanaethau sy'n ofynnol yn fewnol a bod darpariaeth briodol ar gael yn y gyllideb.

Dywed *Rheolau Sefydlog a Rheolau Caffael Contractau Cyngor Caerdydd*, ei bod yn bwysig, cyn ystyried caffael allanol, sicrhau nad oes dim darpariaeth fewnol ar gael eisoes ar gyfer y Nwyddau, y Gwasanaethau neu'r Gwaith sy'n ofynnol. Dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym fod disgwyl i reolwyr contractau chwilio am adnoddau mewnol, ond nad oes mecanwaith na gweithdrefn ffurfiol ar gyfer gwneud hyn mewn gwirionedd. Ni welsom ddim tystiolaeth o unrhyw ddadansoddiad o'r fath yng nghyswllt y 12 prosiect a archwiliwyd gennym yng Nghyngor Caerdydd. Mae'r Cyngor wrthi'n mabwysiadu gweithdrefnau a chanllawiau mewnol newydd er mwyn sicrhau bod pob cais am ymgynghorwyr yn y dyfodol yn cynnwys achos busnes.

fod cyrff cyhoeddus yn defnyddio gwybodaeth am y ffordd yr oeddent yn defnyddio gwasanaethau ymgynghori yn sail ar gyfer cynllunio'u gweithlu, er enghraifft i weld a ellid datblygu'r sgiliau a'r dulliau a ddefnyddid gan ymgynghorwyr ymhlith staff mewnol i'w defnyddio yn y dyfodol.

Mae lle i wella'r ffordd y bydd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn caffael ymgynghorwyr

3.29 Mae'n hanfodol dewis y cyflenwr cywir sydd â'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni prosiect am y pris cywir ac o'r ansawdd iawn drwy broses gaffael gystadleuol er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian gan wasanaethau ymgynghori.

Wrth gaffael ymgynghorwyr, mae cyrff cyhoeddus ar y cyfan yn cydymffurfio â chanllawiau caffael ac â gofynion cyfreithiol

3.30 Mae Rheolau Caffael Sector Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd²⁴ yn berthnasol i gaffael nwyddau a gwasanaethau o bob math, gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori. Mae gofyn i gyrff cyhoeddus hysbysebu contractau sy'n werth mwy na throthwy ariannol penodol²⁵ a bennir yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU). Fodd bynnag, hyd yn oed pan fydd contractau o dan drothwy'r Undeb Ewropeaidd, dylai gweithdrefnau caffael ddilyn egwyddorion cyffredinol cyfraith Gystadleuaeth Ewrop,²⁶ sy'n cynnwys:

- a triniaeth gyfartal;
- b tryloywder;
- c dim gwahaniaethu.

3.28 Os bydd cyrff cyhoeddus yn meddwl bod defnyddio ymgynghorwyr yn cael ei sbarduno gan ddiffyg adnoddau mewnol medrus addas i gyflawni prosiectau, dylent nodi'r bylchau sgiliau sydd ganddynt er mwyn bwydo'r wybodaeth honno i drefniadau cynllunio'r gweithlu yn y tymor canol a'r tymor hir. Wrth adolygu ffeiliau a chyfweld â swyddogion yn y cyrff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy, buom yn chwilio am dystiolaeth o gyrff cyhoeddus yn dadansoddi'r gwaith y bydd ymgynghorwyr yn ei wneud er mwyn iddynt weld pa sgiliau y bydd eu hangen yn y tymor canol i'r tymor hir. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a welsom

²⁴ Cyfarwydddeb 2004/18/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 31 Mawrth 2004 ynglŷn â chydlynio gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau gwaith cyhoeddus, contractau cyflenwi cyhoeddus a chontractau gwasanaeth cyhoeddus.

²⁵ O 1 Ionawr 2012, bydd pob gwasanaeth dros £113,057 a gaffaelir gan gyrff llywodraeth ganolog, a dros £173,934 gan bob corff arall, yn dod o dan Reolau Caffael Sector Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd.

²⁶ Cyfathrebiad Dehongli'r Comisiwn ynglŷn â chyfraith y Gymuned sy'n berthnasol i ddyfarnu contractau nad ydynt, neu nad ydynt yn llwyr, yn dod o dan ddarpariaethau'r Cyfarwydddebau Caffael Cyhoeddus (2006/C 179/02).



3.31 Dylai fod gan bob corff cyhoeddus bolisïau, canllawiau a rheolau sefydlog ar gyfer caffael sy'n dweud sut mae cydymffurfio â Rheolau Caffael Sector Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd. Er enghraifft, mae GIG Cymru wedi cyhoeddi Rheolau Sefydlog Enghreifftiol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol sy'n dweud sut y dylid caffael nwyddau a gwasanaethau.²⁷ Dylai fod gan gyrff cyhoeddus eu gweithdrefnau a'r rheolau sefydlog eu hunain hefyd ar gyfer caffael prosiectau sydd yn werth llai na throthwyon yr Undeb Ewropeaidd. Yn gyffredinol, gwelsom fod prosiectau'r gwasanaethau ymgynghori a archwiliwyd gennym yn dilyn rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd a rheolau sefydlog neu bolisïau mewnol perthnasol.

Ni fydd y gwaith caffael yn cael ei wneud gan staff sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol bob tro

3.32 Heb weithwyr proffesiynol cymwysedig a phrofiadol ym maes caffael, mae mwy o berygl i'r caffael fethu sicrhau gwerth am arian, er enghraifft drwy gynhyrchu manylebau contract sy'n annigonol, drwy beidio â dewis y dull talu mwyaf cost-effeithiol neu drwy fethu gwerthuso tendrau'n drwyadl. Fodd bynnag, dywedodd y cyrff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy fod prinder adnoddau'n golygu nad oes modd i'r swyddogaeth gaffael ymwneud â phrynu pob gwasanaeth ymgynghori.

3.33 Yn ein harolwg, gofynnwyd i gyrff cyhoeddus a oedd ganddynt drothwyon gwario ar contractau lle'r oedd yn rhaid i'r swyddogaeth gaffael ymwneud â'r broses petai'r gost yn uwch na hynny. Dywedodd wythdeg a dau y cant o'r cyrff cyhoeddus eu bod wedi gosod trothwyon ar gyfer cynnwys y swyddogaeth gaffael wrth gaffael unrhyw

nwydd neu wasanaeth, a bod y rheolwr contractau'n caffael contractau a ddeuai o dan y trothwy hwnnw. Roedd y trothwyon yn amrywio o bedwar y cant o'r cyrff cyhoeddus sy'n cynnwys y swyddogaeth gaffael ym mhob proses gaffael, i naw y cant o'r cyrff cyhoeddus sy'n cynnwys y swyddogaeth gaffael mewn prosiectau sydd dros drothwyon yr Undeb Ewropeaidd yn unig (Ffigur 9).


3.34 Ar gyfer y prosiectau a archwiliwyd yn fanwl, gwelsom fod llai o gydymffurfio ag arferion caffael da a/neu ganllawiau a rheolau sefydlog y sector cyhoeddus yng nghyswllt prosiectau a oedd o dan y trothwyon ar gyfer cynnwys y swyddogaeth gaffael. Yn sgil ein cyfweiliadau â rheolwyr contractau ar gyfer prosiectau a oedd o dan y trothwyon, gan gynnwys rhai prosiectau a oedd yn werth mwy na £100,000, gwelsom mai ychydig a oedd wedi cael unrhyw hyfforddiant ffurfiol ym maes caffael, sy'n golygu bod y prosiectau hyn yn agored i fwy o berygl methu cydymffurfio, amhriodoldeb a gwerth gwael am arian.

3.35 Gwelsom hefyd mai dim ond ar gyfer gwerthoedd contractau y pennid trothwyon, ac nad oeddent wedi ystyried pwysigrwydd strategol, dylanwad posibl na risg prosiectau ymgynghori. Er enghraifft, bydd pob awdurdod lleol yn defnyddio ymgynghorwyr i gael cyngor ynglŷn â buddsoddi symiau a all fod yn filiynau o bunnoedd o gronfeydd gwarged, a elwir yn rheoli'r trysorlys.²⁸ Er bod gwerth y contractau ymgynghori eu hunain yn gymharol isel, oddeutu £50,000 y flwyddyn ar gyfartaledd, roeddent yn rhai uchel eu risg o ran natur, oherwydd y symiau o arian a oedd dan sylw. Nid oedd gweithwyr proffesiynol caffael wedi ymwneud â chaffael unrhyw un o'r pum contract rheoli'r trysorlys a archwiliwyd yn fanwl gennym.

²⁷ Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, GIG Cymru, Ebrill 2011

²⁸ Yn ôl diffiniad CIPFA, rheoli llif arian sefydliad, bancio, trafodion yn y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheoli'n effeithiol y peryglon sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny, a mynd ar drywydd y perfformiad gorau posibl yng nghyswllt y peryglon hyn. Yn fwy cyffredinol, mae rheoli'r trysorlys yn cyfeirio at y set o bolisïau, strategaethau a thrafodion y bydd sefydliad yn eu mabwysiadu ac yn eu rhoi ar waith i godi arian am gost ac ar sail risg sy'n dderbyniol, ac i reoli ei adnoddau ariannol.

Ffigur 9 - Trothwyon cyrff y sector cyhoeddus ar gyfer cynnwys y swyddogaeth gaffael wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru

3.36 Yn Llywodraeth Cymru, y trothwy ar gyfer cynnwys y Gwasanaeth Caffael Corfforaethol canolog yw unrhyw gontract sy'n werth dros £25,000. Bydd contractau sydd o dan y trothwy hwn yn cael eu caffael gan swyddogion unedau busnes a Chyfarwyddiaethau unigol. Dywedodd un o Reolwyr Unedau Busnes Llywodraeth Cymru²⁹ wrthym fod angen rhagor o arbenigedd ar lefel adrannol oherwydd anaml y byddai staff adrannol yn caffael contractau a bod eu harbenigedd yn gallu amrywio'n fawr iawn.

3.37 Mewn adroddiad diweddar gan Bwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gwelwyd bod diffyg sgiliau sylweddol yn sector caffael Cymru.³⁰ Mae Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli nad oes digon o weithwyr proffesiynol caffael cymwys ar gael ar draws y sector cyhoeddus ac mae'n awyddus i gryfhau sgiliau a chapasiti ym maes caffael ledled Cymru. Er enghraifft, mae'n arwain rhaglen Defnyddio Doniau Cymru i Wella'r Byd Caffael. Ei nod yw ceisio cryfhau sgiliau a gallu ym maes caffael ar draws gwasanaethau cyhoeddus.³¹

²⁹ Bydd Rheolwyr Unedau Busnes yn cynllunio, yn cyfarwyddo ac yn cydlynu cyfarwyddiaethau Llywodraeth Cymru.

³⁰ *Dylanwadu ar y Broses o Fodemeiddio Polisi Caffael Ewrop*, Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mai 2012

³¹ Prosiect dan nawdd Rhaglen Gydyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop gwerth £5.7 miliwn am 4-5 mlynedd i wella caffael ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.



Nid oedd rhai o'r prosiectau ymgynghori a archwiliwyd gennym yn cydymffurfio â rheolau caffael

- 3.38** Oni fydd cyrff cyhoeddus yn llwyddo i gydymffurfio â rheolau a rheoliadau caffael, byddant yn eu gadael eu hunain yn agored i her gyfreithiol gan fidwyr aflwyddiannus, ni waeth a yw'r contract yn werth mwy ynteu'n werth llai na throthwyon caffael yr Undeb Ewropeaidd.³² Yn y saith corff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy, gwelsom fod oddeutu 10 y cant o'r 93 contract a archwiliwyd yn fanwl heb gydymffurfio nac â rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd nac â pholisïau a rheolau sefydlog mewnol. Gwelsom enghreifftiau o'r canlynol:
- a** contractau'n cael eu rhoi ar sail meini prawf nad oedd wedi'u pennu yn y fanyleb a hysbysebwyd;
 - b** ôl-gymeradwyo contractau a oedd eisoes wedi'u dyfarnu i gyflenwr;
 - c** cytuno i roi contractau dilynol i ymgynghorwyr ar gyfer gwaith uchel ei werth (dros £25,000) heb gynnal proses gystadleuol ar wahân na dogfennu cyfiawnhad dros y gwaith ychwanegol;
 - ch** estyn oes contractau sy'n golygu bod cyfanswm cost y contract yn croesi trothwyon yr OJEU.³³
- 3.39** Er bod yr enghreifftiau a welsom yn ymwneud â phrosiectau ymgynghori, roeddent yn adlewyrchu diffyg cydymffurfio â rheolau, rheoliadau a rheolau sefydlog cyffredinol ym maes caffael. Mae hyn yn awgrymu y gall peryglon diffyg cydymffurfio fynd y tu hwnt i gaffael gwasanaethau ymgynghori, i gaffael nwyddau a gwasanaethau eraill, gan y cyrff cyhoeddus dan sylw.

Caiff y rhan fwyaf o'r contractau ymgynghori eu caffael drwy broses gystadleuol, ond roedd cyfran fawr yn cael eu gosod drwy dendro heb gystadleuaeth

- 3.40** Gan amlaf, tendro cystadleuol sy'n cynnig y ffordd orau i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian wrth gaffael gwasanaethau ymgynghori ac mae hyn yn gymorth iddynt ddangos priodoldeb wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Gosodwyd ugain y cant o'r contractau ymgynghori a archwiliwyd gennym yn y saith corff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy heb ddim cystadleuaeth rhwng darpar gyflenwyr.
- 3.41** Er y gall defnyddio'r drefn hon fod yn briodol o dan rai amgylchiadau (**Blwch 10** ac **Astudiaeth Achos 5**), dylai cyrff cyhoeddus geisio osgoi gosod tendrau heb gystadleuaeth lle bynnag y bo modd, oherwydd fel arall, ni fyddant yn gallu manteisio ar fanteision cystadlu, megis gwell prisiau ac ystod ehangach o syniadau ar gyfer cyflawni prosiect. Os cynigir tendr heb gystadleuaeth, dylid egluro'r ddadl dros hynny'n glir yn yr achos busnes. Wrth inni adolygu ffeiliau yn y saith corff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy, gwelsom mai dim ond mewn un o bob pum contract a osodwyd heb gystadleuaeth yr oedd hyn yn briodol. Gwelsom hefyd, er bod gan 45 y cant o'r contractau a osodwyd heb gystadleuaeth ryw fath o gymeradwyaeth wedi'i gofnodi yn eu ffeil, fod 20 y cant o'r rhain wedi'u hôl-gymeradwyo, ar ôl dechrau neu ar ôl cwblhau'r gwaith.

³² Gyda golwg ar gontractau sydd o dan drothwyon caffael yr Undeb Ewropeaidd, dywed cyfraith Ewrop y gellid rhoi egwyddorion cyfraith y gymuned ar waith ac felly y gallai fod gofyn i awdurdodau sy'n contractio gydymffurfio â hi.

³³ Amcangyfrifir ei bod yn rhaid adio amcan werth pob rhan o'r contract at ei gilydd hyd, yn oed pan fydd yn cael ei estyn, a rhaid defnyddio'r gwerth cyfun. Os bydd yr amcan werth cyfun hwn yn croesi'r trothwy, rhaid hysbysebu pob contract yn OJEU, hyd yn oed os yw amcan werth pob contract unigol o dan y trothwy.

Blwch 10 – Pan fydd tendro heb gystadleuaeth yn briodol

Yn ôl canllawiau caffael Adran Iechyd Llywodraeth y Deyrnas Unedig,³⁴ mae'n bosibl cyfiawnhau tendro heb gystadleuaeth o dan ddau fath o amgylchiadau:

- 1 Mae'r gwaith yn uniongyrchol berthnasol i contract sydd wedi'i gwblhau'n ddiweddar, ac mae'r budd sy'n deillio o roi'r gwaith ychwanegol i'r un contractwr yn gwrthbwyso unrhyw ostyngiad posibl yn y pris a allai ddeillio o dendro cystadleuol. Dim ond pan fyddai'r contractau yn sgil hyn yn rhai isel eu gwerth y byddai modd cyfiawnhau hyn.
- 2 Dim ond o un ffynhonnell y mae'r arbenigedd sy'n ofynnol ar gael. Gall hyn fod oherwydd bod rhywun yn berchen ar hawliau dylunio neu batentau cyfyngedig, ond dylid adolygu'r fanyleb er mwyn sicrhau na fyddai cynnyrch arall yn gallu bodloni gofynion defnyddwyr.

3.42 Roedd defnyddio tendr heb gystadleuaeth i gaffael gwasanaethau ymgynghori'n arbennig o amlwg yn y ddau fwrdd lechyd yr ymwelwyd â hwy. O'r 12 contract ar gyfer gwasanaethau ymgynghori a osodwyd gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf er 2008-09, dyfarnwyd deg ohonynt (cyfanswm gwerth £437,000) drwy dendr heb gystadleuaeth.³⁵ Gwelsom hefyd fod pedwar (cyfanswm gwerth £124,000) o'r pum contract gwasanaeth ymgynghoriol a osodwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er 2007-08 wedi'u gosod drwy dendr heb gystadleuaeth.

3.43 Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy'n rhoi sylw yn eu rheolau, eu polisiau a'u rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chaffael i ddefnyddio tendr heb gystadleuaeth. Fel rheol, bydd uwch reolwyr yn craffu ar dendrau o'r fath (**Astudiaeth Achos 6**). Ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, lle'r oedd cyfrannau uchel o

Astudiaeth Achos 5 – Tendro heb gystadleuaeth ar gyfer gwaith arbenigol – Ystadau Iechyd Cymru

Ers mis Ebrill 2011, mae Ystadau Iechyd Cymru wedi bod yn rhan o Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru a elwir bellach yn Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Adnoddau. Sefydliad GIG Cymru gyfan yw'r gwasanaeth sy'n hyrwyddo ac yn hwyluso sicrhau safonau uchel wrth ofalu am gleifion yng Nghymru drwy gyfrwng yr amgylchedd adeiledig. Cyn dod yn rhan o Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru, roedd Ystadau Iechyd Cymru yn rhan o Fwrdd Iechyd Cwm Taf. Roedd yn gwneud ei holl waith caffael ac yn dod o dan reolau a chanllawiau caffael mewnol Cwm Taf.

Yn 2010, aeth Ystadau Iechyd Cymru ati i adolygu pa mor gadarn oedd ei gasgliad o ddata sy'n cofnodi gwaith cynnal a chadw sy'n cronni. Gwelodd fod meysydd lle y gellid gwella. Tua diwedd yr adolygiad, canfu staff Ystadau Iechyd Cymru erthygl mewn cyfnodolyn gan un o gyn uwch ymgynghorwyr Ystadau GIG, Lloegr. Roedd yr erthygl yn sôn am wendid sylfaenol yn y canllawiau cenedlaethol ar gyfer asesu risg gwaith cynnal a chadw yn cronni gan godi amheuan ynglŷn â'r fethodoleg asesu risg a ddefnyddid gan y rhan fwyaf o sefydliadau'r GIG yn y Deyrnas Unedig, nad oeddent yn defnyddio technegau a gydnabyddid yn rhyngwladol. Gwahoddwyd awdur yr erthygl i gyflwyno'i ganfyddiadau a'i syniadau ynglŷn â methodoleg ddiwygiedig ar gyfer asesu risg i Ystadau Iechyd Cymru. Penderfynodd Ystadau Iechyd Cymru roi'r fethodoleg ar waith yn eu hasesiadau risg hwy eu hunain a chontractio awdur yr erthygl yn ymgynghorydd i dreialu'r fethodoleg mewn sawl ysbyty yng Nghymru. Gan fod yr asesiadau risg yn defnyddio methodoleg arloesol yr ymgynghorydd ei hun, cymeradwywyd caffael ei wasanaethau drwy dendr heb gystadleuaeth.

Ar ôl treialu'r fethodoleg asesu risg newydd, roedd Ystadau Iechyd Cymru yn ffyddiog ei bod yn cynnig ffordd fwy cadarn a chywir o asesu risg gwaith cynnal a chadw sy'n cronni, ac maent bellach yn bwriadu rhoi'r fethodoleg ar waith yng ngweddill GIG Cymru.

³⁴ *Polisi Caffael, Yr Adran Iechyd*

³⁵ Archwiliwyd chwech o'r 12 contract hyn yn fanwl.



contractau'n cael eu gosod drwy dendr heb gystadleuaeth, gwelsom fod uwch reolwyr wedi craffu ar y contractau i gyd ac eithrio un a adolygwyd gennym a'u bod wedi'u cymeradwyo ganddynt. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau hefyd lle nad oedd y prosesau cymeradwyo'n gweithio'n effeithiol. Er enghraifft, gwelsom contractau ymgynghori lle'r oedd y corff cyhoeddus dan sylw wedi ôl-gymeradwyo tendr a roddwyd heb gystadleuaeth, naill ai ar ôl i'r gwaith ddechrau neu ar ôl ei gwblhau.

Astudiaeth Achos 6 – Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo tendr heb gystadleuaeth

Mae polisi caffael Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn rhaid cael tri dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer unrhyw contract sy'n werth mwy na £5,000, a bod yn rhaid cael cystadleuaeth lawn ac agored ar gyfer unrhyw contract sy'n werth dros £25,000. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae tendrau heb gystadleuaeth yn gwyro oddi wrth weithdrefnau arferol gosod contractau. Ni ellir ond bwrw ymlaen â thendr heb gystadleuaeth sy'n werth mwy na £5,000 drwy gael cymeradwyaeth Pennaeth Uned Llywodraethu Corfforaethol y Llywodraeth, a fydd yn ceisio cyngor gan y Gwasanaethau Caffael Corfforaethol.

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth bod uwch reolwyr yn diystyru canllawiau a rheolau sefydlog mewnol yn ymwneud â chaffael

- 3.44** Wrth inni archwilio prosiectau ymgynghori, gwelsom dair enghraifft lle'r oedd uwch reolwyr wedi anwybyddu canllawiau caffael mewnol a rheolau sefydlog eu sefydliad er mwyn defnyddio ymgynghorwyr.
- 3.45** Er enghraifft, ym mis Hydref 2011, recriwtiodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Cwm Taf ymgynghorydd yn uniongyrchol drwy dendr heb gystadleuaeth i gynorthwyo gyda

rhaglen newid. Gwelsom nad oedd neb wedi cymeradwyo tendro heb gystadleuaeth. Mae rheolau sefydlog y Bwrdd Iechyd yn mynnu bod tendro heb gystadleuaeth yn cael ei gymeradwyo gan y Prif Weithredwr, a bod angen cymeradwyaeth eto wedyn gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd. Rhestrwyd y contract yn gofnod ar gronfa ddata contractau, ond nid oedd dim gwaith papur yn gysylltiedig ag ef. Ym mis Ebrill 2012, ôl-gymeradwywyd y contract gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd, gan ôl-gymeradwyo nifer o dendrau eraill hefyd a oedd wedi'u gosod heb gystadleuaeth.

Mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio contractau fframwaith yn dda i gaffael gwasanaethau ymgynghori

- 3.46** Gall defnyddio cytundebau fframwaith i gaffael gwasanaethau arwain at brisiau is a gostwng costau caffael a thrafodion i gyflenwyr ac i gwsmeriaid (**Blwch 11**).³⁶ Mae'n bosibl hefyd y gallai cyrff cyhoeddus ddefnyddio cytundebau fframwaith a sefydlwyd gan gyrff eraill. Yn ein harolwg, gwelsom fod cyrff cyhoeddus yn prynu bron un rhan o dair o'u contractau gwasanaethau ymgynghori drwy gytundeb fframwaith. Wrth ymweld â chyrff cyhoeddus, dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o'r pryniannau hyn yn digwydd drwy gytundebau a sefydlwyd eisoes gan Wasanaeth Caffael Llywodraeth y Deyrnas Unedig.³⁷ Fodd bynnag, roedd cytundebau fframwaith ar gael ar gyfer gwasanaethau ymgynghori a sefydlwyd yn benodol gan gyrff prynu Cymru neu gyrff cyhoeddus Cymru, gan gynnwys:
- a** fframwaith gwasanaethau adeiladu proffesiynol a sefydlwyd gan bedwar o awdurdodau lleol;

³⁶ A review of collaborative procurement across the public sector, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio, Mai 2010. Dywedodd naw deg a thri y cant o'r cyrff cyhoeddus a arolygwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio yn eu hadroddiad yn 2010 ar gaffael cydweithredol eu bod wedi defnyddio cytundeb fframwaith yn ystod 2008-09. Teimlai'r rhan fwyaf fod hyn bob tro, neu'n aml, wedi arwain at well gwerth am arian ac y gallai gwell cydweithredu sicrhau gwell gwerth am arian eto.

³⁷ Un o asiantaethau gweithredol Swyddfa'r Cabinet yw Gwasanaeth Caffael y Llywodraeth a'i blaenoriaeth gyffredinol yw sicrhau arbedion wrth gaffael i'r Sector Cyhoeddus drwyddo draw yn y Deyrnas Unedig ac yn benodol i ddarparu gwasanaeth caffael canolog ar gyfer Adranau'r Llywodraeth Ganolog.

- b** fframwaith gwasanaethau ymgynghori ym maes peirianeg a sefydlwyd gan awdurdodau lleol Ceredigion, Gwynedd a Phowys;
- c** fframweithiau gwasanaethau cyfreithiol ar wahân gan Lywodraeth Cymru a Phartneriaeth Caffael Gogledd Cymru;
- ch** fframwaith un cyflenwr gyda Capita Gwent Consultancy ar gyfer gwasanaeth ymgynghori ym maes peirianeg a ddefnyddir gan bedwar awdurdod lleol (**Astudiaeth Achos 7**);
- d** fframweithiau Ystadau Iechyd Cymru ar gyfer gwasanaethau ymgynghori ym maes eiddo ac adeiladu;
- dd** fframwaith ymgynghori technegol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o gynnwys pob maes gwasanaethau technegol sy'n ymwneud ag eiddo ac a fyddai ar gael i holl gyrff cyhoeddus Cymru ei ddefnyddio;
- e** Fframwaith Partner Effeithlonrwydd Corfforaethol a sefydlwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd (**Astudiaeth Achos 8**).

3.47 Roedd ein harolwg yn dangos bod chwe deg y cant o'r contractau a ddyfarnwyd o dan gytundebau fframwaith wedi'u dyfarnu heb ragor o gystadlu o fewn y fframwaith. Er bod hyn yn cael ei ganiatáu, ar wahân i le y bydd fframwaith un cyflenwr ar waith, nid yw'r arfer hwn yn cydymffurfio ag egwyddorion rheolau caffael yr Undeb Ewropeaidd a rheoliadau cystadleuaeth. Mae hyn yn gadael cyrff cyhoeddus yn agored i rai o'r peryglon sy'n gysylltiedig â thendro heb gystadleuaeth - sef colli'r budd a ddaw yn sgil cystadlu, gwell prisiau ac ystod ehangach o syniadau ar gyfer cyflawni prosiect.

Blwch 11 – Cytundebau fframwaith

Bydd cyrff cyhoeddus yn defnyddio cytundebau fframwaith pan fydd angen prynu gwybodaeth a sgiliau tebyg dro ar ôl tro. Mae'r cytundebau'n cynnwys y telerau hanfodol ar gyfer dyfarnu cyfres o gontractau penodol yn ystod y cyfnod dan sylw. Gall eu telerau gynnwys hyd y contract, prisiau, amodau perfformiad a'r gwasanaethau a ragwelir.

Wrth sefydlu cytundeb fframwaith, fel rheol, bydd cystadleuaeth yn cael ei chynnal i ganfod darpar gyflenwr neu gyflenwyr ar gyfer y gwasanaeth dros oes y cytundeb. Ar ôl sefydlu'r cytundeb, gall cyrff cyhoeddus gytuno ar gontractau ar gyfer gwasanaethau penodol yn gyflymach ac am bris is. Gall hyn olygu rhagor o fân gystadlaethau rhwng contractwyr y fframwaith.

Gall cytundebau fframwaith fod ar un o ddwy ffurf:

- fframwaith un cyflenwr (gall hyn fod yn addas ar gyfer caffael gwasanaethau cymhleth neu soffistigedig a/neu lle bydd gofyn cael perthynas gaeedig neu fuddsoddiad mawr o flaen llaw gan y cyflenwr); neu
- fframwaith sawl cyflenwr (gall hyn fod yn addas ar gyfer caffael cyflenwadau safonol a/neu lle na fyddai modd i un cyflenwr gyflawni'r hyn sy'n ofynnol).

Gwerth y fframwaith yw amcan werth yr holl gontractau y rhagwelir eu dyfarnu o dan y cytundeb ar ei hyd (gan amlaf, pedair blynedd ar yr hwyaf) a rhaid iddo gydymffurfio â throthwyon yr OJEU. Wedyn, ni fydd gofyn i fframweithiau a ddyfarnir drwy broses yr OJEU fynd drwy fân gystadlaethau o dan y cytundeb fframwaith er mwyn mynd drwy broses gaffael lawn yr Undeb Ewropeaidd, ond dylai egwyddorion cystadlu ddal i fod yn berthnasol.

Astudiaeth Achos 7 – Capita Gwent Consultancy

Partneriaeth rhwng Capita Symonds a phedwar o awdurdodau lleol y de-ddwyrain yw Capita Gwent Consultancy (Torfaen, Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Chaerffili). Daeth i rym ym mis Medi 2002. Drwy'r bartneriaeth hon, ymunodd Gwent Consultancy, busnes annibynnol yr oedd y pedwar awdurdod lleol yn gydberchen arno, â menter ar y cyd â Capita Symonds, rhan o The Capita Group Plc.

Buddsoddodd Capita Symonds £1 filiwn yn y cwmni newydd ac ef biau mwyafrif y cyfrandaliadau (51 y cant). Fe'i contractiwyd i weithredu am 10 mlynedd, a nod y gydfenter oedd darparu gwasanaethau gwerth oddeutu £83 miliwn a chreu hyd at 200 o swyddi newydd, medrus iawn dros gyfnod.

Mae gan Capita Gwent Consultancy fwy na 260 o staff yn darparu gwasanaethau proffesiynol yn y sectorau hyn: dylunio, trafnidiaeth, peirianeg sifil, yr amgylchedd a diogelwch y ffyrdd.



Astudiaeth Achos 8 – Fframwaith ymgynghorwyr effeithlonrwydd a pherfformiad sy'n seiliedig ar gymhellion gan Gyngor Dinas Casnewydd

Ym mis Mawrth 2011, sefydlwyd cytundeb fframwaith pedair blynedd gan Gyngor Dinas Casnewydd gyda 10 o ymgynghorwyr i geisio canfod a gwireddu arbedion effeithlonrwydd yng ngwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn meddwl bod y fframwaith yn unigryw yn y Deyrnas Unedig ac fe'i sefydlwyd drwy ddefnyddio model sy'n cynnig cymhellion i'r ymgynghorwyr sicrhau arbedion.

Cred y Cyngor fod y fframwaith yn fuddiol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, cwtogwyd yn sylweddol ar yr amser ar gyfer cyflwyno'r bid, gan gwtogi amserlen caffael safonol Ewrop, sef oddeutu chwe mis, i dair wythnos, sy'n golygu bod modd arbed arian yn gynt. Yn ail, mae'r dull hwn wedi arwain at fwy o gystadleuaeth ac wedi gostwng lefelau ffioedd.

Yn ôl y trefniadau blaenorol, roedd gofyn gosod contract ar wahân ar ôl y cam diagnostig cychwynnol, ac roedd hynny'n golygu cost ac ymestyn yr amserlen. Mae'r dull hwn yn golygu bod modd gosod contract yn ei gryswth gan gynnwys opsiwn i gael toriad ar ôl y cam cyntaf, os bydd gofyn.

Dyma'r ddau gam:

- 1 Bydd yr ymgynghorwyr yn cynnal adolygiad diagnostig o wasanaeth y Cyngor am bris penodedig er mwyn gweld faint o enillion effeithlonrwydd a pherfformiad sy'n bosibl a datblygu cynigion ar gyfer sut y gellid eu gwireddu. Gall cost yr adolygiad diagnostig amrywio rhwng £0 a £100,000.
- 2 Os bydd y Cyngor yn cytuno, bydd yr ymgynghorwyr yn rhoi canfyddiadau cynigion yr adolygiad diagnostig ar waith heb orfod aildendro. Seilir y ffioedd ar gyfer y cam gweithredu ar ganran o'r arbedion a sicheir:

Ystod ffioedd ar gyfer arbed hyd at £1 filiwn (%)	Ystod ffioedd ar gyfer arbed hyd at £5 miliwn (%)	Ystod ffioedd ar gyfer arbed hyd at £10 miliwn (%)	Ystod ffioedd ar gyfer arbed dros £10 miliwn (%)
Rhwng 20 a 40	Rhwng 15 a 40	Rhwng 8 a 35	Rhwng 7.5 a 35

Oni chaiff yr arbedion a nodir yn yr adolygiad diagnostig eu gwireddu'n llawn, bydd gan y Cyngor yr hawl i gael ad-daliad o holl ffioedd yr ymgynghorwyr o dan y contract.

Caiff unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru ddefnyddio'r cytundeb fframwaith. Rhaid dethol ymgynghorwyr drwy'r fframwaith gan ddefnyddio mân gystadleuaeth. Mae Casnewydd wedi defnyddio'r fframwaith ddwywaith, ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a chaffael. Amcangyfrifir bod cyfanswm o £10.7 miliwn wedi'i arbed drwy'r contract gwasanaethau cymdeithasol a £4.9 miliwn wedi'i arbed drwy'r contract caffael. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint wedi defnyddio'r fframwaith hefyd ar gyfer prosiect cydweithredol i gyflawni rhaglen effeithlonrwydd yn eu gwasanaethau trafndiaeth.

Mae gan awdurdodau lleol eraill gynlluniau i ddefnyddio'r fframwaith ac mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cael ceisiadau am ddogfennaeth a chymorth o fath arall gyda'r broses gaffael gan nifer o gynghorau ledled Cymru.

Ychydig o dystiolaeth a welsom fod gyrff cyhoeddus yn defnyddio contractau sy'n seiliedig ar gymhellion

- 3.48** Oherwydd natur rhai prosiectau ymgynghori, maent yn addas ar gyfer contractau sy'n seiliedig ar gymhellion. Mewn contractau sy'n seiliedig ar gymhellion, seilir cyfran o'r taliad ar berfformiad yr ymgynghorydd, er enghraifft, canfod a gwireddu arbedion effeithlonrwydd.
- 3.49** Yn ein harolwg, gofynnwyd i gyrff cyhoeddus faint o'r contractau a ddyfarnwyd ar gyfer gwasanaethau ymgynghori yn 2010-11 a oedd wedi'u seilio ar gymhellion. Dim ond tri a welsom: dyfarnwyd dau ohonynt gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac un gan Gyngor Dinas Casnewydd. Mae Casnewydd wedi bod yn datblygu contractau risg-gwobr ers 2009. Ers hynny, gosodwyd tri contract, ar gyfer trafndiaeth, gwasanaethau cymdeithasol a chaffael. Contract trafndiaeth yw'r un mwyaf datblygedig ac mae hwn wedi arbed dros £3 miliwn hyd yn hyn, gan ragori eisoes ar darged y contract. Dyfarnwyd y contract cyn datblygu cytundeb fframwaith sy'n seiliedig ar gymhellion ar gyfer ymgynghorwyr effeithlonrwydd a pherfformiad (**Astudiaeth Achos 8**).

Mae'r trefniadau rheoli contract wrth gyflawni prosiectau ymgynghori'n wan mewn llawer o gyrff cyhoeddus

- 3.50** Ar ôl i gyrff cyhoeddus gaffael gwasanaethau ymgynghori, mae angen iddynt reoli'r contractau sy'n deillio o hynny'n effeithiol er mwyn sicrhau bod y manteision a fwriadwyd yn cael eu cyflawni'n briodol o ran amser, cost ac ansawdd. Ymhlith pethau eraill, mae rheoli contractau mewn ffordd annigonol yn golygu bod mwy o berygl i brisiau amrywio ac i gontractau gael eu hystyng yn ddiangen. Felly, mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau bod gan staff y sgiliau priodol i reoli contract yn effeithiol ar ôl ei ddyfarnu, gan gynnwys:
- a** rheoli'r berthynas â'r ymgynghorydd;
 - b** cadw costau a thaliadau o dan reolaeth;
 - c** rheoli risgiau gweithredol;
 - ch** rheoli perfformiad;
 - d** rheoli newidiadau i'r contract a datrys anghydfodau;
 - dd** rheoli data a gwybodaeth berthnasol.

Mae safon rheoli contractau'n amrywio, ac ychydig o gyrff cyhoeddus sy'n darparu unrhyw hyfforddiant ar reoli contractau neu'n asesu'n ffurfiol allu'r staff sy'n gyfrifol am reoli contractau

- 3.51** Roedd adroddiad Tasglu Caffael y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi³⁸ yn cynnwys casgliadau ymarfer hunanasesu gallu ym maes caffael gan awdurdodau lleol, y GIG a Llywodraeth Cymru, a gynhaliwyd yn 2010. Roedd y hunanasesiad yn edrych ar feysydd megis rheoli perfformiad, strategaeth,

³⁸ *Buying Smarter in Tougher Times: Conclusions and Recommendations of the Efficiency and Innovation Board Procurement Taskforce*, Chwefror 2011



prosesau prynu, rheoli contractau a manylebau. Wrth gynnal yr ymarfer hunanasesu, gwelwyd bod gwendid penodol o ran rheoli contractau ar draws pob sector. Casgliad yr adroddiad oedd bod safonau rheoli contractau'n amrywiol.

- 3.52** Gydag ychydig o eithriadau nodedig, gwelwyd, yn sgil ein hymweliadau â chyrrff cyhoeddus, mai ychydig sydd â pholisïau neu ganllawiau ysgrifenedig ynglŷn â rheoli contractau. Lle bydd canllawiau ar gael, bydd y rheini'n aml yn cael eu cyfleu'n wael. Er enghraifft, mewn un corff cyhoeddus, gwelsom fod canllawiau rheoli contractau'n cael eu cadw gan yr adran gaffael, ond nid oedd rheolwyr contract y sefydliad wedi gweld y rhain.
- 3.53** Yn ystod ein hymweliadau â chyrrff cyhoeddus, gofynnwyd a oedd y staff a oedd yn gyfrifol am reoli contractau gwasanaethau ymgynghori wedi cael hyfforddiant generig yn y maes hwnnw, ac a oedd profiad staff a'u gallu i reoli contractau wedi cael eu hasesu. Gwelsom mai dim ond Llywodraeth Cymru oedd wedi darparu hyfforddiant sylweddol ym maes rheoli contractau (**Astudiaeth Achos 9**), ac nad oedd yr un corff cyhoeddus wedi asesu'n ffurfiol brofiad a gallu eu staff yn y maes hwn.

Ychydig o waith rheoli perfformiad sy'n cael ei wneud wrth cyflawni prosiectau ymgynghori

- 3.54** Er mwyn gallu monitro bod amcanion yr ymgynghori'n cael eu cyflawni'n unol â'r hyn y cytunwyd arno o ran amser, cost ac ansawdd, dylai cyrrff cyhoeddus sefydlu, fel rhan o'r achos busnes, beth yw'r gofynion rheoli perfformiad a'r wybodaeth sydd i'w chasglu gan reolwyr contractau yn ystod cam cyflawni'r contract. Dylid hefyd nodi yn y contract y broses ar gyfer darparu gwybodaeth reoli a sut y rheolir y perfformiad.

Astudiaeth Achos 9 – Hyfforddiant rheoli contractau Llywodraeth Cymru

Yn 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru hyfforddiant rheoli contractau i'w staff am y tro cyntaf.

Mae'r hyfforddiant naill ai'n hyfforddiant annibynnol i staff sydd wedi'u targedu sy'n rheoli contractau, neu mae'n rhan o becyn hyfforddi 'Pasport Caffael' ehangach.

Mae'r hyfforddiant, nad yw'n ymwneud yn benodol â rheoli contractau ymgynghori, yn egluro rôl y rheolwr contractau ac mae'n rhoi sylw i bedair prif agwedd ar waith rheoli contractau:

- rheoli'r cyflawni – sicrhau bod y contract yn cyflawni'r hyn y cytunwyd arno;
- rheoli'r berthynas – rheoli'r berthynas â'r contractwr;
- gweinyddu'r contract - ymdrin â llywodraethu'r contract yn ffurfiol megis cynnal y contract, rheoli newid, monitro costau, adroddiadau ynglŷn â thaliadau ac adroddiadau rheoli;
- gwella parhaus – anelu at wella dros oes y contract, er enghraifft drwy ddefnyddio cymhellion.

Mae'r hyfforddiant wedi bod ar gael ers mis Ebrill 2011 ac roedd 16 o bobl wedi cwblhau'r cwrs annibynnol erbyn mis Mawrth 2012, a mwy na 50 wedi'i gwblhau fel un o fodiwlau hyfforddiant y Pasport Caffael.

Mae Llywodraeth Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o ddarparu'r hyfforddiant ar gyfer y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, ac mae Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi dangos diddordeb mewn teilwra'r cwrs at eu defnydd hwy eu hunain.

- 3.55** Wrth inni adolygu 93 o gontractau ar draws saith corff cyhoeddus, gwelsom mai dim ond 14 y cant o'r contractau ymgynghori a oedd wedi cofnodi gwybodaeth a oedd yn berthnasol i berfformiad ymgynghorwyr yn ystod cam cyflawni'r contract. Hefyd, yn ystod ein hymweliadau â chyrrff cyhoeddus, ni welsom ddim canllawiau i reolwyr contractau ynglŷn â sut i werthuso perfformiad ymgynghorwyr. Gadewid y gwerthuso i adrannau unigol a rheolwyr contract benderfynu yn ei gylch, a'r perygl yw na chaiff ei wneud o gwbl os nad yw rheolwyr wedi cael hyfforddiant i reoli contractau.

3.56 Nid oedd monitro contractau'n golygu fawr fwy na thrafodaethau rhwng rheolwyr prosiectau ac ymgynghorwyr adeg cerrig milltir pwysig yn y contract, megis yn ystod cyfarfodydd adolygu prosiect neu pan fydd angen talu anfonebau. Yn ein cyfweiliadau ac wrth adolygu ffeiliau, gwelsom fod rheolwyr prosiectau'n meddwl bod y trafodaethau hyn yn rhoi digon o sicrwydd iddynt bod rhwymedigaethau'r contract yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau hyn, mae'r gwerthuso'n dibynnu ar ganfyddiadau cyffredinol rheolwyr contractau ac aelodau eraill tîm y prosiect, yn hytrach nag ar ddangosyddion perfformiad mwy ffurfiol.

3.57 Lle bydd perfformiad ymgynghorwyr yn cael ei fonitro, rhaid grymuso rheolwyr contractau i godi materion sy'n ymwneud â pherfformiad a mynd i'r afael â hwy. Hefyd, dylai contractau ymgynghori gynnwys mecanweithiau i alluogi rheolwyr contractau i fynd i'r afael â phroblemau sy'n codi yn sgil tanberfformio, gan gynnwys gwneud iawn am berfformiad gwael. Fel arall, mae'n fwy tebygol y bydd contractwr yn herio'r penderfyniad os rhoddir cosb ar waith. Wrth inni adolygu ffeiliau a chynnal cyfweiliadau â rheolwyr prosiectau, gwelsom, lle'r oedd perfformiad yn cael ei fonitro'n frwd, bod tuedd i'r elfennau hyn o reoli contractau fod ar goll.

Bydd trosglwyddo sgiliau o'r ymgynghorwyr i'r cyrff cyhoeddus yn aml yn cael ei anwybyddu wrth gynllunio prosiectau ymgynghori

3.58 Un o'r manteision sy'n deillio o ddefnyddio gwasanaethau ymgynghorwyr yw'r potensial i drosglwyddo sgiliau'r ymgynghorwyr i staff y sefydliad ei hun wrth i brosiect gael ei gyflawni. Mae trosglwyddo sgiliau'n effeithiol yn cryfhau'r sylfaen sgiliau mewnol a gallai olygu na fydd yn rhaid dibynnu gymaint yn y dyfodol ar wasanaethau ymgynghori sydd o bosibl yn fwy costus. Gwelodd ein harolwg fod 25 y cant o'r cyrff cyhoeddus yn

meddwl mai trosglwyddo sgiliau oedd un o'r tri phrif sbardun sy'n eu hysgogi i ddefnyddio gwasanaethau ymgynghori (**Ffigur 7**). Roedd Cyngor Sir Abertawe yn meddwl mai trosglwyddo sgiliau o ymgynghorwyr i'r Cyngor oedd y sbardun pwysicaf a oedd yn ei ysgogi i ddefnyddio gwasanaethau ymgynghori. Dywedodd y Cyngor wrthym fod angen i gyrff cyhoeddus wneud rhagor, ar ôl cwblhau prosiect, er mwyn rhannu arferion da ynglŷn â sut i sicrhau bod sgiliau'n cael eu trosglwyddo.

3.59 Pan fydd ymgynghorwyr yn cynnig sgiliau penodol a fyddai o ddefnydd parhaus i gyrff cyhoeddus, dylid nodi'n glir yn yr achos busnes bod lle i drosglwyddo sgiliau, a dweud ym manyleb y contract sut y gwneir hyn. Fodd bynnag, ar wahân i ambell eithriad (**Astudiaeth Achos 10**), wrth inni archwilio contractau ymgynghori mewn saith corff cyhoeddus, gwelwyd, wrth iddynt gynllunio prosiectau ymgynghori, na fydd cyrff cyhoeddus yn gweld cyfleoedd yn rheolaidd i drosglwyddo sgiliau o'r ymgynghorwyr i'w staff mewnol.

3.60 Gwelsom mai dim ond 15 y cant o'r 93 contract ymgynghori a adolygwyd gennym a oedd yn cyfeirio at drosglwyddo sgiliau yn y dogfennau cynllunio, ond nid oedd yr un o fanylebau'r contractau a archwiliwyd yn dweud sut y dylai'r sgiliau gael eu trosglwyddo. Nid yw sicrhau bod sgiliau'n cael eu trosglwyddo'n rhan o delerau ac amodau safonol Consortiwm Prynu Cymru, Llywodraeth Cymru na GIG Cymru. Dim ond un o'r prosiectau a adolygwyd gennym a oedd wedi arfarnu ar ddiwedd y contract a oedd unrhyw sgiliau wedi'u trosglwyddo o'r ymgynghorwyr i staff y corff cyhoeddus yn ystod y prosiect neu wrth ei gwblhau.



Astudiaeth Achos 10 – Trosglwyddo sgiliau yng Nghyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Cwm Taf a Chyngor Sir Penfro

Er nad oes gan Gyngor Caerdydd broses ffurfiol ar waith i sicrhau bod sgiliau'n cael eu trosglwyddo o ymgynghorwyr i staff mewnol ar draws pob prosiect, rhoddwyd nifer o enghreifftiau inni ynglŷn ag ymhle yr oedd ymgynghorwyr a oedd yn gweithio ar brosiectau Trawsnewid wedi ceisio trosglwyddo'u sgiliau. Dyma ambell enghraifft:

- sesiynau briffio gan ymgynghorwyr amser cinio;
- hyfforddiant wrth eu gwaith i staff mewnol sy'n gweithio ochr yn ochr ag ymgynghorwyr;
- cyrsiau ar wella gwasanaethau'n cael eu cynnal gan ymgynghorwyr.

Mae trosglwyddo sgiliau'n cael ei weld yn agwedd bwysig ar raglen newid barhaus Caerdydd ac o ymwneud y Cyngor â'r cwmni ymgynghori PwC. Mae'r achos busnes dros elfen 'Gweithredu Newid' y rhaglen yn dweud bod angen i'r tim mewnol a fydd yn cyflawni cyfran sylweddol o'r rhaglen newid feddu ar y gallu a'r profiad angenrheidiol i wneud hynny. Er mwyn sicrhau bod cynifer o sgiliau ag y bo modd yn cael eu trosglwyddo, roedd gofyn i PwC sicrhau bod swyddogion y Cyngor yn dysgu yn sgil y fethodoleg y mae PwC wedi profi ei bod yn gweithio, ac i gynorthwyo meysydd gwasanaeth a fydd yn rhoi rhaglenni gweithredu newid ar waith eu hunain.

Bydd Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn defnyddio cwmnïau cyfreithwyr i gynnig cyngor, yn enwedig ym maes cyfraith cyflogaeth a materion esgeulustod clinigol. Drwy gontract â chwmni cyfraith gyflogaeth, nodwyd sawl ffordd o drosglwyddo sgiliau i staff y bwrdd iechyd, er enghraifft drwy gynnal cyfarfodydd yn aml â staff mewnol i drosglwyddo'r hyn a ddysgwyd a thrwy friffio rheolwyr Adnoddau Dynol.

Prynodd Cyngor Sir Penfro gyngor ymgynghorwyr i'w helpu gyda phrosiect i adolygu cyflogau a graddfeydd ei staff. Daeth yr ymgynghorydd i mewn ar ddechrau pob cam o'r prosiect er mwyn cynghori staff adnoddau dynol y Cyngor. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo ac wrth i amser fynd heibio, roedd mewnbyn yr ymgynghorydd yn lleihau oherwydd ei fod yn trosglwyddo sgiliau i staff y Cyngor.

Mae'r Cyngor bellach wrthi'n cynllunio ac yn costio strwythurau cyflogau ar gyfer y sefydliad, a'r unig adeg y defnyddir yr ymgynghorydd yn awr yw i sicrhau ansawdd y broses yr oedd wedi hyfforddi staff y Cyngor i'w gweinyddu.

Nid yw cyrff cyhoeddus yn gwerthuso'n rheolaidd y manteision a ddaw yn sgil defnyddio ymgynghorwyr, ac ni fyddant ychwaith yn dysgu gwersi yn sgil hynny

- 3.61** Dylai cyrff cyhoeddus werthuso prosiectau ymgynghori ar ôl eu cwblhau i ddangos y gwerth am arian a gafwyd yn sgil gwaith yr ymgynghorwyr, a dysgu'r gwersi yn sgil y prosiectau sydd wedi'u cwblhau. Mae'r Rhaglen Gwerth Ymgynghori wedi datblygu canllawiau ynglŷn â sut y gall cyrff cyhoeddus adolygu perfformiad prosiectau ymgynghori ([Astudiaeth Achos 11](#)).
- 3.62** Hyd yn oed pan fydd cyrff cyhoeddus wedi datblygu prosesau gwerthuso ffurfiol (gan gynnwys defnyddio templedi gwerthuso), maent yn tueddu i beidio â'u defnyddio. Dim ond un o'r prosiectau a archwiliwyd gennym yn y saith corff cyhoeddus yr ymwelwyd â hwy a oedd wedi gwerthuso prosiect ar ddiwedd y contract gwasanaethau ymgynghori.
- 3.63** Roedd canllawiau mewnol Llywodraeth Cymru ar gaffael a rheoli ymgynghorwyr yn dweud bod y Cyfarwyddwr yn gyfrifol am sicrhau bod pob prosiect ymgynghori'n cael ei werthuso. Mae'r canllawiau drafft sydd wedi'u diweddarau'n dweud y dylid dilyn trefn gwblhau lawn ar gyfer pob prosiect, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd a gwerthuso'u llwyddiant. Fodd bynnag, wrth archwilio prosiectau a chyfweliadau, ni welsom ddim tystiolaeth bod perfformiad ymgynghorwyr yn cael ei werthuso'n rheolaidd gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

- 3.64** Er mwyn i'r gwerthusiad fod yn ddichonadwy, mae angen i gyrff cyhoeddus sefydlu, ar ddechrau'r broses gaffael, pa fanteision y maent yn disgwyl eu cyflawni drwy waith yr ymgynghorwyr. Fodd bynnag, gwelsom wrth adolygu'r ffeiliau fod llawer o gontractau'r sector cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau ymgynghori yn canolbwyntio ar y canlyniadau ac nad oedd manteision disgwylieidig y prosiect yn cael eu mynegi'n glir.

Astudiaeth Achos 11 – Canllawiau adolygu perfformiad y Rhaglen Gwerth Ymgynghori

Mae'r Rhaglen Gwerth Ymgynghori wedi datblygu set safonol o feini prawf perfformiad y gellir eu defnyddio i fesur perfformiad yr ymgynghorwyr a'r corff cyhoeddus. Nod y canllawiau yw:

- nodi a chofnodi'r gwerth a sicrheir yn sgil gwaith ymgynghori;
- deall pam y llwyddwyd i sicrhau'r gwerth hwnnw neu beidio, er mwyn gallu gwella pethau i sicrhau llwyddiant y tro nesaf.

Mae'r canllawiau'n annog pobl i asesu'r perfformiad fesul tri cham:

- Yn ystod **cam 1**, mesurir pa mor dda oedd trefniadau sefydlu'r prosiect ar y cychwyn er mwyn sicrhau'r cyfle gorau o lwyddo o ran sicrhau gwerth, a dylai hyn gynnwys asesu a ddisgrifiwyd y gofynion a'r disgwyliadau cychwynnol yn glir neu beidio.
- Yn ystod **cam 2**, mesurir pa mor dda oedd trefniadau rheoli, cyflawni a mesur y prosiect, o'r cychwyn, er mwyn gwneud yn siŵr bod y cleient a'r cyflenwr yn dal i ganolbwyntio ar sicrhau gwerth, a bod yr holl fanteision wedi'u gwireddu.
- Yn ystod **cam 3**, mesurir a oedd y disgwyliadau ynglŷn â gwerth yn ystyrion ac wedi'u cyflawni yn y pen draw, gan gynnwys a oedd cyfleoedd i wella gallu'r cleient a lleihau'r angen i ddyblygu'r cymorth gan ymgynghorwyr wedi'u nodi a'u cyflawni.

Rhoddir sgôr i'r corff cyhoeddus ac i'r ymgynghorydd. Dylid defnyddio'r canlyniadau i weld ymhle y mae angen gwella pethau, ac i roi enghreifftiau o'r arferion gorau y gellir eu rhoi ar waith i wella perfformiad ym mhrosiectau'r dyfodol.



Atodiad 1 – Methodoleg

Defnyddiwyd y dulliau a ganlyn:

Adolygiad o lenyddiaeth

Adolygwyd ystod eang o adroddiadau am gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori gan gyrff archwilio eraill, gan gynnwys:

- *Use of Consultants* – Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (2004)
- *Central government's use of consultants* – Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2006)
- *Central government's use of consultancy services* – Swyddfa Archwilio yr Alban (2009)
- *Central government's use of consultants and interims* – Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2010)
- *A review of collaborative procurement across the public sector* – Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio (2010)
- *Consultant Use in Selected Health Organizations* – Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Ontario (2010)
- *Use of External Consultants by Northern Ireland Departments: Follow-up report* – Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (2011)

Adolygwyd deunyddiau ymchwil a chanllawiau perthnasol hefyd o nifer o ffynonellau eraill, gan gynnwys:

- Swyddfa Masnach y Llywodraeth (*Guide to Consultancy Pricing; Supplementary Guidance for the Procurement of Consultancy Services; Demand Management in Nine Steps; Consultancy Value Programme - Benefits Methodology; Category Strategy for Consultants; Consultancy Performance Review Guide; Consultancy Strategy Outline; Gloucestershire County Council Case Study; Local Government Consultancy Value Programme Gate Process; Local Government Consultancy Value Programme toolkit*);
- Llywodraeth Cymru (*Buying Smarter in Tougher Times*);
- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin (*Twelfth Report - Central government's use of consultants and interims*, Rhagfyr 2010);
- Capital ambition (*Commissioning toolkit for the procurement of consultancy and professional services*);
- Canolfan Ragoriaeth Llundain (*A Guide to Buying Consultancy, and Other Professional Services*).

Data ac Ystadegau

Cynhaliwyd arolwg o gyrff cyhoeddus ddiwedd 2011 i'n galluogi i ganfod a dadansoddi'r prosesau a ddefnyddir gan gyrff y sector cyhoeddus i gaffael, rheoli a gwerthuso manteision gwasanaethau ymgynghori. Gofynnwyd ystod o gwestiynau am y canlynol: strategaeth, asesu'r angen, caffael, asesu gwerth; canllawiau ac arferion gorau; cost; perfformiad a gwerth ymgynghorwyr; a gwariant.

Arolygwyd y cyrff cyhoeddus a ganlyn a chawsom ymateb gan 88 y cant:

- 22 Awdurdod Unedol;
- deg o gyrff y GIG;
- chwe Chorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru;
- pedwar Awdurdod Heddlu;
- tri Awdurdod Parc Cenedlaethol;
- tri Awdurdod Tân ac Achub;
- Llywodraeth Cymru;
- Comisiwn y Cynulliad.

Casglwyd data am wariant ar wasanaethau ymgynghori, gan ddefnyddio i ddechrau ymarfer gwariant Gwerth Cymru a oedd wedi defnyddio gwaith Spikes Cavell i ddadansoddi cyfriflyfrau prynu rhwng 2007-08 a 2010-11. Cysylltwyd â'r cyrff cyhoeddus nad oeddent yn rhan o'r ymarfer hwn ar wahân i ofyn am ddata ynglŷn â gwariant.

Defnyddiwyd y ffynonellau data hyn hefyd:

- datganiadau ariannol Byrddau Iechyd;
- cyfrifon ariannol Ymddiriedolaethau'r GIG;
- Adroddiadau Gwella Blynyddol Llywodraeth Leol.

Ymweliadau â chyrff cyhoeddus

Ymwelwyd â saith corff cyhoeddus yn y cyfnod rhwng mis Ionawr ac Ebrill 2012. Yn ystod yr ymweliadau hyn, cafwyd cyfle i archwilio'n fwy manwl y materion a godwyd yn yr ymatebion i'r arolwg. Ymwelwyd â'r cyrff cyhoeddus a ganlyn:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent;
- Cyngor Caerdydd;
- Bwrdd Iechyd Cwm Taf;



- Cyngor Sir Penfro;
- Cyngor Sir Powys;
- Llywodraeth Cymru.

Cyn inni ymweld, gofynnwyd am weld dogfennau corfforaethol penodol a'u harchwilio, gan gynnwys:

- cofrestrau contractau;
- strategaeth a chanllawiau caffael corfforaethol
- polisïau a chanllawiau rheoli contractau;
- rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chaffael a rheoli contractau;
- dogfennau hyfforddi ar gyfer caffael a rheoli contractau;
- strategaeth gwerthuso manteision corfforaethol;
- rhestrau cymeradwy o gontractwyr ymgynghori;
- manylion unrhyw gontractau fframwaith sy'n cynnwys elfen ymgynghori (megis cynllunio, gofal cymdeithasol, peirianeg).

Yn ystod ein hymweliadau adolygwyd ffeiliau a oedd yn cynnwys sampl o brosiectau gwasanaethau ymgynghori a chyfwelwyd â staff allweddol. Ym mhob safle, detholwyd ein sampl o blith cronfeydd data'r contractau ar gyfer gwahanol feysydd gwasanaeth, mathau o ymgynghori a gwerthoedd.

Corff cyhoeddus	Nifer y contractau a archwiliwyd	Cyfanswm gwerth y contractau a archwiliwyd (£000oedd)
Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr	5	250
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	9	413
Cyngor Caerdydd	12	2,227
Bwrdd Iechyd Cwm Taf	7	676
Cyngor Sir Penfro	14	839
Cyngor Sir Powys	13	764
Llywodraeth Cymru	33	9,775
Cyfanswm	93	14,944

Datblygwyd pecyn archwilio ar gyfer adolygu'r ffeiliau ar sail Pecyn Archwilio Contractau y Sefydliad Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddeg (CIPFA) a Phecyn Asesu Ymgynghori y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a addaswyd gennym at ein dibenion.

Cyfwelwyd â'r staff a ganlyn hefyd:

- Cyfarwyddwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am gaffael;
- Pennaeth Caffael;
- Rheolwr Contractau ar gyfer prosiectau ymgynghori yr adolygwyd eu ffeiliau;
- aelod o'r staff cyllid, gyda golwg ar brosesau talu;
- cynrychiolydd adnoddau dynol, gyda golwg ar nodi sgiliau a'u trosglwyddo, cael gafael ar adnoddau ac ati.

Mewn ambell achos, pan gododd materion penodol wrth inni adolygu ffeiliau, cynhaliwyd cyfweiliadau pellach gyda'r rheini sy'n ymwneud â chynllunio busnes ac achosion busnes, swyddogion cyswllt caffael, swyddogion dysgu corfforaethol, a swyddogion cyfreithiol.

Cyfweiliadau eraill

Casglwyd gwybodaeth drwy gyfweild â rhanddeiliaid allweddol eraill gan gynnwys: Gwerth Cymru, Consortiwm Prynu Cymru, Partneriaeth Caffael Gogledd Cymru, rheolwr prosiect y Rhaglen Gwerth Ymgynghori; Swyddfa'r Cabinet, Cymdeithas yr Ymgynghorwyr Rheoli; Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG a Spikes Cavell.



Atodiad 2 – Pecyn Hunanasesu ar gyfer Ymgynghori y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Mae pecyn hunanasesu ar gyfer ymgynghori y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen wrth i Raglen Gwerth Ymgynghori Swyddfa Masnach y Llywodraeth wneud gwaith. Mae'r pecyn yn cynnig fframwaith i asesu i ba raddau y mae corff cyhoeddus yn sicrhau gwerth am arian drwy ddefnyddio ymgynghorwyr. Ar ôl defnyddio'r pecyn, bydd sefydliadau'n deall yn well o ba linell sylfaen y maent yn gweithio wrth ddefnyddio ymgynghorwyr, a byddant yn gallu diffinio'r camau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn gwella'u prosesau a sicrhau bod arferion da'n bwrw gwreiddiau.

Gellir defnyddio'r pecyn wrth gaffael a rheoli'r holl ymgynghorwyr mewn sefydliad, neu ar lefel prosiect, ac fe'i rhennir yn bum cam. Yn ystod pob cam, bydd ymagwedd y sefydliad at gaffael a rheoli ymgynghorwyr yn cael ei sgorio ar sail cyfres o ddatganiadau. A dibynnu ar yr atebion, rhoddir statws coch, oren neu wyrdd i'r corff cyhoeddus.

Mae'r tabl isod yn dangos ein hasesiad cyffredinol ar sail ein hymweliadau â saith corff cyhoeddus a'r wybodaeth gysylltiedig o'r arolwg. Seilir ein hasesiad ar gyfartaledd statws y saith corff cyhoeddus.

Y canlyniadau wrth ddefnyddio'r pecyn asesu ymgynghori gyda saith o gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru

Cam 1: Asesu'r anghenion a phennu gofynion adnoddau		Statws COG
Datganiad 1A	Mae gan yr awdurdod strategaeth sy'n llywodraethu'r ffordd y bydd yn defnyddio ymgynghorwyr ac mae honno'n gysylltiedig â'i gynlluniau ar gyfer hyfforddi a recriwtio staff.	
Datganiad 1B	Mae digon o wybodaeth reoli'n cael ei chasglu a'i dadansoddi i oleuo ymagwedd y sefydliad at ddefnyddio ymgynghorwyr.	
Datganiad 1C	Cynhyrchir achosion busnes a manylebau recriwtio manwl yn rheolaidd sy'n esbonio ac yn cyfiawnhau pam mae angen ymgynghorwyr.	
Cam 2: Ystyried opsiynau ar gyfer adnoddau		
Datganiad 2A	Mae mecanwaith effeithlon ar waith i weld a oes staff mewanol sydd â'r sgiliau perthnasol cyn caffael ymgynghorwyr.	
Datganiad 2B	Cynhelir adolygiadau i sicrhau bod presenoldeb pob aelod o'r tîm ymgynghori'n hanfodol ac nad oes gan unrhyw weithiwr mewanol (sydd ar gael) allu cyfatebol.	
Datganiad 2C	Staff mewanol sy'n cyflawni'r rolau allweddol yn y prif raglenni.	
Datganiad 2D	Bydd y sefydliad yn cyfathrebu'n dda'n fewnol â'r staff ac yn allanol â sefydliadau eraill ynglŷn â'r ffordd y bydd yn defnyddio ymgynghorwyr.	

Cam 3: Tendro, dyfarnu a'r contract		Statws COG
Datganiad 3A	Mae gan y sefydliad dîm caffael a ddefnyddir bob tro wrth gaffael ymgynghorwyr a rhoddir gwerth mawr ar ei waith.	
Datganiad 3B	Ystyrir amrywiaeth o ddulliau talu bob tro wrth ymrwymo ymgynghorwyr.	
Datganiad 3C	Defnyddir cytundebau fframwaith yn rheolaidd wrth ymrwymo ymgynghorwyr.	
Datganiad 3D	Pan fydd angen ymgynghorydd, rhoddir y contract allan ar dendr, gan ganiatáu i ystod eang o gwmnïau ymgeisio.	
Datganiad 3E	Bydd prosiectau'n ymgysylltu'n rheolaidd â'r farchnad cyn cyhoeddi tendr ffurfiol.	
Datganiad 3F	Bydd ymgynghorwyr yn cael eu contractio am gyfnodau sydd wedi'u diffinio'n bendant, o'r tymor byr i'r tymor canol. Ni fydd penderfyniadau i ymestyn contractau'n cael eu gwneud yn ddifeddwl.	
Cam 4: Cyflawni'r prosiect, ymrwymiad y tîm a throsglwyddo sgiliau		
Datganiad 4A	Ystyrir bod trosglwyddo sgiliau'n bwysig, a bydd cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer hyn ac fe'i hanogir, lle bydd hynny'n briodol.	
Datganiad 4B	Mae'r berthynas rhwng ymgynghorwyr a'r staff mewnol mewn timau prosiect yn gryf, a byddant yn cyfathrebu'n agored ac yn rheolaidd.	
Datganiad 4C	Mae nodau a thargedau'r prosiect yn realistig ac wedi'u diffinio'n glir. Cânt eu cyfleu i bob unigolyn sy'n ymwneud â phrosiect ac mae'r cleient a staff yr ymgynghorydd ill dau yr un mor ymroddedig i gyflawni'r nodau hyn.	
Datganiad 4D	Rhoddir cymhellion addas i staff mewnol ac i gwmnïau ymgynghori i wobrwyo buddsoddi mewn gwaith ac ymdrech o safon uchel ar y prosiect.	
Datganiad 4E	Bydd ffioedd a threuliau ymgynghorwyr yn cael eu gwirio'n rheolaidd yn unol â pholisïau'r sefydliad.	
Cam 5: Gwerthuso ar ôl y contract		
Datganiad 5A	Bydd gwybodaeth werthfawr yn cael ei chasglu, ei dadansoddi a'i rhannu'n rheolaidd ar ddiwedd prosiectau ymgynghori, er mwyn iddi fod yn sail ac yn gyngor ar gyfer caffael yn y dyfodol, o fewn y sefydliad ei hun ac i awdurdodau eraill.	



Canlyniadau defnyddio'r cyfrifiannell manteision posibl ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru

Gan seilio'r ffigurau ar wariant blynyddol ar ymgynghori, cyfrifir yr arbedion effeithlonrwydd posibl ar y sail bod cyrff y sector cyhoeddus yn gwella'u dulliau o gaffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori nes bod yr arferion gorau'n cael eu rhoi ar waith ar draws pob un o'r pum cam. Mae pob cwestiwn yn y Pecyn yn gofyn i rywun ddewis statws coch, oren neu wyrdd (COG) ar sail y canllawiau a roddir ar gyfer pob lefel. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u grwpio o dan bedwar maes budd a defnyddir statws cyfartalog COG i ddangos canran nodweddiadol y manteision a allai ddeillio o roi arferion da ar waith. Cyfrifwyd yr arbedion posibl petai cyrff yn rhoi'r arferion da ar waith gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth drwy gynnal ymarfer meincnodi ar draws cyrff y sector cyhoeddus a phreifat er mwyn deall faint a arbedwyd drwy weithgareddau tebyg a sut y gwireddwyd y rhain. Nodwyd canran yr arbedion drwy feincnodi – ac yna'i haddasu ar gyfer amgylchedd y sector cyhoeddus - ar gyfer pob un o'r pedwar maes budd. Yna, cyfraddwyd y rhain oherwydd bod sefydliadau'n dechrau o wahanol lefelau o weithgarwch blaenorol ac felly bod y cyfle sydd ar gael iddynt sicrhau budd yn amrywio.

Ar sail gwariant blynyddol ar wasanaethau ymgynghori o £133 miliwn, ar draws llywodraeth leol, iechyd a Llywodraeth Cymru, defnyddiwyd cyfrifiannell manteision posibl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i gyfrifo arbedion posibl o £23.4 miliwn y flwyddyn:

Maes Newid Ymddygiad	Datganiadau Pecyn y SAG	Statws COG	Cyfartaledd COG Cyffredinol	% y Manteision Posibl i'w gwireddu	£ Manteision Posibl i'w gwireddu
Rheoli'r Galw	Cam 1: A		Oren	10.4%	£13,832,000
	Cam 1: B				
	Cam 1: C				
	Cam 2: A				
	Cam 2: B				
	Cam 2: C				
	Cam 2: D				

Maes Newid Ymddygiad	Datganiadau Pecyn y SAG	Statws COG	Cyfartaledd COG Cyffredinol	% y Manteision Posibl i'w gwireddu	£ Manteision Posibl i'w gwireddu
Rheoli Contract / Caffael Arbenigol	Cam 3: A		Oren	5.1%	£6,783,000
	Cam 3: B				
	Cam 3: C				
	Cam 3: D				
	Cam 3: E				
	Cam 4: A				
	Cam 4: D				
Rheoli Contractwyr/ Cyflenwyr	Cam 4: B		Oren	1.9%	£2,527,000
	Cam 4: C				
	Cam 5: A				
	Cam 3: F				
Manteision Cysylltiedig	Cam 4: E		Oren	0.2%	£266,000
					£23,408,000



Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd gyda Sicrhau'r Buddiannau a Fwriadwyd



Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd gyda Sicrhau'r Buddiannau a Fwriadwyd

Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Yr aelodau o staff yn Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd wrth baratoi'r adroddiad hwn oedd Anne Beegan, Katrina Febry, Philip Jones, Malcolm Latham a Elaine Matthews o dan arweiniad David Thomas.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae yntau'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilyddwr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfi aeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2013

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Cyflwynwyd yr adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 28 Chwefror 2013



Crynodeb	6
Argymhellion	12
1 Cyflwynwyd contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol y GIG yng Nghymru yn 2003, gyda'r bwriad o gynnig nifer o fanteision	17
Mae gwahanol drefniadau wedi'u rhoi ar waith ar gyfer contractau meddygon ymgynghorol ledled y Deyrnas Unedig	17
Roedd y contract diwygiedig yng Nghymru yn nodi nifer o fanteision penodol i feddygon ymgynghorol ac i'r GIG yn fwy cyffredinol	19
Mae'r contract diwygiedig yn diffinio wythnos waith meddyg ymgynghorol yn gliriach	20
Er y gwnaethpwyd diwygiadau, mae'r strwythur cyflogau i feddygon ymgynghorol yn parhau i fod yn gymhleth	20
2 Mae swm sylweddol wedi'i wario ar weithredu'r contract	23
I ddechrau, gwariwyd £35 miliwn ar gyflwyno'r contract newydd	23
Mae'r bil cyflogau cyffredinol ar gyfer meddygon ymgynghorol a chyflogau cyfartalog meddygon ymgynghorol wedi cynyddu ers cyflwyno'r contract diwygiedig	24
Gwariwyd £1.9 miliwn ar ddatblygu prosiect Dangosyddion Canlyniadau ar gyfer Meddygon Ymgynghorol ond, yn y pen draw, ni chyflawnodd y prosiect yr hyn y dymunwyd iddo ei gyflawni	26
3 Er y gwnaethpwyd rhai newidiadau nodedig, ni wireddwyd yr holl fanteision a fwriadwyd yn sgil y contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol	29
Mae'r wythnos waith yn fyrrach yn gyffredinol ond mae rhai meddygon ymgynghorol yn dal i weithio oriau hir	29

Mae recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol wedi gwella ac mae nifer y swyddi gwag yn sylweddol lai	32
Nid yw'r contract diwygiedig wedi bod yn sbardun sylweddol o ran moderneiddio'r gwasanaeth a chreu gwell perthynas waith rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr y GIG	34
Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi dull i asesu'r manteision a wireddwyd, nid oedd yn ddigon heriol	36
Nid yw'r GIG wedi datblygu unrhyw ddulliau mesur cynhyrchiant sy'n golygu bod modd mesur yn gywir y tueddiadau yng ngweithgarwch meddygon ymgynghorol	37

4 Yn y rhan fwyaf o'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd, nid yw'r broses o weithredu'r contract diwygiedig wedi cael ei hategu gan drefniadau cynllunio swyddi effeithiol

Roedd gweithredu'r contract diwygiedig yn llwyddiannus yn dibynnu ar drefniadau mwy trwyadl ar gyfer cynllunio swyddi	40
Dylid adolygu cynlluniau swyddi llawer o feddygon ymgynghorol yn amlach	42
Mae i ba raddau y mae canllawiau lleol a hyfforddiant wedi bod o gymorth wrth gynllunio swyddi wedi amrywio'n sylweddol	42
Mae'r ffordd yr eir ati i gynnal cyfarfodydd adolygu cynlluniau swyddi'n gallu amrywio'n sylweddol o fewn cyrff iechyd a rhyngddynt	44
Mae cynlluniau swyddi'n gallu amrywio'n sylweddol ac ychydig iawn sy'n cynnwys canlyniadau amlwg a mesuradwy	48
Nid oes cysylltiad bob tro rhwng arfarnu swyddi a'r broses cynllunio swyddi	54

Atodiadau

Atodiad 1 - Methodoleg yr astudiaeth	56
Atodiad 2 - Elfennau o gyflog meddygon ymgynghorol y GIG	57
Atodiad 3 - Dyletswyddau a chyfrifoldebau nodweddiadol a gynhwysir mewn sesiynau	59

Crynodeb

- 1 Cyflwynwyd y contract cyntaf i feddygon ymgynghorol yn 1948 ac ni fu fawr o newid iddo yn ei hanfod nes dechrau trafod y contract newydd yn y flwyddyn 2000. Cynhaliwyd y trafodaethau hyn wrth i reolwyr a meddygon ymgynghorol ill dau sylweddoli fwyfwy nad oedd yr hen contract bellach yn adlewyrchu patrymau gwaith ac anghenion y GIG modern. Yn wreiddiol, pedair adran iechyd y Deyrnas Unedig, cynrychiolwyd cyflogwyr o Gonffederasiwn y GIG a Chymdeithas Feddygol Prydain a fu'n cymryd rhan yn y trafodaethau hyn. Yn sgil y trafodaethau, cynhyrwyd y gyfres gyntaf o gynigion a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2001, ac fe'u gwrthodwyd ar unwaith gan feddygon, gan arwain at ail gytundeb fframwaith yn 2002. Er bod meddygon ymgynghorol yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon wedi derbyn yr ail gyfres o gynigion, fe'u gwrthodwyd yng Nghymru ac yn Lloegr, gan atal cyflwyno cytundeb cenedlaethol.
- 2 Yng Nghymru, ar ôl gwrthod y cynigion hyn, trafodwyd diwygiad i'r contract presennol rhwng Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Feddygol Prydain a chytunodd y meddygon ymgynghorol ar hyn ar ôl i 94 y cant bleidleisio o'i blaid. Oherwydd mai diwygiad i contract a oedd ar waith eisoes yw contract newydd Cymru, roedd yn orfodol i holl feddygon ymgynghorol Cymru gydymffurfio ag ef a daeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003. Mae hyn yn wahanol i'r contractau y cytunwyd arnynt yng ngweddill y Deyrnas Unedig, lle mae'r telerau a'r amodau newydd ond yn berthnasol i ymgynghorwyr newydd a benodwyd ar ôl y dyddiadau cytundeb gwahanol.
- 3 Yn sgil y contract diwygiedig hwn cyflwynwyd nifer o fanteision i feddygon ymgynghorol Cymru, gan gynnwys:
 - a graddfa gyflog newydd;
 - b gwell trefniadau ar gyfer cydnabod ymrwymadau ar alwad;
 - c trefniadau newydd ar gyfer Dyfarniadau Ymrwymiad a Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol;
 - ch ymrwymiad i wella trefniadau gweithio hyblyg.
- 4 Bwriad y trefniadau newydd hyn oedd sicrhau tair mantais benodol i'r GIG:
 - a gwella'r amgylchedd gwaith i feddygon ymgynghorol;
 - b gwella recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol;
 - c hwyluso'r ffordd i reolwyr ym maes iechyd a meddygon ymgynghorol gydweithio'n fwy clos er mwyn darparu gwell gwasanaeth i gleifion.
- 5 Er mwyn sicrhau'r manteision hyn, byddai dull mwy trwyadl o gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yn cael ei gyflwyno. Bwriad y broses cynllunio swyddi orfodol hon oedd sicrhau bod y meddyg ymgynghorol unigol a'r cyflogwr yn fwy clir ynglŷn â chynnwys ac amserlennu'r gweithgareddau sy'n ffurfio'r wythnos waith, a'r canlyniadau a ddymunir sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn.



- 6** Seilir y contract diwygiedig yng Nghymru ar wythnos waith amser llawn 37.5 awr, sy'n cyfateb i 10 sesiwn o dair neu bedair awr yr un. Adeg cyflwyno'r trefniadau contract newydd, sylweddolwyd bod llawer o feddygon ymgynghorol yn gweithio mwy na 10 sesiwn yr wythnos. Yn ystod y rownd cynllunio swyddi gyntaf a gynhaliwyd yn ymddiriedolaethau'r GIG rhwng hydref 2004 a dechrau 2005, mesurwyd i ba raddau yr oedd meddygon ymgynghorol yn gweithio sesiynau 'heb gydnabyddiaeth' fel hyn.
- 7** Un o ganlyniadau pwysig y rownd cynllunio swyddi gyntaf hon oedd cais gan bob un o gyrff y GIG i Lywodraeth Cymru am daliad ar gyfer y sesiynau ychwanegol 'heb gydnabyddiaeth' hyn. Yna, gofynnwyd i Gomisiwn Archwilio Cymru ar y pryd adolygu'r dulliau cynllunio swyddi yng nghyrrff y GIG er mwyn sicrhau Llywodraeth Cymru bod ceisiadau am sesiynau ychwanegol wedi'u seilio ar drefniadau cynllunio swyddi a oedd yn drwyadl ac yn effeithiol. Canlyniad y gwaith hwn oedd bod ymddiriedolaethau'r GIG wedi ymdrechu'n galed i sefydlu prosesau cadarn ar gyfer cynllunio swyddi, er bod eu dulliau'n amrywio a bod yr archwilwyr wedi codi nifer o bryderon am y trefniadau mewn ambell un o sefydliadau'r GIG.
- 8** Nid oedd adolygiad annibynnol wedi'i gynnal ar weithredu'r contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol yng Nghymru ers y gwaith a wnaeth y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn 2004-05. Felly, rhwng diwedd 2010 a diwedd 2011, aethpwyd ati i wneud gwaith archwilio lleol ym mhob un o gyrff y GIG yng Nghymru sy'n cyflogi meddygon ymgynghorol. Yn ogystal, yn ystod 2012, gan ddibynnu ar faterion lleol, cafodd gwaith dilynol ei wneud mewn rhai cyrrff GIG. Nod y gwaith hwn oedd ymchwilio i p'un a yw'r manteision y bwriedir i'r contract meddygon ymgynghorol diwygiedig eu cynnig yng Nghymru yn cael eu gwireddu. Roedd y gwaith yn canolbwyntio'n gryf ar i ba raddau yr oedd cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol wedi bwrw gwreiddiau yn sefydliadau'r GIG, o ystyried ei bwysigrwydd fel sail effeithiol ar gyfer gweithredu'r trefniadau contract newydd.
- 9** Mae pob un o gyrff y GIG wedi cael adroddiad sy'n cynnwys canfyddiadau ein gwaith lleol, ac mewn ambell achos, mae gwaith dilynol ychwanegol wedi'i wneud er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud digon o gynnydd gydag argymhellion yr archwiliad lleol. Mae copïau o'r adroddiadau archwilio lleol ar gyrff y GIG ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
- 10** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith lleol er mwyn rhoi darlun o sut mae'r contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol yn cael ei weithredu ledled Cymru. Casgliad cyffredinol ein gwaith yw nad yw'r holl fanteision a fwriadwyd yn cael eu gwireddu a hynny'n bennaf oherwydd nad oes trefniadau cynllunio swyddi effeithiol wedi bod ar waith i ategu'r contract diwygiedig.
- 11** Mae'r adroddiad yn ystyried:
- a** prif nodweddion y contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol yng Nghymru;
 - b** y costau sy'n deillio o'i gyflwyno;
 - c** i ba raddau y mae'r manteision y bwriadwyd iddo'u sicrhau yn wreiddiol yn cael eu cyflawni;
 - ch** pa mor effeithiol yw'r arf cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol o ran ategu'r broses o weithredu'r contract a gwireddu'r manteision a fwriadwyd.

- 12** Yn **Atodiad 1** rhoddir manylion ein dull archwilio. Roedd hyn yn cynnwys cynnal arolwg o feddygon ymgynghorol y GIG ledled Cymru.

Cyflwynwyd contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol y GIG yng Nghymru yn 2003, gyda'r bwriad o gynnig nifer o fanteision

- 13** Cyflwynwyd y contract cyntaf i feddygon ymgynghorol yn 1948 ac ni fu fawr o newid iddo yn ei hanfod nes cyflwyno'r contract newydd diwygiedig yng Nghymru yn 2003. Oherwydd mai diwygiad i gontract a oedd ar waith eisoes oedd hwn, roedd yn orfodol i holl feddygon ymgynghorol Cymru gydymffurfio ag ef. Mae hyn yn wahanol i'r contractau y cytunwyd arnynt yng ngweddill y Deyrnas Unedig, lle mae'r telerau a'r amodau newydd yn wirfoddol.
- 14** Nodau'r contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol oedd gwella'u hamgylchedd gwaith, gwella recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol a hwyluso'r ffordd i reolwyr ym maes iechyd a meddygon ymgynghorol gydweithio er mwyn darparu gwell gwasanaeth i gleifion yng Nghymru. Mae hyn yn rhan hanfodol o foderneiddio GIG Cymru.
- 15** Disgwyliad y byddai hyn yn mynd i'r afael â'r diwylliant ymysg meddygon ymgynghorol o weithio oriau hir, y byddai'n gwella recriwtio meddygon ymgynghorol yng Nghymru, ac y byddai meddygon ymgynghorol yn cyfrannu'n fwy effeithiol at ymdrechion i foderneiddio'r gwasanaethau a gwella'r gofal a roddir i gleifion. Byddai cyflwyno trefniadau cynllunio swyddi effeithiol yn ategu'r broses o wireddu'r manteision hyn.

- 16** Er gwaethaf y diwygiadau, mae'r strwythur cyflogau i feddygon ymgynghorol yn gymhleth o hyd ac yn cynnwys cyflog sylfaenol, sydd wedi'i seilio ar nifer y sesiynau y cytunwyd arnynt yn y cynllun swydd yn ogystal ag unrhyw sesiynau ychwanegol y cytunir i'w gweithio drwy negodi. At hynny, fe all y cyflog gynnwys Dyfarniadau Ymrwymiad a Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol, atodiadau am fod ar alwad, a ffioedd a lwfansau eraill.

Mae swm sylweddol wedi'i wario ar roi'r contract ar waith

- 17** Neilltuwyd £18 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf i dalu am gyflwyno'r contract diwydiedig. Ar ôl y cylch cynllunio swyddi cyntaf a'r sicrwydd a ddarparwyd yn sgil adolygiad y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, darparwyd £17 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am y sesiynau ychwanegol, gan ddod â chyfanswm cost gweithredu'r contract i £35 miliwn. Parhaodd Llywodraeth Cymru i ariannu sesiynau ychwanegol 'heb gydnabyddiaeth' yn ganolog tan 2009-10; wedi'r cyfnod hwn, cyrff unigol y GIG a oedd yn gyfrifol am dalu'r costau hyn.
- 18** Ers cyflwyno'r contract diwygiedig, mae'r bil cyflogau drwyddo draw, sy'n cynnwys dyfarniadau cyflog i feddygon ymgynghorol, wedi cynyddu o £250 miliwn yn 2004 i £331 miliwn yn 2010. Mae hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y swyddi i feddygon ymgynghorol yn y GIG dros y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod, mae enillion meddygon ymgynghorol, ar gyfartaledd, wedi cynyddu 29 y cant, yn sgil newid y strwythur cyflogau
- 19** Ym mis Medi 2005, lanswyd prosiect Dangosyddion Canlyniadau Meddygon Ymgynghorol - menter a noddwyd ar y cyd rhwng prif weithredwyr ymddiriedolaethau'r



GIG ar y pryd a Llywodraeth Cymru. Y nod oedd datblygu cyfres o ddangosyddion canlyniadau ar gyfer meddygon ymgynghorol unigol y gellid eu defnyddio fel sail i drafodaethau am gynllunio swyddi.

- 20** Roedd y prosiect yn gynllun arloesol a allai wella'r broses cynllunio swyddi a'r broses arfarnu yn sylweddol. Fodd bynnag, oherwydd pryderon parhaus am ansawdd y dangosyddion, rhoddwyd y gorau i'r prosiect yn 2009 heb iddo wireddu'r rhan fwyaf o'i nodau ac eithrio hybu gwell ymwybyddiaeth o ddulliau mesur canlyniadau a chyfyngiadau systemau gwybodaeth GIG ar y pryd.
- 21** Cyfrannodd nifer o ffactorau at fethiant y prosiect i gyrraedd ei nodau. Un broblem sylfaenol oedd bod y data a ddefnyddid yn sail i'r dangosyddion wedi dod o'r Systemau Gweinyddu Cleifion. Ni fwriadwyd i'r data hyn gael eu defnyddio at ddiben canlyniadau clinigol ar lefel clinigwyr unigol a gwelwyd yn fuan fod problemau o ran cywirdeb y data.
- 22** Maes o law, penderfyniad pragmataidd oedd y penderfyniad i beidio â pharhau â'r prosiect, o gofio y byddai angen cryn dipyn o amser ac adnoddau ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a oedd yn codi. O ystyried y problemau a gafwyd, efallai ei bod yn syndod na wnaeth y grŵp llywio a oedd yn goruchwyllo gweithrediad y prosiect benderfynu gwneud hyn yn gynharach. Y canlyniad yn y pen draw yw nad oes cyfres safonol, dderbyniol o ddulliau mesur canlyniadau wedi'i chynhyrchu ar gyfer pob arbenigedd i ategu'r broses cynllunio swyddi. Mae angen allbwn o'r fath o hyd, ac mae'n bwysig nad yw'r hyn a ddysgwyd yn sgil y prosiect yn cael ei golli. Yn hytrach, dylid defnyddio hyn fel sail ar gyfer gwaith newydd i gynhyrchu'r wybodaeth bwysig hon.

Er y gwnaethpwyd rhai newidiadau nodedig, ni wireddwyd yr holl fanteision a fwriadwyd yn sgil y contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol

- 23** Ar gyfartaledd, mae wythnos waith meddyg ymgynghorol fymryn dros bedair awr yn fyrrach ers dechrau'r contract. Yn 2004, roedd meddygon ymgynghorol yn gweithio wythnos waith 46 awr ar gyfartaledd. Erbyn 2010, roedd yr wythnos waith wedi'i chwtogi i 42 awr ar gyfartaledd. Mae'r gostyngiad hwn yn bennaf oherwydd bod meddygon ymgynghorol yn gwneud llai o waith ar ffurf gweithgarwch Gofal Clinigol Uniongyrchol, a hynny gan mwyaf am fod y gwaith wedi cael ei ailddosbarthu o fewn y tîm clinigol a hefyd oherwydd bod rhagor o feddygon ymgynghorol wedi'u cyflogi. Yn gyffredinol, fodd bynnag, gwelwyd cynnydd 3,160 yr wythnos yng nghyfanswm nifer y sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol sydd ar gael i'r GIG.
- 24** Yng Nghymru, bwriad gwreiddiol y contract diwygiedig oedd bod pob meddyg ymgynghorol yn gweithio wythnos waith 37.5 awr. Cafodd hyn ei lacio, ac mae disgwyl na ddylai meddygon ymgynghorol weithio mwy na 12 sesiwn. Ar hyn o bryd, dim ond traean o feddygon ymgynghorol Cymru sydd â chontract 10 sesiwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod llawer o feddygon ymgynghorol yn barod i weithio sesiynau ychwanegol i gynyddu eu gweithgarwch, i ysgwyddo cyfrifoldebau rheoli neu i helpu i ddatblygu eu hymarfer clinigol hwy eu hunain. Mae'r trefniant hyblyg hwn o fudd uniongyrchol i'r GIG ac i'r meddyg ymgynghorol unigol.
- 25** Mae rhai meddygon ymgynghorol yn dal i weithio oriau rhy hir. Wrth ddadansoddi'n fanwl adroddiadau cynllunio swyddi yn ystod ein gwaith archwilio lleol, gwelwyd bod tuag un o bob chwech o feddyg ymgynghorol yn gweithio 46.5 awr neu ragor a bod y mwyafrif

helaeth yn y grŵp hwn yn gweithio mwy o oriau na therfyn 48 awr y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd.

- 26** Mae recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol wedi gwella a nifer y swyddi gwag a nodwyd yn sylweddol lai. Mae'r wybodaeth am y gweithlu a gaiff Llywodraeth Cymru gan gyrff y GIG bob blwyddyn yn dangos bod nifer y meddygon ymgynghorol Cyfwerth ag Amser Llawn yn y GIG wedi cynyddu 37 y cant rhwng 2004 a 2011.
- 27** Ochr yn ochr â'r cynnydd yn nifer y meddygon ymgynghorol sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru ers gweithredu'r contract diwygiedig, gwelwyd lleihad yn nifer y swyddi gwag i feddygon ymgynghorol. Ar gyfartaledd ledled Cymru, mae canran y swyddi gwag i feddygon ymgynghorol wedi gostwng o 8.4 y cant yn 2004 i 2.1 y cant erbyn mis Mawrth 2011.
- 28** Yn gyffredinol, nid yw'r contract diwygiedig wedi bod yn sbardun i foderneiddio'r gwasanaeth, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Roedd llai na hanner y meddygon ymgynghorol a lenwodd ein harolwg yn teimlo bod y contract diwygiedig a'r broses cynllunio swyddi wedi cynnig cyfleoedd i drafod moderneiddio'r gwasanaeth a gwella ymarfer clinigol, ac roedd llai byth yn teimlo'i fod wedi gwella'r gofal a roddir i gleifion neu wedi newid y ffordd yr oeddent yn gweithio er gwell.
- 29** Mae hyn yn siomedig o gofio bod llawer o waith wedi'i wneud yn ystod camau cyntaf y broses o weithredu'r contract i sefydlu trefniadau cynllunio swyddi effeithiol a fyddai'n ategu'r contract ac yn help i sicrhau'r manteision a fwriadwyd. Yn wir, Cymru oedd yr unig ran o'r Deyrnas Unedig i geisio sylwebaeth annibynnol ar gadernid y cylch cynllunio swyddi cychwynnol yng

nghyrff y GIG. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru ac fe'i cwblhawyd ym mis Mawrth 2005. Canlyniad hyn oedd bod gan bob un o ymddiriedolaethau'r GIG ar y pryd gyfres o argymhellion ar gyfer gwella'u trefniadau cynllunio swyddi a sicrhau eu bod yn bwrw gwreiddiau.

- 30** Ar ôl i'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru wneud y gwaith hwn, cyflwynwyd gofyniad gan Lywodraeth Cymru ar i bob un o gyrff y GIG baratoi adroddiad blynyddol i ddangos eu cynnydd o ran gweithredu'r contract diwygiedig a sut yr oeddent yn mynd i'r afael ag argymhellion yr archwilywyr. Roedd y gofyniad hwn i gyflwyno adroddiad blynyddol yn weithredol rhwng 2006 a 2009.
- 31** Ar y cyfan, roedd yr adroddiadau blynyddol a gyflwynwyd gan ymddiriedolaethau'r GIG yn adrodd am y datblygiadau o'u safbwynt hwy eu hunain ac fe dderbyniodd Llywodraeth Cymru y rhain fel yr oeddent ar y sail eu bod wedi cael eu cymeradwyo gan y prif weithredwyr a bod y Pwyllgor Negodi Lleol, a oedd yn cynrychioli corff y meddygon ymgynghorol, wedi cytuno arnynt. Mae ein cyfweiliadau'n awgrymu nad dyma'r sefyllfa bob tro er bod Llywodraeth Cymru, drwy drafodaethau â Chymdeithas Feddygol Prydain a chynrychiolwyr meddygon ymgynghorol yng Nghydbwyllgor Contract Meddygon Ymgynghorol Cymru, wedi ceisio gwella'r trefniadau. Mae ein gwaith archwilio lleol ar ôl hyn wedi dangos bod y disgrifiadau o'r cynnydd yn yr adroddiadau blynyddol yn rhy optimistaidd ac nad oeddent yn cyfeirio at faterion pwysig megis pa mor aml yr oedd y cynllunio swyddi'n digwydd nac ychwaith at ansawdd y prosesau a oedd ar waith yn ategu'r gwaith cynllunio hwnnw.



Yn y rhan fwyaf o'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd, nid yw'r broses o weithredu'r contract diwygiedig wedi cael ei hategu gan drefniadau cynllunio swyddi effeithiol

- 32** Yn yr archwiliadau lleol, gwelwyd nad yw cynllun swydd llawer o feddygon ymgynghorol yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Ar gyfartaledd drwy Gymru, dim ond 61 y cant o feddygon ymgynghorol a ddywedodd fod eu cynllun swydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn.
- 33** Yn 2004, datblygwyd canllawiau lleol gan y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau'r GIG i ategu'r hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill megis Cymdeithas Feddygol Prydain. Bu'r canllawiau lleol hyn yn help i sicrhau bod y trefniadau cynllunio swyddi'n cael eu gweithredu'n gyson mewn sefydliadau unigol. Dros amser, fodd bynnag, mabwysiadwyd gwahanol ddulliau, a hynny'n aml ar sail anffurfiol. Wrth i ymddiriedolaethau'r GIG uno ac yn sgil ad-drefnu'r GIG wedyn, etifeddodd y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau amrywiaeth o ddulliau cynllunio swyddi gan eu rhagflaenwyr.
- 34** Gwelwyd yr un math o amrywiaeth o ran dulliau wrth ddarparu hyfforddiant i staff sy'n adolygu cynlluniau swyddi. Yn 2004, ochr yn ochr â gweithredu'r contract diwygiedig, trefnwyd hyfforddiant cynhwysfawr ar gynllunio swyddi yn ymddiriedolaethau'r GIG. Fodd bynnag, oherwydd mai'r un staff a oedd yn cynnal yr adolygiadau swyddi bob blwyddyn yn y sefydliadau hyn, tybiwyd nad oedd angen parhau i ddarparu'r hyfforddiant hwn ac fe edwinodd. Yn sgil un newid sefydliadol ar ôl y llall ac yn sgil recriwtio meddygon ymgynghorol newydd a chyfarwyddwyr clinigol newydd, mae hyfforddiant wedi dod yn bwysig unwaith eto er mwyn sicrhau cysondeb.
- 35** Yn ystod yr archwiliadau lleol, gwelwyd bod y trefniadau ymarferol sy'n gysylltiedig â'u cyfarfodydd cynllunio swyddi yn briodol i'r rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol. Agwedd lai cadarnhaol a welwyd yn ystod ein harchwiliadau oedd bod cynllunio swyddi ar gyfer llawer o feddygon ymgynghorol yn cael ei lesteirio oherwydd nad oes digon o wybodaeth ar gael i seilio'r trafodaethau arnynt yn y cyfarfodydd adolygu hyn. Mae methiant y prosiect Dangosyddion Canlyniadau Meddygon Ymgynghorol wedi golygu nad oes data ystyrlon am ganlyniadau ar gael o hyd ar gyfer y rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol.
- 36** Heb allu cael gafael ar y wybodaeth briodol, mae'n anochel y bydd trafodaethau cynllunio swyddi'n canolbwyntio mwy ar amserlennu gweithgareddau, yn hytrach nag ar y canlyniadau y mae angen i'r gweithgareddau hynny eu cyflawni.
- 37** Gall amrywiaeth eang o staff fod yn rhan o'r trafodaethau cynllunio swyddi. Ar y lleiaf, bydd angen i'r meddyg ymgynghorol gyfarfod â rheolwr clinigol priodol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod cynllunio swyddi'n dod yn rhan hanfodol o gynllunio busnes a chynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau, mae angen mewnbwn priodol hefyd gan reolwyr y gyfarwyddiaeth neu reolwyr cyffredinol. Yn ein gwaith archwilio, gwelsom fod y trafodaethau'n aml yn cael eu cynnal heb fod y rheolwyr hyn yn bresennol. Ymddengys fod hyn yn groes i un o brif nodau'r contract diwygiedig, sef meithrin cydweithio mwy clos rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr y GIG.

- 38** Gall cynnwys cynlluniau swyddi amrywio'n fawr ac ychydig iawn sydd â chanlyniadau amlwg a mesuradwy. Er bod nifer y sesiynau sy'n cael eu cynnwys mewn cynlluniau swyddi'n amrywio'n fawr, dywedodd meddygon ymgynghorol sy'n gweithio llai o sesiynau wrthym eu bod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau hyn a'u bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu trin yn deg.
- 39** Mae Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yn elfen bwysig o wythnos waith meddyg ymgynghorol, ac mae angen i gyrff y GIG sicrhau bod nifer briodol o'r sesiynau hyn yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol.
- 40** Pan gyflwynwyd y contract diwygiedig yng Nghymru, nododd y dylai meddygon ymgynghorol amser llawn 'yn nodweddiadol' gael tair sesiwn Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yr wythnos. Effaith hyn oedd creu disgwyliad ymysg rhai mai tair sesiwn Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yr wythnos fyddai'r norm, ni waeth beth fyddai anghenion proffesiynol y clinigwr, nac ychwaith beth fyddai anghenion busnes y sefydliad. Mae'r ddadl hon wedi symud yn ei blaen ac, mewn gwirionedd, ychydig iawn o feddygon ymgynghorol sy'n cael tair sesiwn Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yr wythnos. Fodd bynnag, gwaddol hyn yw bod llawer o'r dadleuon yn sefydliadau'r GIG wedi canolbwyntio ar nifer y sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol, yn hytrach nag edrych mewn ffordd fwy cyfannol ar ba fath o Weithgareddau sydd eu hangen a sut y gellir dangos eu gwerth.
- 41** Yn gyffredinol, canfu ein harchwiliadau lleol fod cryn le i wella'r ffordd y rheolir sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol drwy gynllunio swyddi'n well er mwyn sicrhau bod y meddyg ymgynghorol a'r GIG, ill dau, yn gwireddu'r fantais lawn yn sgil y buddsoddiad hwn.

Argymhellion

Cryfhau'r prosesau cynllunio swyddi yng nghyrrff y GIG

- 1** Mae llawer o'r manteision a fwriadwyd yn sgil y contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol yng Nghymru yn dibynnu ar sicrhau bod prosesau cynllunio swyddi effeithiol ar waith. Mae'r gwaith archwilio lleol wedi dangos bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd yng nghyrrff y GIG i sefydlu trefniadau cynllunio swyddi cadarn i feddygon ymgynghorol. **Er mwyn cryfhau'r trefniadau presennol, rydym yn argymhell y dylai cyrrff y GIG yng Nghymru sy'n cyflogi meddygon ymgynghorol wneud y canlynol:**
 - a** Sicrhau bod gan bob meddyg ymgynghorol gynllun swydd sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion busnes sefydliad y GIG a datblygiad proffesiynol parhaus y meddyg ymgynghorol.
 - b** Lle y bydd newidiadau i wasanaethau'r GIG yn digwydd yn sgil ymgynghori â'r cyhoedd, dylid diweddarau cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol a chytuno arnynt er mwyn iddynt adlewyrchu modelau gwasanaeth newydd. Dylai hyn ddigwydd fel rhan annatod o'r broses ailgynllunio gwasanaethau, yn hytrach na bod yn weithgaredd ôlweithredol sy'n digwydd ar ôl sefydlu'r gwasanaethau newydd.
 - c** I ategu'r broses cynllunio swyddi, dylid darparu canllawiau lleol wedi'u diweddarau a hyfforddiant rheolaidd i'r holl staff sy'n cymryd rhan yn y broses.



- ch** Sicrhau bod rheolwyr cyffredinol yn ymwneud â'r broses cynllunio swyddi i feddygon ymgynghorol er mwyn sicrhau bod amcanion ehangach y sefydliad, gwelliannau i'r gwasanaeth a materion ariannol yn cael eu hystyried wrth gytuno ar y cynlluniau swyddi hyn, ac i helpu rheolwyr i ddeall pa adnoddau a chymorth sydd eu hangen ar feddygon ymgynghorol er mwyn iddynt gyflawni'r ymrwymadau sydd yn eu cynllun swydd.
- d** Er bod cynllunio swyddi ac arfarnu'n brosesau ar wahân, mae'n amlwg bod cysylltiad rhwng canlyniad yr arfarniad a'r broses cynllunio swyddi o ran diwallu anghenion datblygu meddyg ymgynghorol. Bydd angen i sefydliadau'r GIG sicrhau bod y ddwy broses ar wahân hyn yn cael eu cysoni'n briodol ac yn cael eu cydblethu er mwyn ymateb i ofynion aiddilysu newydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol a gyflwynir yn 2013.
- dd** Cydweithio gyda'r prifysgolion i gytuno ar gynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol sydd â chontractau academaidd er mwyn ystyried yn briodol ac yn deg ddisgwyliadau a gofynion y ddau sefydliad; yn yr un modd, dylid sefydlu trefniadau tebyg i feddygon ymgynghorol sy'n gweithio i ddau neu fwy o sefydliadau'r GIG.
- e** Rhoi prosesau monitro ar waith i sicrhau bod gan bob meddyg ymgynghorol gynllun swydd cyfoes, a bod y gwaith cynllunio swyddi'n cael ei wneud yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd; dylai'r prosesau monitro gynnwys adroddiad diweddarau i'r Bwrdd, bob blwyddyn fan leiaf, sy'n dangos i ba raddau y mae'r broses cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol wedi bwrw gwreiddiau drwy'r sefydliad cyfan a'i bod yn arfer rheoli rheolaidd.
- 2** Er bod cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol, ar y cyfan, yn weithgarwch y mae angen iddo ddigwydd rhwng meddyg ymgynghorol a'r corff sy'n ei gyflogi, mae'n bwysig bod sefydliadau'r GIG drwy Gymru yn mabwysiadu dull cyson o gynllunio swyddi. Mae gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae o ran helpu i sicrhau bod cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yn cael ei wneud mewn ffordd gyson ac yn unol ag arferion da cydnabyddedig. **Felly, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:**
- a** Diweddarau ac ailgyhoeddi'r canllawiau i Gymru gyfan a ddatblygwyd yn 2003; gallai fod o fudd cynnull gweithgor o gynrychiolwyr o wahanol sefydliadau'r GIG, grwpiau proffesiynol a chymdeithasau i gynrychioli gweithwyr i oruchwylio'r broses hon, ac i sicrhau bod y canllawiau sydd wedi'u diweddarau'n adlewyrchu'r arferion da sydd wedi'u mabwysiadu'n llwyddiannus yng nghyffwrdd unigol y GIG yng Nghymru ym maes cynllunio swyddi.
- b** Cynnwys, fel rhan o'i chanllawiau diwygiedig, ddogfennau templed ar gyfer cynllunio swyddi a fydd o gymorth i sicrhau cysondeb wrth ddisgrifio elfennau cynllun swydd meddyg ymgynghorol, ac wrth fynegi a mesur yr allbynnau a'r canlyniadau a ddymunir.

Defnyddio'r wybodaeth gywir yn sail ar gyfer cynllunio swyddi

- 3 Er mwyn i'r trefniadau cynllunio swyddi fod yn ystyrlon, mae angen i glinigwyr a rheolwyr allu cael gafael ar ddata a gwybodaeth leol am ffactorau pwysig megis y galw am wasanaethau a'r capasiti ar y pryd er mwyn i gynlluniau swyddi allu adlewyrchu'r trefniadau cyflawni sy'n angenrheidiol er mwyn cyrraedd nodau'r sefydliad. Nid yw seilio cynlluniau swyddi ar lefelau gweithgarwch hanesyddol yn ddigonol bellach i ddiwallu anghenion GIG modern sy'n esblygu. **Felly, rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG ddatblygu 'fframwaith' gwybodaeth ar gyfer cynllunio swyddi, a hynny fesul arbenigedd. Bydd angen i glinigwyr a rheolwyr gydweithio i nodi'r elfennau y mae angen eu cynnwys mewn fframwaith o'r fath ar gyfer pob arbenigedd ond byddai disgwyl iddo gynnwys: gwybodaeth am weithgarwch; cost; perfformiad o gymharu â thargedau lleol a chenedlaethol; materion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch; mesurau'r gweithlu; a chynlluniau a mentrau i foderneiddio ac ad-drefnu'r gwasanaeth.**

Defnyddio cynlluniau swyddi i egluro disgwyliadau ac i ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau

- 4 Mae angen i'r broses cynllunio swyddi fod yn fwy o lawer na chytundeb syml ynglŷn ag amserlen gweithgareddau. Mae angen i'r cynllun swyddi fod yn gytundeb rhagolygol sy'n nodi dyletswyddau, cyfrifoldebau a deilliannau'r meddyg ymgynghorol ar gyfer y flwyddyn, a dangos cysylltiad clir rhwng amcanion y meddyg ymgynghorol a deilliannau'r sefydliad. Bydd cyfleu amcanion a deilliannau'r meddyg ymgynghorol yn glir yn gymorth i egluro'r hyn a ddisgwylir ganddo, a

pha gymorth ac adnoddau y bydd eu hangen ar y meddyg ymgynghorol i'w cyflawni. **Rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt brosesau clir a chadarn ar waith i drafod amcanion a chanlyniadau ar gyfer meddygon ymgynghorol, ac i gytuno arnynt, fel rhan o'r broses cynllunio swyddi. Bydd yn bwysig sicrhau bod clinigwyr a rheolwyr sy'n ymwneud â phennu'r amcanion a'r canlyniadau hyn yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth priodol i gynllunio swyddi'n effeithiol gyda meddygon ymgynghorol.**

- 5 Wrth gytuno ar gynnwys ac allbynnau a chanlyniadau disgwylidig cynllun swydd, bydd angen rhoi sylw penodol i Weithgareddau Proffesiynol Ategol. Gyda'i gilydd, mae'r Gweithgareddau hyn yn fuddsoddiad sylweddol o ran amser ac adnoddau ac mae'n bwysig bod y gweithgarwch hwn yn arwain at fanteision clir ac amlwg i'r sefydliad, i'r ymgynghorydd ac i'r claf. Mae'r gwaith archwilio lleol wedi dangos bod gormod o ffocws wedi bod ar nifer y Gweithgareddau, yn hytrach nag ar yr hyn a gyflawnir yn eu sgil. **Felly, rydym yn argymhell:**

- a **Y dylai cyrff y GIG sicrhau bod eu proses cynllunio swyddi'n cynnwys trafodaeth glir a gwybodus am anghenion Gweithgareddau Proffesiynol Ategol meddygon ymgynghorol unigol, gan sylweddoli y gall y rhain newid yn ystod gwahanol gamau gyrfa meddyg ymgynghorol. Dylai'r drafodaeth cynllunio swydd nodi'n benodol pa Weithgareddau Proffesiynol Ategol sydd i'w cynnwys yn y cynllun swydd, gan nodi'r allbynnau a'r canlyniadau y dylid eu cyflawni, ac ymhle y cyflawnir y gweithgareddau hyn.**



b Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir i gyrff y GIG sy'n pwysleisio pwysigrwydd Gweithgareddau Proffesiynol Ategol a bod angen i nifer y gweithgareddau hynny a'u math amrywio o'r naill feddyg ymgynghorol i'r llall er mwyn adlewyrchu anghenion clinigwyr unigol ac anghenion sefydliad y GIG y maent yn gweithio ynddo.

6 Un o brif nodau'r contract i feddygon ymgynghorol oedd gwella'u hamgylchedd gwaith a hwyluso gwell trefniadau gweithio er mwyn darparu gwell gwasanaethau i gleifion. Gan fod clinigwyr yn aml yn gweithio mewn timau, gall mabwysiadu dull o gynllunio swyddi fel tîm fod o fudd, drwy helpu er enghraifft i wneud rolau unigolion o fewn timau yn fwy clir a sicrhau bod gwaith yn cael ei rannu'n gytbwys ac yn deg. Er gwaethaf y manteision posibl hyn, dangosodd y gwaith archwilio lleol nad oedd cynllunio swyddi ar sail timau'n digwydd yn aml. **Felly, argymhellir y dylai gyrff y GIG ystyried mabwysiadu dull o gynllunio swyddi fel tîm lle y gellir dangos y byddai hyn o fudd. Byddai angen darbwyllo meddygon ymgynghorol i gymryd rhan yn hytrach na'u gorfodi, gan esbonio'n glir y manteision sy'n gysylltiedig â chynllunio fel tîm, ac ni ddylent golli eu hawl i gytuno ar gynllun swydd unigol â'r sefydliad sy'n eu cyflogi.**

Ffocws cryfach ar wireddu'r manteision

7 Oherwydd bod diffyg fframwaith clir a chynaliadwy i fonitro sut y gweithredir y contract i feddygon ymgynghorol yng Nghymru, mae wedi bod yn anodd cynnig sylwadau cynhwysfawr ynglŷn â gwireddu'r manteision. Roedd y mecanwaith adrodd blynyddol a oedd ar waith rhwng 2005 a 2009 yn fodd o olrhain cynnydd o ran sicrhau'r manteision a fwriadwyd ond nid oes dim byd tebyg wedi bod ers hynny. Hefyd, oherwydd y penderfyniad i roi'r gorau i'r prosiect dangosyddion canlyniadau, nid oes dangosyddion penodol y gellir eu defnyddio i fesur a yw'r manteision a fwriadwyd yn cael eu gwireddu neu beidio. Yn anad dim, nid oedd manteision penodol sy'n gysylltiedig â pherfformiad a chynhyrchiant yn nodau penodol yn y contract diwygiedig. Yng nghyd-destun yr uchod, argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull newydd o asesu'r manteision parhaus sy'n cael eu gwireddu yn sgil y contract diwygiedig. **Dylai hyn gynnwys:**

- a** gwerthuso'r prosiect dangosyddion canlyniadau meddygon ymgynghorol yn ffurfiol er mwyn deall yn llwyr y rhesymau dros ei fethiant, a hefyd er mwyn gweld a oedd agweddau cadarnhaol yn perthyn i'r prosiect y gellid adeiladu arnynt;
- b** defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y prosiect dangosyddion canlyniadau fel sail i waith newydd sy'n nodi canlyniadau penodol a mesuradwy a fydd yn help i asesu a yw'r manteision a fwriadwyd yn cael eu gwireddu;
- c** lle bo hynny'n berthnasol, sefydlu grwpiau Cymru gyfan i nodi'r setiau data craidd sy'n ffurfio'r fframweithiau gwybodaeth ar gyfer pob arbenigedd,

ac i weld ymhle y gellir cael gafael ar ddata'n ganolog o systemau gwybodaeth GIG Cymru i ategu'r data sydd ar gael yn lleol;

ch nodi dulliau teg ac ystyrlon o fesur cynhyrchiant meddygon ymgynghorol er mwyn bod yn sail i drafod y manteision a wireddir gan ei gwneud yn bosibl asesu'n fwy clir y gwerth am arian a sicrheir yn sgil moderneiddio cyflogau drwy'r contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol.

8 Yn lleol, mae angen i gyrff unigol y GIG fynd ati'n strategol i wireddu manteision, ac **argymhellwn y dylid dangos yn fwy amlwg sut mae cynllunio swyddi meddygon ymgynghorol yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau a'u moderneiddio, ac i gyflawni blaenoriaethau sefydliadau a'u targedau perfformiad.**



Rhan 1 - Cyflwynwyd contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol y GIG yng Nghymru yn 2003, gyda'r bwriad o gynnig nifer o fanteision

1.1 Mae'r adran hon yn rhestru prif elfennau'r diwygiadau i'r contract meddygon ymgynghorol yng Nghymru ac yn eu cyferbynnu â'r rhai a gyflwynwyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Ystyrir newidiadau i strwythurau cyflog meddygon ymgynghorol ac i'w hwythnos waith, ochr yn ochr â'r manteision yr oedd y contract diwygiedig yn ceisio'u gwireddu.

Mae gwahanol drefniadau wedi'u rhoi ar waith ar gyfer contractau meddygon ymgynghorol ledled y Deyrnas Unedig

1.2 Cyflwynwyd y contract cyntaf i feddygon ymgynghorol yn 1948 ac ni fu fawr o newid iddo yn ei hanfod nes dechrau trafod y contract newydd yn y flwyddyn 2000. Cynhaliwyd y trafodaethau hyn wrth i reolwyr a meddygon ymgynghorol ill dau sylweddoli fwyfwy nad oedd yr hen gontract bellach yn adlewyrchu patrymau gwaith ac anghenion y GIG modern.

1.3 Yn wreiddiol, pedair adran iechyd y Deyrnas Unedig, cynrychiolwyr cyflogwyr o Gonffederasiwn y GIG a Chymdeithas Feddygol Prydain a fu'n cymryd rhan yn y trafodaethau ynglŷn â'r contract. Yn sgil y trafodaethau hyn, cynhyrchwyd y gyfres gyntaf o gynigion a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2001, ac fe'u gwrthodwyd ar unwaith gan feddygon, gan arwain at ail gytundeb fframwaith yn 2002. Er bod meddygon ymgynghorol yn yr Alban ac yng Ngogledd

Iwerddon wedi derbyn yr ail gyfres o gynigion, fe'u gwrthodwyd yng Nghymru ac yn Lloegr, gan atal cyflwyno cytundeb cenedlaethol.

1.4 Yng Nghymru, ar ôl gwrthod y cynigion hyn, trafodwyd diwygiad i'r contract presennol rhwng Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Feddygol Prydain a dderbyniwyd gan y proffesiwn ar ôl i fwyafrif llethol o'r meddygon ymgynghorol bleidleisio o'i blaid.

1.5 Seilir y contract diwygiedig yng Nghymru ar wythnos waith amser llawn 37.5 awr, sy'n cyfateb i 10 sesiwn o dair neu bedair awr yr un. Mae wythnos waith meddyg ymgynghorol yn cynnwys cymysgedd o sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol, megis clinigau a rowndiau ward, a sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol, megis ymchwil, archwiliadau clinigol ac addysgu. Roedd y contract diwygiedig yn dweud y byddai'r wythnos waith 'nodweddiadol' yn cynnwys saith o sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol a thair o sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol.

1.6 Daeth y contract diwygiedig i rym yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2003. Oherwydd mai diwygiad i'r contract a oedd eisoes ar waith oedd hwn, roedd yn orfodol i bob meddyg ymgynghorol yng Nghymru gydymffurfio ag ef. Mae hyn yn wahanol i'r contractau y cytunwyd arnynt yng ngweddill y Deyrnas Unedig, lle mae'r telerau a'r amodau newydd ond yn berthnasol i ymgynghorwyr newydd a benodwyd ar ôl y dyddiadau cytundeb gwahanol.

1.7 Yn fuan ar ôl cyflwyno'r contract diwygiedig yng Nghymru cyflwynwyd trefniadau newydd ar gyfer contractau meddygon ymgynghorol yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban hefyd. Mae hyn wedi golygu gwahaniaethau rhwng

telerau ac amodau, er enghraifft, o ran nifer yr oriau a weithir a sut y telir meddygon ymgynghorol ar draws gwledydd y Deyrnas Unedig. Crynhoir y gwahanol drefniadau contract yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1 - Gwahaniaethau rhwng contract Cymru a chontractau gweddill y DU

Cymru	Lloegr	Yr Alban	Gogledd Iwerddon
Gweithredwyd ar 1 Rhagfyr 2003	Cyflwynwyd ym mis Hydref 2003 a gweithredwyd ym mis Ebrill 2004	Gweithredwyd ym mis Ebrill 2004	Gweithredwyd ym mis Ebrill 2004
Mae'n orfodol i bob meddyg ymgynghorol	Mae'r contract newydd ar gael i bob meddyg ymgynghorol ond nid oedd yn rhaid iddynt drosglwyddo iddo	Mae'r contract newydd ar gael i bob meddyg ymgynghorol ond nid oedd yn rhaid iddynt drosglwyddo iddo	Mae'r contract newydd ar gael i bob meddyg ymgynghorol ond nid oedd yn rhaid iddynt drosglwyddo iddo
Yn nodweddiadol, rhennir y sesiynau'n 7.0 Gofal Clinigol Uniongyrchol a 3.0 Gweithgarwch Proffesiynol Ategol	Yn nodweddiadol, rhennir y sesiynau'n 7.5 Gofal Clinigol Uniongyrchol a 2.5 Gweithgarwch Proffesiynol Ategol	Yn nodweddiadol, rhennir y sesiynau'n 7.5 Gofal Clinigol Uniongyrchol a 2.5 Gweithgarwch Proffesiynol Ategol	Yn nodweddiadol, rhennir y sesiynau'n 7.5 Gofal Clinigol Uniongyrchol a 2.5 Gweithgarwch Proffesiynol Ategol
Yn seiliedig ar wythnos waith 37.5 awr	Yn seiliedig ar wythnos waith 40 awr	Yn seiliedig ar wythnos waith 40 awr	Yn seiliedig ar wythnos waith 40 awr
Oriau craidd heb eu diffinio	Oriau craidd 7am tan 7pm	Oriau craidd 8am tan 8pm	Oriau craidd heb eu diffinio
Cyflwynwyd Cynllun Dyfarniad Ymrwymiad a Dyfarniad Rhagoriaeth Glinigol ar ben y cyflog sylfaenol	Cyflwynwyd Cynllun Dyfarniad Rhagoriaeth Glinigol ar ben y cyflog sylfaenol. Mae'r cynllun yn cynnwys gwobrwyon lleol a gytunwyd arnyn nhw â'r cyflogwr, sydd yn darparu cynllun tebyg i'r Dyfarniad Ymrwymiad	Cadwyd at y Dyfarniadau Teilyngdod sydd yn cael eu hadolygu pob pum mlynedd	Cyflwynwyd Cynllun Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol yn 2005 ac mae'n weddol debyg i gynllun Lloegr
Nid oes gofyn i feddygon ymgynghorol sy'n gwneud gwaith preifat ac sy'n dal i fod yn gymwys i ddringo'r ysgol gyflog fod yn barod i wneud gwaith ychwanegol wedi'i raglennu i'r GIG	Rhaid i feddygon ymgynghorol sy'n gwneud gwaith preifat ac sy'n dal i fod yn gymwys i ddringo'r ysgol gyflog fod yn barod i wneud gwaith ychwanegol wedi'i raglennu i'r GIG	Rhaid i feddygon ymgynghorol sy'n gwneud gwaith preifat ac sy'n dal i fod yn gymwys i ddringo'r ysgol gyflog fod yn barod i wneud gwaith ychwanegol wedi'i raglennu i'r GIG	Rhaid i feddygon ymgynghorol sy'n gwneud gwaith preifat ac sy'n dal i fod yn gymwys i ddringo'r ysgol gyflog fod yn barod i wneud gwaith ychwanegol wedi'i raglennu i'r GIG

Ffynhonnell: Canllawiau Contract Meddygon Ymgynghorol GIG Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru



Roedd y contract diwygiedig yng Nghymru yn nodi nifer o fanteision penodol i feddygon ymgynghorol ac i'r GIG yn fwy cyffredinol

- 1.8** Nodau'r contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol oedd gwella'r amgylchedd gwaith i feddygon ymgynghorol, gwella recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol a hwyluso'r ffordd i reolwyr ym maes iechyd a meddygon ymgynghorol gydweithio er mwyn darparu gwell gwasanaeth i gleifion yng Nghymru. Mae hyn yn rhan annatod o foderneiddio GIG Cymru.
- 1.9** Cefndir hyn oedd bod y gwasanaeth, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Feddygol Prydain oll yn pryderu nad oedd meddygon ymgynghorol yn gallu gwneud y cyfraniad angenrheidiol at ofynion darparu gwasanaethau yng Nghymru a bod y sefyllfa honno'n mynd yn fwyfwy cyffredin. Roedd pryderon ynglŷn â phwysau cynyddol ar y gwasanaeth, anawsterau recriwtio, diffyg sylw i'r hen gynlluniau swyddi, a diffyg ymgysylltu effeithiol strwythuredig rhwng clinigwyr unigol a'u cyflogwyr ynglŷn â'u hymrwymadau gwaith, a bod y rhain i gyd, fe deimlid, yn ffactorau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy yn y contract diwygiedig.
- 1.10** Disgwylid y byddai hyn yn mynd i'r afael â'r diwylliant ymysg meddygon ymgynghorol o weithio oriau hir, yn gwella recriwtio meddygon ymgynghorol yng Nghymru, ac y byddai meddygon ymgynghorol yn ymwneud yn fwy effeithiol ag ymdrechion i foderneiddio gwasanaethau a gwella'r gofal a roddir i gleifion.
- 1.11** Cynlluniwyd y diwygiadau i'r contract meddygon ymgynghorol yng Nghymru er mwyn creu:
- a** wythnos waith amser llawn sylfaenol o 37.5 awr, yr un fath ag oriau staff eraill y GIG;
 - b** gwell diffiniad o'r wythnos waith;
 - c** eglurder sefydliadol drwy gyfrwng proses cynllunio swyddi ddiwygiedig;
 - ch** graddfa gyflog newydd gyda thaliadau a chynyddrannau ychwanegol;
 - d** gwell trefniadau ar gyfer tâl am fod ar alwad;
 - dd** trefniadau newydd ar gyfer y dyfarniad ymrwymiad a'r dyfarniad rhagoriaeth glinigol;
 - e** ymrwymiad i wella trefniadau gweithio hyblyg;
 - f** cydymrwymiad i wella ansawdd y gwasanaeth er budd cleifion.
- 1.12** Byddai cyflwyno trefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio swyddi'n ategu'r broses o wireddu'r manteision hyn. Bwriad y broses cynllunio swyddi orfodol hon oedd sicrhau bod y meddyg ymgynghorol unigol a'r cyflogwr yn cytuno ar ganlyniad, cynnwys ac amserlen y gweithgareddau sy'n ffurfio'r wythnos waith.

Mae'r contract diwygiedig yn diffinio wythnos waith meddyg ymgynghorol yn gliriach

- 1.13** Yng Nghymru, rhennir wythnos waith meddyg ymgynghorol amser llawn yn 10 sesiwn a phob un o'r rheini'n cael eu hamserlennu ar sail gwerth tair neu bedair awr yr un. Mae'r contract yn dweud y dylai wythnos waith 'nodweddiadol' gynnwys saith sesiwn gofal clinigol uniongyrchol a thair sesiwn gweithgareddau proffesiynol ategol. Mae'r contract yn dweud hefyd y bydd angen i'r cyflogwr a'r meddyg ymgynghorol gytuno ar unrhyw amrywiadau i'r rhaniad hwn yn ystod yr adolygiad cynllunio swydd.
- 1.14** Yn eu hanfod, mae'r sesiynau gofal clinigol uniongyrchol yn cynrychioli'r amser a dreulir yn darparu gwasanaethau. Mae'r sesiynau gweithgareddau proffesiynol ategol yn cynnwys yr amser a dreulir ar waith sydd yr un mor bwysig, sef datblygu gwasanaethau a gwella ansawdd gwasanaethau a gofal clinigol, addysg a datblygu arbenigedd y meddyg ymgynghorol ei hun yn ogystal ag arbenigedd meddygon iau a'r tîm ehangach.
- 1.15** Gall y gwaith a wneir gan feddyg ymgynghorol amrywio a chydabuwyd bod meddygon ymgynghorol yn cyfrannu'n sylweddol at reoli a gwella gwasanaethau, yn ogystal ag at gyflawni rolau sydd o fudd i'r GIG yn ehangach. Byddai'r gwaith hwn naill ai'n cael ei gydnabod ar ffurf cyfrifoldebau ychwanegol neu ar ffurf dyletswyddau eraill.
- 1.16** Rhaid cynnwys unrhyw amser sy'n cydnabod cyfrifoldeb ychwanegol yn y cynllun swydd, p'un a delir amdano ar wahân ynteu p'un a yw'n rhan o brif contract y meddyg ymgynghorol ac yn disodli rhai o'r sesiynau gofal clinigol uniongyrchol. Mae hyn yn wahanol i gydnabod yr amser a dreulir ar

ddyletswyddau eraill. Er y gall yr amser hwn fod o fudd i'r GIG, gall effeithio ar ddarparu gwasanaethau'n lleol. Er mwyn datrys y gwrthdaro hwn, wrth gynnwys sesiynau dyletswyddau eraill mewn cynllun swydd, rhaid cytuno'n benodol ar hynny gyda'r cyflogwr. Mae **Arddangosyn 2** yn crynhoi rhai o'r gweithgareddau y gellid eu cynnwys yn y cynllun swydd terfynol o dan y gwahanol benawdau.

Er y gwnaethpwyd diwygiadau, mae'r strwythur cyflogau i feddygon ymgynghorol yn parhau i fod yn gymhleth

- 1.17** O dan y contract diwygiedig, mae cyfanswm cyflog meddyg ymgynghorol yn cynnwys yr elfennau hyn:
- a** cyflog sylfaenol, ar sail nifer y sesiynau y cytunwyd arnynt yn y cynllun swydd yn ogystal ag unrhyw sesiynau ychwanegol y cytunwyd arnynt drwy negodi;
 - b** Dyfarniadau Ymrwymiad;
 - c** Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol sy'n disodli'r system flaenorol pan ddyfarnwyd taliadau dewisol ar sail pwyntiau/teilyngdod;
 - ch** taliadau atodol am fod ar alwad;
 - d** ffioedd a lwfansau eraill.
- 1.18** Mae **Arddangosyn 3** yn cynnig rhagor o wybodaeth am bob un o'r elfennau a rhoddir manylion am y taliadau sy'n gysylltiedig â hwy yn **Atodiad 2**.



Arddangosyn 2 - Dyletswyddau a chyfrifoldebau nodweddiadol a gynhwysir yn y sesiynau

Gofal Clinigol Uniongyrchol	Gweithgareddau Proffesiynol Ategol	Cyfrifoldebau Ychwanegol	Dyletswyddau a gweithgareddau eraill yn y GIG ehangach
<ul style="list-style-type: none"> Dyletswyddau brys (gan gynnwys gwaith brys yn ystod cyfnod ar alwad neu waith sy'n codi yn sgil hynny) Sesiynau llawdriniaeth gan gynnwys gofal cyn ac ar ôl y llawdriniaeth Rowndiau ward Clinigau cleifion allanol Gwaith diagnostig clinigol Mathau eraill o driniaeth i gleifion Dyletswyddau iechyd cyhoeddus Cyfarfodydd amlddisgyblaeth ynglŷn â gofal uniongyrchol i gleifion Gweinyddu sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gofalu am gleifion (e.e. atgyfeiriadau, nodiadau) 	<ul style="list-style-type: none"> Hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus Addysgu Archwilio Cynllunio swydd Arfarnu Ymchwilio Rheoli clinigol Gweithgareddau llywodraethu clinigol lleol 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddwyr meddygol, cyfarwyddwyr clinigol a chlinigwyr arweiniol Gwarcheidwaid Caldicott Arweinwyr archwiliadau clinigol Arweinwyr llywodraethu clinigol Deoniaid is-raddedigion ac ôl-raddedigion, tiwtoriaid clinigol, cynghorydd addysg rhanbarthol Ymrwymadau addysgu ac ymchwil rheolaidd y tu hwnt i'r norm, na thelir amdanynt drwy ddulliau eraill Rolau cynrychiolaeth broffesiynol 	<ul style="list-style-type: none"> Dyletswyddau undebau llafur Gweithredu fel aelod allanol ar bwyllgor penodi cynghorol Gwaith rhesymol i'r colegau brenhinol er lles y GIG ehangach Gwaith penodedig i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol Cynnal archwiliadau i gyrff rheoleiddio iechyd

Ffynhonnell: Contract Cenedlaethol Diwygiedig i Feddygon Ymgynghorol yng Nghymru

Arddangosyn 3 - Elfennau cyflog meddygon ymgynghorol y GIG

Elfen o'r cyflog	Rhagor o wybodaeth
Cyflog sylfaenol	Yn y contract diwygiedig, cyflwynwyd graddfa gyflog newydd sy'n rhoi pob meddyg ymgynghorol ar yr un raddfa gyflog a honno'n codi fesul cam ar ysgol chwe phwynt.
Dyfarniadau ymrwymiad	<p>Yn y contract diwygiedig, rhoddwyd y gorau i'r cynllun dewisol lle y dyfarnwyd pwyntiau a thaliadau teilyngdod. Yn lle'r rhain, cyflwynwyd Dyfarniadau Ymrwymiad a Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol.</p> <p>Mae Dyfarniadau Ymrwymiad ar gael i bob meddyg ymgynghorol fel rhan o'u hysgol gyflog reolaidd wrth iddynt gyrraedd brig eu graddfa bwyntiau. Telir y dyfarniad ar yr amod bod yr adolygiad o'r cynllun swydd yn foddhaol neu ar yr amod nad yw'r adolygiad hwnnw'n anfoddhaol.</p> <p>Bydd pob meddyg ymgynghorol yn gymwys i gael Dyfarniad Ymrwymiad ar ôl cwblhau tair blynedd o wasanaeth ar ôl cyrraedd Pwynt 6 ar Raddfa Gyflog y Meddygon Ymgynghorol, ac wedyn, bob tair blynedd ar ôl iddynt gael eu Dyfarniad Ymrwymiad blaenorol, nes iddynt gyflawni wyth lefel y Dyfarniad Ymrwymiad sydd ar gael o dan y cynllun.</p>
Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol	<p>Mae Cynllun Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol cenedlaethol ar waith ar gyfer Cymru a Lloegr. Y Pwyllgor Cynghori ar Ddyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol fydd yn dyfarnu'r rhain. Pennir amcanion, meini prawf a chymhwysedd ar gyfer y dyfarniadau'n genedlaethol. Bydd meddygon ymgynghorol sydd ag o leiaf flwyddyn o brofiad ar lefel ymgynghorol yn gymwys i gael dyfarniad Rhagoriaeth Glinigol.</p> <p>Mae i'r Dyfarniad Rhagoriaeth Glinigol bedair lefel (Platinwm, Aur, Arian ac Efydd) sy'n werth swm crynodol bob blwyddyn, h.y. ar ôl dyfarnu lefel gyntaf y Dyfarniad Rhagoriaeth Glinigol, bydd hyn yn disodli unrhyw Ddyfarniadau Ymrwymiad a gafodd y meddyg ymgynghorol cyn hynny a bydd unrhyw Ddyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol uwch yn disodli unrhyw Ddyfarniad Rhagoriaeth Glinigol y mae'r meddyg ymgynghorol yn ei gael eisoes.</p>
Taliadau atodol am fod ar alwad	Ymdrinnir â gwaith brys nad oes modd ei rag-weld drwy'r trefniadau ar alwad. Telir taliadau band dwysedd (bob blwyddyn) sy'n adlewyrchu'r 'ffactor tarfu' am fod meddyg ymgynghorol yn gorfod bod ar gael i weithio pan fydd ar alwad. Cynhwysir yr union waith a wneir ar gyfer ymrwymadau ar alwad rheolaidd mewn sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol yn y cynllun swydd.
Sesiynau ychwanegol sydd wedi'u cynllunio	Gall eu cyflogwr ofyn i feddygon ymgynghorol weithio sesiynau ychwanegol o bryd i'w gilydd ar ben y sesiynau sydd yn eu contract. Bydd y sesiynau ychwanegol hyn yn wirfoddol. Mae'n bosibl eu cyflawni yn ystod yr wythnos waith yn ystod amser sydd heb ei gontractio, o fewn cyfanswm blyneddol cyffredinol y cytunir arno. Bydd y tâl am waith o'r fath yn cael ei negodi'n lleol rhwng y cyflogwr a'r meddyg ymgynghorol.
Ffioedd a lwfansau eraill	Mae'n bosibl y bydd y cyflogwr yn gofyn i feddyg ymgynghorol wneud gwaith sy'n ymwneud â chynllun rhestr aros ar ben y sesiynau sydd yn y contract. Bydd y sesiynau ychwanegol hyn yn wirfoddol. Gellir gweithio sesiynau o'r fath yn ystod amser sydd heb ei gontractio. Telir am waith o'r fath ar y gyfradd a bennir yn y telerau a'r amodau gwaith pan fydd y gwaith hwnnw'n cael ei wneud yn eiddo'r ymddiriedolaeth.

Ffynhonnell: Contract Cenedlaethol Diwygiedig i Feddygon Ymgynghorol yng Nghymru



Rhan 2 - Mae swm sylweddol wedi'i wario ar weithredu'r contract

2.1 Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn cynnig gwybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r contract diwygiedig yng Nghymru. Ystyrir y tueddiadau yng nghyflogau meddygon ymgynghorol ynghyd â'r gwaith a wnaethpwyd i gyflwyno fframwaith o ddangosyddion canlyniadau ar eu cyfer.

I ddechrau, gwariwyd £35 miliwn ar gyflwyno'r contract newydd

2.2 Rhoddwyd y rhan fwyaf o'r contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol ar waith yng Nghymru ar unwaith pan ddaeth y contract i rym ar 1 Rhagfyr 2003, gan gynnwys graddfeydd cyflog a thelerau ac amodau gwaith newydd. Un agwedd bwysig ar weithredu'r contract diwygiedig oedd talu am y sesiynau hynny y byddai meddygon ymgynghorol yn eu gweithio ond nad oeddent yn cael eu cydnabod gynt, sef y rheini sy'n ychwanegol at y sesiynau a oedd yn ffurfio'r wythnos 10 sesiwn safonol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi neilltuo arian ar gyfer hyn ond roedd wedi dweud wrth gyrrff y GIG na fyddai'r arian yn cael ei ryddhau nes iddi gael sicrwydd bod y prosesau cynllunio swyddi a oedd yn diffinio'r sesiynau hynny'n ddigon cadarn.

2.3 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru ar y pryd ddarparu asesiad annibynnol o gadernid y trefniadau cynllunio swyddi ym mhob un o ymddiriedolaethau'r GIG bryd hynny. Cynhaliwyd archwiliadau ffurfiol o'r trefniadau cynllunio swyddi rhwng mis Rhagfyr 2004 a mis Mawrth 2005, ac wedyn, roedd Llywodraeth Cymru yn gallu cadarnhau'r penderfyniadau ariannu ar gyfer sesiynau

ychwanegol i ymddiriedolaethau unigol y GIG. Ni ryddhawyd arian i rai o'r ymddiriedolaethau nes bod y Llywodraeth yn sicr eu bod wedi mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn yr archwiliad allanol.

2.4 Neilltuwyd £18 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf i dalu am gyflwyno'r contract diwydiedig. Ar ôl y cylch cynllunio swyddi cyntaf a'r sicrwydd a ddarparwyd yn sgil adolygiad y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, darparwyd £17 miliwn ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i dalu am y sesiynau ychwanegol, gan ddod â chyfanswm cost gweithredu'r contract i £35 miliwn.

2.5 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth ymddiriedolaethau'r GIG ei bod yn disgwyl iddynt gymryd camau i leihau nifer y sesiynau ychwanegol a weithid gan feddygon ymgynghorol dros amser, drwy gymryd camau megis sicrhau eglurder ynglŷn â phatrymau gweithio meddygon ymgynghorol drwy gynllunio swyddi, aildafoli gwaith ar draws timau meddygon ymgynghorol, recriwtio meddygon ymgynghorol ychwanegol lle'r oedd angen a throsglwyddo gweithgareddau i grwpiau eraill o staff lle'r oedd hynny'n briodol.

2.6 Parhaodd Llywodraeth Cymru i ariannu taliadau am sesiynau ychwanegol yn ganolog tan 2009-10, ac wedyn, talwyd am y sesiynau ychwanegol gan gyrrff lleol y GIG drwy gyfrwng eu dyraniadau llinell sylfaen. Sicrhawyd lleihad yn nifer y sesiynau ychwanegol a weithid gan feddygon ymgynghorol o flwyddyn i flwyddyn rhwng 2005-06 a 2009-10, er i'r ffigur o 2,145 aros yn ddigynfnewid yn 2010 ([Arddangosyn 4](#)).

Arddangosyn 4 - Llywodraeth Cymru yn ariannu sesiynau ychwanegol gan feddygon ymgynghorol


Blwyddyn	Sesiynau ychwanegol a weithiwyd ledled Cymru
2006	2,901
2007	2,518
2008	2,268
2009	2,233
2010	2,145

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r bil cyflogau cyffredinol ar gyfer meddygon ymgynghorol a chyflogau cyfartalog meddygon ymgynghorol wedi cynyddu ers cyflwyno'r contract diwygiedig

2.7 Ers cyflwyno'r contract diwygiedig, mae'r bil cyflogau cyffredinol, sy'n cynnwys dyfarniadau cyflog i feddygon ymgynghorol, wedi cynyddu'n sylweddol, gan godi o £250 miliwn yn 2004 a chyrraedd brig o £338 miliwn yn 2009 gan ostwng eto i £331 miliwn yn 2010 (**Arddangosyn 5**). Dros yr un cyfnod, cynyddodd enillion meddygon ymgynghorol 29 y cant ar gyfartaledd.

Arddangosyn 5 - Cyfanswm bil cyflogau blynyddol meddygon ymgynghorol



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru



2.8 Mae'r cynnydd ym mil cyflogau cyffredinol meddygon ymgynghorol, i raddau, yn deillio'n syml o'r cynnydd yn nifer y meddygon ymgynghorol sy'n gweithio yn y GIG (gweler **Rhan 3** o'r adroddiad hwn). Fodd bynnag, mae ffactorau eraill wedi cyfrannu at hyn hefyd (**Arddangosyn 6**). O dan y trefniadau contract diwygiedig, mae dyfarniadau ymrwymiad wedi disodli pwyntiau dewisol ac mewn gwirionedd wedi defnyddio'r un pwrs a oedd ar gael ar gyfer y pwyntiau hynny gynt. At hynny, disodlwyd y Dyfarniadau Teilyngdod gan Ddyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol a gwrthbwywyd costau cynyddol y naill gan y gostyngiadau yn y llall.

Arddangosyn 6 - Ffactorau'n cyfrannu at newidiadau yng nghyflogau meddygon ymgynghorol

Elfen gyflog y meddyg ymgynghorol	Newidiadau er 2004
Cyflog sylfaenol	Yn ystod y chwe mlynedd hyd 2010, cynyddodd cyfanswm cyflogau meddygon ymgynghorol 29.1 y cant. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y meddygon ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn 30.6 y cant.
Taliadau am sesiynau ychwanegol	Yn 2010, cytunodd y byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd i dalu am 1,897 o sesiynau ychwanegol i feddygon ymgynghorol ar ben yr wythnos 10 sesiwn yn eu contract am waith ac ymrwymadau ychwanegol. Roedd y sesiynau hyn yn cyfateb i oddeutu £15.7 miliwn o gyfanswm y gyllideb gyflogau, yn seiliedig ar ganolbwynt cost sesiwn.
Dyfarniadau ymrwymiad	Yn 2010, roedd 1,136 o feddygon ymgynghorol wedi cael dyfarniad ymrwymiad, sy'n cyfateb i £9.7 miliwn o gyfanswm y bil cyflogau.
Dyfarniadau rhagoriaeth glinigol	Disodlwyd y Dyfarniadau Teilyngdod gan y dyfarniadau hyn. Yn 2004, Cyfanswm y bil cyflogau ar gyfer dyfarniadau rhagoriaeth glinigol oedd £1.7 miliwn. Erbyn 2010, roedd hyn wedi cynyddu i £9.0 miliwn wedi'i rannu rhwng 170 o feddygon ymgynghorol.
Dyfarniadau teilyngdod	Yn 2004, roedd 159 o feddygon ymgynghorol yn cael dyfarniad teilyngdod sy'n cyfateb i £7.4 miliwn o gyfanswm y bil cyflogau; erbyn 2010, oherwydd ymddeoliadau, roedd hyn wedi gostwng i 32 ac yn costio £1.8 miliwn. Nid yw'r dyfarniad hwn ar agor i newydd-ddyfodiaid.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Gwariwyd £1.9 miliwn ar ddatblygu prosiect Dangosyddion Canlyniadau ar gyfer Meddygon Ymgynghorol ond, yn y pen draw, ni chyflawnodd y prosiect yr hyn y dymunwyd iddo ei gyflawni

Roedd y prosiect Dangosyddion Canlyniadau ar gyfer Meddygon Ymgynghorol yn gynllun arloesol a allasai wella'r broses cynllunio ac arfarnu swyddi'n sylweddol

- 2.9** Ym mis Medi 2005, lansiodd y prosiect Dangosyddion Canlyniadau ar gyfer Meddygon Ymgynghorol. Cynllun oedd hwn a noddwyd ar y cyd rhwng prif weithredwyr ymddiriedolaethau'r GIG ar y pryd a Llywodraeth Cymru. Y nod oedd datblygu cyfres o ddangosyddion canlyniadau ar gyfer meddygon ymgynghorol unigol y gellid eu defnyddio'n sail ar gyfer trafodaethau cynllunio swyddi yn ogystal ag ar gyfer arfarniadau fel rhan o'r contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol yng Nghymru.
- 2.10** Ar y dechrau, roedd y prosiect yn cael ei weld yn fenter arloesol a chafwyd sylwadau cyffredinol gan glinigwyr a'r gwasanaeth yn dweud y byddent yn croesawu fframwaith i drafod canlyniadau a oedd yn gyfannol, yn seiliedig ar ganlyniadau yn hytrach nag ar fewnbynnau, yn canolbwyntio'n benodol ar arbenigeddau, ac yn gyson ledled Cymru.
- 2.11** Comisiynwyd CHKS, cwmni a oedd eisoes yn darparu gwasanaethau meincnodi ar gyfer GIG Cymru, i gynnal y prosiect Dangosyddion Canlyniadau a'r enw a roddwyd arno oedd Compass. Trefnwyd cytundeb pum mlynedd rhwng pob un o ymddiriedolaethau'r GIG a

CHKS, a noddwyd y gwaith gan Lywodraeth Cymru. Cyfanswm cost hynny oedd £1.9 miliwn dros gyfnod y cytundeb.

- 2.12** Lansiodd y prosiect ar ôl cwblhau'r ymarferion peilot llwyddiannus gan gyn ymddiriedolaethau'r GIG yng Ngogledd Orllewin Cymru ac ym Mro Morgannwg.

Oherwydd pryderon parhaus ynglŷn ag ansawdd y dangosyddion, rhoddwyd y gorau i'r prosiect yn 2009 heb iddo gyflawni'r amcanion a fwriadwyd

- 2.13** Anfonwyd y gyfres gyfan gyntaf o adroddiadau dangosyddion canlyniadau at feddygon ymgynghorol ym mis Gorffennaf 2006. Yn yr adborth a gafwyd ganddynt, tynnwyd sylw at nifer o bryderon ynglŷn â'r wybodaeth a oedd yn cael ei chynhyrchu. Roedd rhai o'r rheini'n ymwneud ag adroddiadau a oedd yn cynnwys gormod o ddangosyddion, neu ddangosyddion nad oeddent yn gyfoes neu nad oeddent yn darparu gwybodaeth a oedd o fudd i gynllunio swyddi neu i'w harfarnu.
- 2.14** Buasai'n afrealistig disgwyl i'r allbynnau fod yn berffaith ar y cychwyn cyntaf, a sefydlwyd rhaglen ymgysylltu. Rhoddodd hyn gyfle i bob meddyg ymgynghorol yng Nghymru gyfrannu at broses barhaus o ddatblygu dangosyddion cadarn ac ystyrlon yn eu maes arbenigol.
- 2.15** Er gwaethaf hyn, bu meddygon ymgynghorol yn ymwneud â'r broses i wahanol raddau, ar draws ymddiriedolaethau'r GIG ac o'u mewn. Mewn ambell sefydliad, cafwyd cryn dipyn o ymgysylltu yn ôl tystiolaeth y datganiadau ar-lein a gwblhawyd, a chafwyd ymateb gan 80 y cant. Fodd bynnag, mewn sefydliadau eraill, roedd y gyfradd ymateb hon wedi gostwng i lai nag 20 y cant erbyn 2008-09.



2.16 Roedd amrywiadau sylweddol hefyd o ran i ba raddau yr oedd pobl o wahanol feysydd arbenigol yn ymwneud â'r prosiect, ac roedd hyn yn adlewyrchu'r anawsterau parhaus o ran canfod dangosyddion ystyrllon mewn meysydd clinigol penodol megis anaestheteg, iechyd meddwl, radioleg a phatholeg.

2.17 Awgrymodd sawl meddyg ymgynghorol a gafodd gyfweiliad yn ystod y gwaith archwilio lleol eu bod wedi colli ffydd yn ansawdd y wybodaeth a oedd yn cael ei chyflwyno iddynt, gan ddweud nad oedd yn adlewyrchu eu gwaith yn briodol. Clywyd hanesion hefyd am ddangosyddion canlyniadau'n cael eu rhoi i feddygon ymgynghorol ar gyfer gweithgareddau clinigol nad oeddent yn eu cyflawni. Mae'r ymatebion i arolwg a gynhaliwyd fel rhan o'n gwaith archwilio lleol yn datgelu llawer iawn - ar gyfartaledd, dywedodd 77 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r dangosyddion canlyniadau ond dim ond naw y cant a oedd yn teimlo'n ffyddiog o gwbl bod y wybodaeth hon yn gywir.

2.18 Ar ddiwedd 2009, ar ôl cael cais gan gyfarwyddwyr meddygol ymddiriedolaethau'r GIG ar y pryd, cytunodd Llywodraeth Cymru na fyddai'n ariannu estyniad dwy flynedd i'r fenter ac y byddai'r prosiect Cymru gyfan yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2009.

Cyfrannodd nifer o ffactorau at fethiant y prosiect i gyrraedd ei nodau

2.19 Mae'n destun pryder bod symiau mawr o arian wedi'u buddsoddi mewn prosiect na lwyddodd i wireddu ei amcanion cyffredinol maes o law, ac na roddodd werth am arian yn sgil hynny.

2.20 Un broblem sylfaenol oedd bod y data a ddefnyddid yn sail i'r dangosyddion wedi dod o'r Systemau Gweinyddu Cleifion. Ni fwriadwyd i'r data hyn gael eu defnyddio ar

gyfer canlyniadau clinigol ar lefel clinigwyr unigol, ac mewn sawl maes arbenigol, nid oedd CHKS yn gallu troi'r data hyn yn ddangosyddion y gallai clinigwyr eu gweld yn fuddiol neu'n ystyrllon.

2.21 Cynullwyd grŵp llywio i oruchwylio'r broses o weithredu'r prosiect. Er bod y grŵp wedi ystyried y problemau cynyddol ac wedi ceisio mynd i'r afael â hwy, daeth yn fwyfwy amlwg fod datrys y cyfyngiadau'n ymwneud â system wybodaeth GIG Cymru y tu hwnt i bŵer y grŵp llywio. Byddai'n rhesymol disgwyl iddo fod wedi ystyried dirwyn y prosiect i ben ymhell cyn hyn ar ôl iddi ddod yn amlwg faint o broblemau a oedd ynghlwm wrth y dangosyddion.

2.22 Mae'n syndod na wnaeth y grŵp llywio hynny, yn enwedig gan fod y prosiect wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, gellir esbonio hyn yn rhannol gan y ffaith y teimlwyd bod cynnydd da'n cael ei wneud o ran datblygu rhai o'r dangosyddion mewn rhai meysydd arbenigol, ac, o gael rhagor o amser, y byddai rhagor o wella wedi cael eu cyflawni. Yn wir, roedd cadeirydd y grŵp llywio wedi ysgrifennu at Gyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru ar y pryd, yn amlinellu'r rhesymau o blaid ymestyn y prosiect.

2.23 Maes o law, penderfyniad pragmataidd oedd y penderfyniad i beidio â pharhau â'r prosiect, o gofio y byddai angen cryn dipyn o amser ac adnoddau ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a oedd yn codi. I bob golwg, ni wnaeth y grŵp llywio na Llywodraeth Cymru ystyried p'un a ddylid bod wedi gofyn i'r cyflenwr am rywfaint o ad-daliad neu i barhau i gyflawni'r allbynnau a gomisiynwyd heb gyllid ychwanegol.

2.24 Y canlyniad yn y pen draw yw nad oes cyfres safonol, dderbyniol o ddulliau mesur canlyniadau wedi'i chynhyrchu ar gyfer pob arbenigedd i ategu'r broses cynllunio swyddi. Un canlyniad yw bod y prosiect wedi hybu mwy o ymwybyddiaeth o ganlyniadau ac o gryfderau a chyfyngiadau'r systemau gwybodaeth presennol. Fodd bynnag, mae angen allbwn o'r fath o hyd, ac mae'n bwysig nad yw'r hyn a ddysgwyd yn sgil prosiect Compass yn cael ei golli. Yn hytrach, dylid defnyddio hyn fel sail i waith newydd i gynhyrchu'r wybodaeth bwysig hon.



Rhan 3 - Er y gwnaethpwyd rhai newidiadau nodedig, ni wireddwyd yr holl fanteision a fwriadwyd yn sgil y contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol

3.1 Fel y dangoswyd yn **Rhan 1** o'r adroddiad hwn, cyflwynwyd y contract diwygiedig gyda'r bwriad o sicrhau nifer o fanteision penodol, yn bennaf:

- a** gwella amgylchedd gwaith meddygon ymgynghorol, yn enwedig drwy ddiffinio'r wythnos waith yn gliriach, a mynd i'r afael â'r diwylliant o weithio oriau hir;
- b** gwella recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol;
- c** byddai meddygon ymgynghorol yn ymgysylltu'n well â rheolwyr y gwasanaeth iechyd o ran ymdrechion i foderneiddio gwasanaethau iechyd a gwella'r gofal a gaiff cleifion

3.2 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran sicrhau'r manteision hyn.

Mae'r wythnos waith yn fyrrach yn gyffredinol ond mae rhai meddygon ymgynghorol yn dal i weithio oriau hir

Ar gyfartaledd, mae wythnos waith meddyg ymgynghorol fymryn dros bedair awr yn fyrrach ers dechrau'r contract

3.3 Yn 2004, pan ddadansoddwyd cynlluniau swyddi gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, gwelwyd bod meddygon ymgynghorol yn gweithio wythnos waith 46 awr ar gyfartaledd a honno'n cynnwys 9.3 o sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol a 2.2 o sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol. Erbyn 2010, roedd yr wythnos waith wedi'i chwtogi i wythnos 42 awr ar gyfartaledd a honno'n cynnwys 8.3 o sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol a 2.6 o sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol. Roedd cyfanswm y sesiynau wythnosol ar gyfartaledd wedi lleihau o 12.4 i 11.2 (**Arddangosyn 7**).

Arddangosyn 7 - Newidiadau ym mhatrymau gwaith wythnosol meddygon ymgynghorol rhwng 2004 a 2010

Blwyddyn	Sesiynau wythnosol ar gyfartaledd				Cyfanswm Sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol	Cyfanswm Sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol
	Gofal Clinigol Uniongyrchol	Gweithgareddau Proffesiynol Ategol	Ychwanegol ac eraill	Cyfanswm		
2004	9.30	2.20	2.20	12.40	15,223	3,601
2010	8.34	2.60	2.70	11.21	18,383	5,731
Gwahaniaeth	-0.96	0.40	0.50	-1.19	3,160	2,129

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Contract Meddygon Ymgynghorol Llywodraeth Cymru

3.4 Mae byrhau'r wythnos waith fel hyn wedi digwydd yn bennaf oherwydd bod meddygon ymgynghorol yn gwneud llai o waith ar ffurf gweithgarwch Gofal Clinigol Uniongyrchol, a hynny gan mwyaf am fod y gwaith wedi cael ei ailddosbarthu o fewn y tîm clinigol a'r ffaith bod rhagor o feddygon ymgynghorol wedi'u cyflogi. Yn gyffredinol, fodd bynnag, bu cynnydd o 3,160 yr wythnos yng ngyfanswm y sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol sydd ar gael i'r GIG. Yn yr un modd, bu cynnydd o 2,129 yr wythnos yn nifer y sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol.

3.5 Yng Nghymru, bwriad gwreiddiol y contract diwygiedig oedd bod pob meddyg ymgynghorol yn gweithio wythnos waith 37.5 awr. Cafodd hyn ei lacio, ac mae disgwyl na ddylai meddygon ymgynghorol weithio mwy na 12 sesiwn. Ar hyn o bryd, dim ond traean o feddygon ymgynghorol Cymru sydd â contract 10 sesiwn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod llawer o feddygon ymgynghorol yn barod i weithio sesiynau ychwanegol i gynyddu eu gweithgarwch, i ysgwyddo cyfrifoldebau rheoli neu i helpu i ddatblygu eu hymarfer clinigol hwy eu hunain. Mae'r trefniant hyblyg hwn o fudd uniongyrchol i'r GIG ac i'r meddyg ymgynghorol unigol.

Mae rhai meddygon ymgynghorol yn dal i weithio oriau rhy hir

3.6 Er y gall gweithio sesiynau ychwanegol fod o fudd i feddygon ymgynghorol ac i'r GIG, derbynir yn gyffredinol na ddylent weithio mwy na 12 o sesiynau bob wythnos, a hynny er mwyn osgoi llwythi gwaith rhy drwm.

3.7 Wrth ddadansoddi'n fanwl adroddiadau cynllunio swyddi yn ystod ein gwaith archwilio lleol, gwelwyd bod tuag un o bob chwech o feddygon ymgynghorol yn gweithio 12.5 sesiwn (46.5 awr) neu ragor gyda'r mwyafrif helaeth yn y grŵp hwn yn gweithio mwy o

oriau na therfyn 48 awr y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. Mae cyfran y meddygon ymgynghorol sy'n gweithio mwy na 12 sesiwn yr wythnos yn amrywio'n sylweddol ar draws cyrff y GIG yng Nghymru (**Arddangosyn 8**).

3.8 Nid dim ond meddygon ymgynghorol amser llawn sy'n gweithio oriau rhy hir. Yn ystod yr archwiliad gwelwyd bod 23 o feddygon ymgynghorol a oedd ar contractau rhan-amser yn gweithio 10 sesiwn neu ragor, sy'n golygu mai swyddi amser llawn oedd y rhain mewn gwirionedd.

3.9 Yn ystod yr archwiliad, gwelwyd, o dan rai amgylchiadau, mai'r rheswm dros y sesiynau ychwanegol oedd bod y meddyg ymgynghorol yn ysgwyddo cyfrifoldebau rheoli ar ben ei ymrwymadau clinigol. O dan amgylchiadau eraill, roedd y meddyg ymgynghorol yn ymarfer ar ei ben ei hun a'i lwyth gwaith yn drwm. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oedd yr un o'r byrddau na'r ymddiriedolaethau iechyd wedi gwneud unrhyw waith manwl i ddeall pam yr oedd rhai meddygon ymgynghorol yn ysgwyddo llwyth gwaith rhy drwm, neu i weld a oedd angen y sesiynau hyn yn y lle cyntaf. Heb gynnal adolygiad o'r fath, efallai nad yw cyrff y GIG yn gweld y peryglon sydd ynghlwm wrth lwyth gwaith clinigol rhy drwm, neu eu bod yn colli cyfle i sicrhau gwell gwerth am arian drwy ofyn tybed a oes angen rhai o'r sesiynau ychwanegol hyn.

3.10 Dim ond Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oedd ag unrhyw drefniadau ffurfiol i adolygu cynlluniau swyddi a oedd yn mynd y tu hwnt i 12 sesiwn ac roedd y trefniant hwn yn gymharol newydd adeg yr archwiliad. Yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre, roedd adolygiadau cynlluniau swyddi'n cael eu blaenoriaethu gan ddechrau â'r meddygon ymgynghorol hynny a oedd yn gweithio'r nifer fwyaf o sesiynau.



Arddangosyn 8 - Meddygon ymgynghorol a oedd yn gweithio mwy na 12 sesiwn yn 2010

Bwrdd Iechyd/ ymddiriedolaeth y GIG	12.5- 12.9	13.0- 13.4	13.5- 13.9	14.0- 14.9	15.0- 15.9	16.0- 16.9	≥17.0	Cyfanswm	Canran
BIP Abertawe Bro Morgannwg	27	24	7	5	1	1	0	65	13.8%
BI Aneurin Bevan	12	24	1	3	10	0	0	50	14.5%
BIP Betsi Cadwaladr	15	42	14	12	1	0	0	84	20.1%
BIP Caerdydd a'r Fro	14	34	12	16	7	2	1	86	16.1%
BI Cwm Taf	7	2	5	2	0	0	0	16	7.2%
BI Hywel Dda	4	18	0	2	0	0	0	24	11.2%
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	0	1	0	0	0	0	0	1	1.3%
BIA Powys	0	1	0	0	0	0	0	1	25.0%
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	0	3	0	2	1	1	0	7	20.0%
Cymru:	79	149	39	42	20	4	1	334	14.4%

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Contract Meddygon Ymgynghorol Llywodraeth Cymru, 2009-10

3.11 Ledled Cymru, mae meddygon ymgynghorol yn darparu 334 o sesiynau ychwanegol ar ben y trothwy 12 sesiwn. Petai gofyn cyflawni'r sesiynau ychwanegol hyn drwy gyflogi meddygon ymgynghorol newydd yn seiliedig ar saith sesiwn Gofal Clinigol Uniongyrchol, byddai angen 47 o feddygon ymgynghorol ychwanegol. Mae hyn yn codi pryderon ynglŷn â chynaliadwyedd hirdymor y trefniant hwn a'i effaith ar ddarparu gwasanaethau ac ar ansawdd y gofal oni eir ati o ddifrif i reoli'r sefyllfa hon

Mae recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol wedi gwella ac mae nifer y swyddi gwag yn sylweddol lai

3.12 Gwelwyd cynnydd cyson o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y meddygon ymgynghorol sy'n gweithio yng Nghymru ers gweithredu'r contract diwygiedig, a lleihad cyfatebol yn nifer y swyddi gweigion.

3.13 Yn ôl y wybodaeth flynyddol am y gweithlu y bydd cyrff y GIG yn ei darparu i Lywodraeth Cymru, gwelir bod nifer y meddygon ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn yn y GIG wedi cynyddu 37 y cant rhwng 2004 a 2011 (*Arddangosyn 9*). Fodd bynnag, mae'r datganiadau hyn am y gweithlu'n tanamcangyfrif union niferoedd y meddygon ymgynghorol sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru oherwydd dim ond y rhai sydd â chontract parhaol a gynhwysir. Mae hyn yn golygu nad yw meddygon ymgynghorol sydd ar gontract tymor penodedig, meddygon locwm neu feddygon ar gontractau anrhydeddus yn cael eu cynnwys. Hyd 2010, roedd Llywodraeth Cymru yn cadw cronfa ddata ar wahân yn cofnodi cynllun swydd pob meddyg ymgynghorol yng Nghymru. Yn 2010, dangosodd hyn fod 2,316 o feddygon ymgynghorol yn gweithio yng Nghymru, o'u cymharu â'r 2,179 o swyddi a gofnodwyd yn y datganiad gweithlu blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno.

3.14 Ochr yn ochr â'r cynnydd yn nifer y meddygon ymgynghorol sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru ers gweithredu'r contract diwygiedig, gwelwyd lleihad yn nifer y swyddi gwag i feddygon ymgynghorol. Ar gyfartaledd ledled Cymru, mae canran y swyddi gwag i feddygon ymgynghorol wedi gostwng o 8.4 y cant yn


2004 i 0.4 y cant yn 2010 er bod swyddi gwag i feddygon ymgynghorol hirdymor wedi cynyddu i 2.1 y cant erbyn mis Mawrth 2011 (*Arddangosyn 10*).

3.15 Cyn diwygio'r contract, roedd Cymru yn ei chael yn anodd iawn recriwtio meddygon ymgynghorol. Roedd nifer y swyddi gwag hirdymor ar eu huchaf ar 31 Mawrth 2002, sef 170. Yn gyffredinol, adeg ein harchwiliad, ni ddywedodd yr un o'r byrddau iechyd na'r ymddiriedolaethau eu bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio meddygon ymgynghorol i swyddi gweigion neu i swyddi newydd, ac eithrio mewn rhai meysydd arbenigol lle'r oedd recriwtio'n anos oherwydd bod prinder cenedlaethol, er enghraifft ym maes meddygaeth frys, iechyd meddwl a phediatreg.

3.16 Drwyddi draw, mae recriwtio a chadw meddygon ymgynghorol wedi gwella yng Nghymru ac, er ei bod yn anodd mesur dylanwad uniongyrchol y contract i feddygon ymgynghorol yn y cyswllt hwn, mae'r gwelliant amlwg o ran recriwtio a chadw ers ei gyflwyno'n awgrymu'n gryf i'r contract fod yn ffactor sydd wedi cyfrannu'n sylweddol at hyn.



Arddangosyn 9 - Cynnydd yn nifer y meddygon ymgynghorol (cyfwerth ag amser llawn)



Noder

Defnyddir llinell doredig gan fod y data ar gyfer 2006 ar goll

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru

Arddangosyn 10 - Cyfanswm nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn i feddygon ymgynghorol a oedd yn wag am dri mis neu ragor

Blwyddyn ar 30 Medi	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011
Cyfanswm nifer y swyddi gwag i feddygon ymgynghorol	145	112	61.3	57	29.8	25.0	11	45.1
% y swyddi a oedd yn wag	8.4	6.2	3.2	2.8	1.3	1.0	0.4	2.1

Noder

Data ar gyfer 31 Mawrth yw'r data ar gyfer 2011 oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i gasglu'r data hyn.

Ffynhonnell: StatsCymru Llywodraeth Cymru

Nid yw'r contract diwygiedig wedi bod yn sbardun sylweddol o ran moderneiddio'r gwasanaeth a chreu gwell perthynas waith rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr y GIG

- 3.17** Un o brif amcanion cyflwyno'r contract diwygiedig oedd hwyluso gwell ymgysylltu rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr y GIG o ran moderneiddio a gwella gwasanaethau'r GIG. Fodd bynnag, mae ein gwaith archwilio lleol wedi awgrymu mai ychydig o lwyddiant yn unig a gafodd y contract diwygiedig a'r gweithgareddau cynllunio swyddi cysylltiedig o ran sicrhau'r manteision hyn.
- 3.18** Rhwng 2006 a 2009, cyflwynwyd adroddiadau blynyddol gan ymddiriedolaethau'r GIG i Lywodraeth Cymru am y cynnydd a'r canlyniadau wrth weithredu'r contract diwygiedig. Yn yr adroddiadau hyn, rhoddwyd

enghreifftiau o foderneiddio'r gwasanaeth a phriodoli hynny i drefniadau'r contract diwygiedig (*Arddangosyn 11*). Yn ystod y gwaith archwilio lleol hefyd, gwelwyd enghreifftiau o foderneiddio gwasanaethau ac, er ei bod yn anodd priodoli'r newid yn uniongyrchol i ddylanwad y contract newydd, dywedodd rheolwyr a chlinigwyr ei fod yn sicr wedi cyfrannu at hynny. Yn *Astudiaeth Achos 1* rhoddir enghraifft a welwyd yn ystod y gwaith archwilio lleol o ddylanwad ffyrdd gwahanol o weithio a moderneiddio gwasanaethau

- 3.19** Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw'r contract diwygiedig wedi bod yn sbardun sylweddol i foderneiddio'r gwasanaeth, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Roedd llai na hanner y meddygon ymgynghorol a lenwodd ein harolwg yn teimlo bod y contract diwygiedig a'r broses cynllunio swyddi wedi cynnig cyfleoedd i drafod moderneiddio'r gwasanaeth a gwella ymarfer clinigol, ac roedd llai byth yn teimlo'i bod wedi gwella'r gofal a roddir i gleifion neu wedi newid y ffordd yr oeddent yn gweithio er gwell (*Arddangosyn 12*).

Arddangosyn 11 - Nifer ymddiriedolaethau'r GIG a roddodd enghreifftiau penodol o foderneiddio yn eu hadroddiad

Datblygu	2006	2007	2008	2009
Rôl estynedig nyrsys	1	3	1	1
Rôl estynedig proffesiynau eraill	3	2	2	1
Meddygon ymgynghorol yn ymwneud â chynllunio ad-drefnu'r gwasanaeth	4	8	7	7
Cynyddu capasiti	1	7	5	6
Creu swyddi ychwanegol i feddygon ymgynghorol	1	4	2	3
Trefniadau gwell ar gyfer rheoli cleifion	4	7	8	7
Defnyddio llai ar drefniadau locwm	1		1	

Ffynhonnell: Adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru am y contract meddygon ymgynghorol



Astudiaeth Achos 1 - Cynllun swydd pum wythnos ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Mae'r cardiolegwyr mewn gofal eilaidd yn ysbytai cyffredinol dosbarth y bwrdd iechyd wedi dilyn proses strwythuredig ar gyfer cynnal eu cyfarfodydd adolygu cynlluniau swyddi yn y tair blynedd diwethaf. Cyn yr uno, penderfynodd cardiolegwyr Ysbyty Tywysoges Cymru pa wasanaethau yr oeddent am eu darparu a faint o sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol a oedd ar gael drwy'r tîm i gyd. Cytunwyd y byddent i gyd yn gweithio ar sail cynllun swydd pum wythnos a oedd yn golygu bod pob un o'r cardiolegwyr yn gweithio un wythnos ar rowndiau ward, un wythnos mewn clinigau, un wythnos yn gwneud gwaith angiograffeg ac ati. Mae amser wedi'i gynllunio hefyd iddynt ganolbwyntio ar eu harbenigeddau eu hunain. Manteision hyn yw bod dilyniant i'r gofal ar y wardiau drwy gynnal rowndiau ward yn ddyddiol sy'n golygu bod cleifion yn treulio cyfnodau byrrach yn yr ysbyty a'r meddygon ymgynghorol yn cael mwy o foddhad o'u swydd. Mae'r cynllun gwaith pum wythnos wedi'i gyflwyno mewn ysbytai eraill yn y bwrdd iechyd

Ffynhonnell: Cyfweiliad ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

3.20 Drwy'r gwaith archwilio lleol, gwelwyd amrywiadau o ran i ba raddau yr oedd clinigwyr a rheolwyr wedi cydweithio i ddarparu gwasanaethau gwell. Er bod digon o enghreifftiau o hyn yn digwydd drwy Gymru, roedd enghreifftiau hefyd o feddygon ymgynghorol yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â rheolwyr i ddatblygu gwasanaethau newydd neu ffyrdd newydd o weithio.

3.21 Un peth sy'n destun pryder yw mai dim ond 55 y cant o'r meddygon ymgynghorol a ymatebodd i'n harolwg a ddywedodd fod ganddynt berthynas waith adeiladol â rheolwyr ac mai llai nag un o bob pump o feddygon ymgynghorol a oedd yn credu bod y berthynas wedi gwella ers cyflwyno'r contract. Yn gyffredinol, drwy ein gwaith archwilio, gwelwyd bod y berthynas rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr yn amrywio'n fawr o fewn sefydliadau a rhyngddynt.

Arddangosyn 12 - Barn meddygon ymgynghorol ynglŷn ag i ba raddau y mae'r contract newydd wedi bod o gymorth i foderneiddio'r gwasanaeth

Datganiadau	Canran y meddygon ymgynghorol a atebodd yn gadarnhaol, neu a oedd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf
Mae'r broses adolygu cynlluniau swyddi wedi cynnig cyfle i drafod moderneiddio gwasanaethau a chyflwyno dulliau newydd o weithio	47%
Mae'r broses adolygu cynlluniau swyddi wedi ysgogi trafodaeth am y camau y gellid eu cymryd i wella ymarfer clinigol	46%
Mae'r gofal a roddir i gleifion wedi gwella yn sgil y contract i feddygon ymgynghorol a'r broses cynllunio swyddi	28%
Newidiodd y ffordd rwy'n gweithio er gwell yn sgil y contract i feddygon ymgynghorol a'r broses cynllunio swyddi	20%

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o feddygon ymgynghorol y GIG

Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi dull i asesu'r manteision a wireddwyd, nid oedd yn ddigon heriol

- 3.22** Cymru oedd yr unig ran o'r Deyrnas Unedig i geisio cael sylwebaeth annibynnol ar gadernid y cylch cynllunio swyddi cychwynnol yng nghyrrff y GIG a oedd yn rhan o weithredu'r contract diwygiedig. Yn sgil gwaith y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, cafodd Llywodraeth Cymru y sicrwydd angenrheidiol bod y ceisiadau am daliadau ar gyfer sesiynau ychwanegol wedi'u seilio ar brosesau cynllunio swyddi cadarn.
- 3.23** Ar ôl cwblhau gwaith y Comisiwn Archwilio yng Nghymru ym mis Mawrth 2005, cyflwynwyd gofyniad gan Lywodraeth Cymru i bob un o gyrff y GIG baratoi adroddiad blynyddol i ddangos y cynnydd o ran gweithredu'r contract diwygiedig.
- 3.24** Roedd y mecanwaith adrodd blynyddol yn rhan allweddol o ddull Llywodraeth Cymru o asesu a oedd manteision y contract diwygiedig yn cael eu gwireddu. Dechreuwyd cyflwyno'r adroddiadau blynyddol yn 2006 a pharhaodd y drefn hon tan 2009, er yn 2010, gofynnwyd i'r byrddau iechyd ddiweddarau cronfa ddata Llywodraeth Cymru o sesiynau meddygon ymgynghorol. Mae'r gronfa ddata hon yn crynhoi nifer y sesiynau sydd gan bob meddyg teulu yn ei gynllun swydd. Roedd canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru yn dweud ei bod yn ofynnol i uwch dîm gweithredol y corff iechyd drafod yr adroddiadau blynyddol, ac i'r prif weithredwr eu cymeradwyo a chyflwyno adroddiad i'r bwrdd cyn ei gyflwyno i Uned Moderneiddio Cyflogau Llywodraeth Cymru.
- 3.25** Yn yr adroddiadau hyn, darluniwyd sefyllfa a oedd yn gwella, gan ddangos bod cynllunio swyddi'n bwrw gwreiddiau fwyfwy yn sefydliadau'r GIG. Roedd yr adroddiadau blynyddol hyn ar y cyfan yn adroddiadau am ddatblygiadau o safbwynt y sefydliadau eu hunain ac fe dderbyniodd Llywodraeth Cymru y rhain fel yr oeddent ar y sail y dylai'r prif weithredwyr fod wedi'u cymeradwyo ac y dylai'r Pwyllgor Negodi Lleol a oedd yn cynrychioli corff y meddygon ymgynghorol fod wedi cytuno arnynt. Yn sgil ein gwaith archwilio lleol, canfuwyd nad dyma'r sefyllfa bob tro.
- 3.26** O fewn y trefniadau adrodd, defnyddiodd Llywodraeth Cymru y newidiadau i gynlluniau swyddi unigol ac a gofnodwyd yng nghronfa ddata Cymru o flwyddyn i flwyddyn fel procsi i asesu ansawdd y broses cynllunio swyddi'n lleol. Tybid bod newidiadau rheolaidd a sylweddol i nifer y sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol a Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yn arwydd o broses cynllunio swyddi ystyrion, a bod diffyg unrhyw newid yn awgrymu bod prosesau lleol yn llai effeithiol. Er bod y trefniadau procsi'n mesur newid, nid oeddent yn brawf o ansawdd y broses cynllunio swyddi nac o unrhyw ganlyniadau cysylltiedig. Mae ein gwaith archwilio lleol dilynol wedi dangos bod y disgrifiadau o'r cynnydd yn yr adroddiadau blynyddol ar brydiau'n rhy optimistaidd ac nad oeddent yn cofnodi'n llawn faterion pwysig megis pa mor aml yr oedd cynllunio swyddi'n digwydd nac ychwaith ansawdd y broses honno.



Nid yw'r GIG wedi datblygu unrhyw ddulliau mesur cynhyrchiant sy'n golygu bod modd mesur yn gywir y tueddiadau yng ngweithgarwch meddygon ymgynghorol

- 3.27** Nid oedd gweithredu'r contract diwygiedig yn gysylltiedig ag unrhyw fwrriad amlwg y byddai 'cynhyrchiant' meddygon ymgynghorol yn gwella yn sgil hynny. Fodd bynnag, mae angen ystyried hyn wrth edrych ar y manteision ehangach a allai neu a ddylai ddeillio o'r gwariant ychwanegol a fuddsoddwyd yn y trefniadau contract newydd.
- 3.28** Yn gyffredinol, mae'r contract newydd wedi arwain at gynlluniau swyddi sy'n dangos cynnydd o ran gweithgarwch clinigol, o'i fesur ar ffurf sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol, drwy Gymru gyfan. Fel y dangoswyd eisoes, gwelwyd cynnydd o 3,160 yr wythnos yn nifer y sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol rhwng 2004 a 2010. A thybio bod pob sesiwn yn

3.5 awr ar gyfartaledd, mae hynny'n cyfateb i 11,060 o oriau ychwanegol o weithgarwch clinigol yr wythnos o dan arweiniad meddyg ymgynghorol.

- 3.29** Fodd bynnag, mae hyn yn tybio bod cynnwys y cynlluniau swyddi'n adlewyrchu'n gywir yr hyn y mae meddygon ymgynghorol yn ei wneud mewn gwirionedd, a gwyddom o'n gwaith archwilio lleol nad dyma'r sefyllfa bob tro. Yng Nghymru, ychydig iawn o ddata sydd ar gael i fesur yn uniongyrchol y gwaith y bydd meddygon ymgynghorol yn ei wneud, ac felly, mae'n anodd cynnig tystiolaeth o effaith y trefniadau contract newydd ar weithgarwch.
- 3.30** Dau ddull procsi y gellir eu defnyddio i fesur gweithgarwch meddygon ymgynghorol yw Cyfnodau a Gwblhawyd gan Feddygon Ymgynghorol¹ a nifer y cleifion allanol newydd. Mae'r ddau fesur hyn wedi cynyddu rhwng 2004 a 2010 sy'n adlewyrchu'r cynnydd cyffredinol yn nifer y sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol a gofnodwyd yn y cynlluniau swyddi (**Arddangosyn 13**).


Arddangosyn 13 - Tueddiadau o ran Cyfnodau a Gwblhawyd gan Feddygon Ymgynghorol a nifer y cleifion allanol newydd

Dangosydd gweithgaredd	2004	2010	% newid
Cyfnodau a Gwblhawyd gan Feddygon Ymgynghorol	896,000	1,023,000	+12%
Nifer y cleifion allanol newydd	67,500	77,800	+14%

Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

¹ Cyfnod o ofal yn yr ysbty o dan feddyg ymgynghorol.

Arddangosyn 14 - Newid yn nifer y cyfnodau a gwblhawyd gan feddygon ymgynghorol ar gyfartaledd rhwng 2004 a 2011



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

3.31 Er bod y gweithgarwch wedi cynyddu yn gyffredinol, mae nifer y sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol y bydd meddyg ymgynghorol yn eu cyflawni bob wythnos wedi gostwng er 2004, ac mae nifer y cyfnodau a gwblhawyd wedi lleihau hefyd (**Arddangosyn 14**). Mae hyn i'w ddisgwyl o gofio beth yw amcanion datganedig y contract diwygiedig, sef sicrhau bod meddygon ymgynghorol yn gweithio llai o oriau a gwella recriwtio.

3.32 Mae'r dulliau o fesur gweithgarwch ar hyn o bryd yn rhy amrwd i fod yn sail briodol ar gyfer trafod y sefyllfa ac nid ydynt yn adlewyrchu cynhyrchiant. Er enghraifft, mae'r Cyfnodau a Gwblhawyd gan Feddygon Ymgynghorol yn adlewyrchu nifer y cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty i gael gofal, ond nid ydynt yn cynnwys yr holl weithgarwch megis ymyriadau anaestetig neu waith mewn meysydd diagnostig arbenigol. At hynny, pan fydd claf yn dod i'r ysbyty ar gyfer apwyntiad claf allanol newydd, ni fydd o reidrwydd yn gweld meddyg ymgynghorol bob tro.



- 3.33** Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi mesur blynyddol o gynhyrchiant yn GIG y Deyrnas Unedig sy'n crynhoi'r ffigurau ar gyfer Cymru a Lloegr gyda'i gilydd. Mae'r data hyn yn dangos gostyngiad o 0.2 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd yng nghynhyrchiant y GIG er 2000, a gostyngiad o 1.4 y cant ar gyfartaledd mewn ysbytai. Fodd bynnag, nid yw'r data hyn yn cael eu derbyn gan bawb, ac maent wedi cael eu beirniadu am beidio ag ystyried materion pwysig megis yr amser ychwanegol y bydd meddygon yn ei dreulio gyda chleifion ac i ba raddau y mae cyfraddau marwolaeth ac amserau aros wedi gostwng.
- 3.34** Felly, ychydig iawn o gonsensws sydd ynglŷn â dulliau ystyrlon o fesur cynhyrchiant, a chan nad oes dulliau derbyniol ar gael er mwyn mesur canlyniadau, mae'n anodd asesu'r gwerth am arian a sicrhawyd yn sgil y buddsoddi ychwanegol yn y contract diwygiedig i feddygon ymgynghorol
- 3.35** Yr hyn sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol yw y bydd angen sicrhau ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd y gwasanaethau presennol. A chofio bod cymaint o arian y GIG ynghlwm wrth gostau staff, mae angen defnyddio contractau'r gweithlu yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Ni fydd hyn yn digwydd yng nghyswllt y contract i feddygon ymgynghorol oni fydd y broses cynllunio swyddi yn bwrw gwreiddiau'n effeithiol yn sefydliadau'r GIG, ac oni chaiff hynny ei gysylltu'n briodol ag arfarniadau meddygon ymgynghorol. Ystyrir y cynnydd yn y maes hwn yn **Rhan 4** o'r adroddiad hwn.

Rhan 4 - Yn y rhan fwyaf o'r byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd, nid yw'r broses o weithredu'r contract diwygiedig wedi cael ei hategu gan drefniadau cynllunio swyddi effeithiol

4.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried i ba raddau y mae prosesau cynllunio swyddi effeithiol yn ategu'r broses o weithredu'r contract diwygiedig yng Nghymru. Ystyrir prif amcanion cynllunio swyddi, a chyflwynir y canfyddiadau ynglŷn â:

- a** sut y mae canllawiau a hyfforddiant yn cael eu defnyddio i ategu prosesau cynllunio swyddi effeithiol;
- b** beth yw'r trefniadau ar gyfer cynllunio swyddi;
- c** pa allbynnau sy'n deillio o drafodaethau cynllunio swyddi;
- ch** sut mae cynllunio swyddi'n cael ei gysylltu ag arfarniadau meddygon ymgynghorol.

Roedd gweithredu'r contract diwygiedig yn llwyddiannus yn dibynnu ar drefniadau mwy trwyadl ar gyfer cynllunio swyddi

4.2 Cyflwynwyd trefniadau cynllunio swyddi ar gyfer meddygon ymgynghorol gyntaf yn 1991 ac nid oeddent fawr mwy nag amserlen o ymrwmiadau ac yn aml iawn, nid oeddent yn adlewyrchu gwir batrymau a chyfrifoldebau'r gwaith. Cydnabuwyd, er mwyn gweithredu'r contract diwygiedig fel y'i bwriadwyd yng Nghymru, y byddai angen ei ategu â threfniadau cynllunio swyddi mwy trwyadl a fyddai'n orfodol i bob meddyg ymgynghorol.

4.3 Felly, sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio swyddi a oedd wrth wraidd llawer o'r canllawiau a gyhoeddwyd i ategu'r broses o weithredu'r contract diwygiedig yng Nghymru. Crynhoir prif nodau ac amcanion y drefn ddiwygiedig ar gyfer cynllunio swyddi yng Nghymru yn [Arddangosyn 15](#).

4.4 Dechreuodd y broses cynllunio swyddi newydd o ddirif yng nghyrrff y GIG yng Nghymru rhwng hydref 2004 a dechrau 2005. Roedd hyn ar ôl cyhoeddi canllawiau manwl am gynllunio swyddi a ddatblygwyd ar y cyd gan Gymdeithas Feddygol Prydain, Llywodraeth Cymru a'r gwasanaeth, a rhaglen hyfforddi ar raddfa eang ym mhob un o sefydliadau'r GIG, gyda chymorth Uned Moderneiddio Taliadau Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd tîm gweithredu lleol gan neilltuo rheolwr prosiect penodol iddo gan bob un o gyrff y GIG i oruchwyllo cyflwyno'r prosesau cynllunio swyddi newydd. Roedd pwysigrwydd cynllunio swyddi yng nghyd-destun sicrhau taliadau ar gyfer sesiynau meddygon ymgynghorol ychwanegol yn golygu bod ffocws sefydliadol cryf ar gynllunio swyddi o fewn cyrff y GIG pan weithredwyd y contract diwygiedig i ddechrau.



Arddangosyn 15 - Nodau ac amcanion cynllunio swyddi

Diffiniad	Dylai cynllun swydd meddyg ymgynghorol fod yn gytundeb rhagolygol sy'n nodi dyletswyddau meddyg teulu, ei gyfrifoldebau a'r canlyniadau disgwylidig yn y flwyddyn sydd i ddod. Gan amlaf, bydd yn adeiladu ar sail ymrwymadau presennol meddyg ymgynghorol i'r GIG.
Nodau cyffredinol	<p>Dylid seilio cynllun swydd effeithiol ar ddull partneriaeth sy'n galluogi meddygon ymgynghorol a chyflogwyr i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • flaenoriaethu gwaith yn well ac ysgafnhau llwyth gwaith meddygon ymgynghorol os yw'n rhy drwm; • cytuno ar sut y gall meddyg ymgynghorol neu dîm o feddygon ymgynghorol gefnogi yn y ffordd fwyaf effeithiol amcanion ehangach y gwasanaeth a diwallu anghenion cleifion; • cytuno sut y gall cyflogwr yn y GIG gefnogi meddyg ymgynghorol orau wrth iddo gyflawni'r cyfrifoldebau hyn; • rhoi tystiolaeth i'r meddyg ymgynghorol ar gyfer arfarnu ac ailddilysu; • cydymffurfio â'r rheoliadau oriau gwaith
Cynnwys cynlluniau swyddi	<p>Dylai cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • restru'r canlyniadau personol disgwylidig y cytunwyd arnynt a'u perthynas ag amcanion ehangach y sefydliad sy'n ei gyflogi ar gyfer y gwasanaeth; • dweud sut y bydd y cyflogwr yn cefnogi meddygon ymgynghorol wrth iddynt gyflawni'r ymrwymadau y cytunwyd arnynt e.e. drwy ddarparu cyfleusterau, hyfforddiant, cymorth i ddatblygu a mathau eraill o gymorth; • cynnwys amserlen waith sy'n cwmpasu'r holl waith proffesiynol, gan gynnwys addysgu, ymchwil, cyfrifoldebau rheoli neu gyfrifoldebau gwasanaethu eraill a gweithgareddau llywodraethu clinigol, ac sy'n ystyried trafodaethau ynglŷn ag unrhyw ymrwymadau y tu allan i'r GIG a allai effeithio ar hyn; • pennu trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y lleoliad(au) lle y bydd meddygon ymgynghorol yn cyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan gynnwys nodi gwaith y gellir ei wneud drwy ddulliau hyblyg; • nodi trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni gwaith Categori 2 (e.e. gwaith i adrannau'r llywodraeth ac i gyrff eraill y GIG) a gwaith tebyg arall, wedi'i seilio ar yr egwyddorion sylfaenol na ddylai gwaith o'r fath darfu ar ddyletswyddau'r GIG ac na ddylai fod 'taliad dwbl'; • cael eu hadolygu bob blwyddyn; • cael eu gweithredu ar sail tîm, lle bydd hyn yn debygol o fod yn fwy effeithiol.

Ffynhonnell: Canllawiau ar Gynllunio Swyddi a ddarparwyd ar y cyd gan Gymdeithas Feddygol Prydain a Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2003

4.5 Gyda'i gilydd, roedd y trefniadau a ddisgrifir uchod, ynghyd â'r adolygiadau ffurfiol ar gynllunio swyddi gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, yn llwyfan ac yn fframwaith cadarn i gyrff y GIG ar gyfer datblygu trefniadau cynllunio swyddi cadarn a sicrhau eu bod yn bwrw gwreiddiau. Fodd bynnag, dangosodd ein gwaith archwilio lleol bod y ffocws ar gynllunio swyddi yng nghyrrff y GIG yng Nghymru wedi gwanhau'n raddol wrth i amser fynd heibio, a bod hynny'n golygu nad yw wedi bwrw gwreiddiau yn eu gweithgarwch rheoli arferol fel y bwriadwyd yn y contract diwygiedig. Mae hyn wedi gwaethygu yn sgil ad-drefnu'r GIG yng Nghymru gan darfu ar ddilyniant y broses. Mae hefyd wedi golygu bod cyrff newydd y GIG wedi etifeddu amrywiaeth o wahanol ddulliau o gynllunio swyddi gan y cyrff a'u rhagflaenodd.

Dylid adolygu cynlluniau swyddi llawer o feddygon ymgynghorol yn amlach

- 4.6** Yn y canllawiau a gyhoeddwyd i ategu'r broses o weithredu'r contract diwygiedig, fe'i gwnaethpwyd yn glir y dylai'r broses cynllunio swyddi ddigwydd bob blwyddyn. Dylai hyn roi cyfle i feddygon ymgynghorol a'u cyflogwyr sicrhau bod cynlluniau swyddi'n ystyried unrhyw newid ym mhatrymau darparu gwasanaethau, amcanion sefydliadol a phersonol sy'n esblygu, a datblygiadau ym maes technoleg ac ymarfer meddygol.
- 4.7** Mewn gwirionedd, yn yr archwiliadau lleol, canfuwyd nad yw cynlluniau swyddi llawer o feddygon ymgynghorol yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Ar gyfartaledd drwy Gymru, dim ond 61 y cant o feddygon ymgynghorol a ddywedodd fod eu cynllun swydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. O fewn y ffigur

hwn, roedd amrywiadau sylweddol rhwng cyrff unigol y GIG. Roedd cynllun swydd pob meddyg ymgynghorol bron yn cael ei adolygu bob blwyddyn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg o gymharu â chyfran lai o lawer ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ([Arddangosyn 16](#)).


- 4.8** Dangosodd yr ymatebion i'n harolwg hefyd fod nifer o feddygon ymgynghorol nad oedd eu cynllun swydd erioed wedi cael ei adolygu (yn amrywio o ddau y cant o feddygon ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i 14 y cant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro).

Mae i ba raddau y mae canllawiau lleol a hyfforddiant wedi bod o gymorth wrth gynllunio swyddi wedi amrywio'n sylweddol

- 4.9** Yn 2004, datblygwyd canllawiau lleol gan y rhan fwyaf o ymddiriedolaethau'r GIG i ategu'r rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill megis Cymdeithas Feddygol Prydain. Bu'r canllawiau lleol hyn o gymorth i sicrhau bod y trefniadau cynllunio swyddi'n cael eu rhoi ar waith yn gyson mewn sefydliadau unigol. Dros amser, fodd bynnag, mabwysiadwyd gwahanol ddulliau o fewn sefydliadau, a hynny'n aml ar sail anffurfiol. Wrth i ymddiriedolaethau'r GIG uno, ac yn sgil ad-drefnu'r GIG wedi hynny i greu byrddau iechyd newydd, etifeddodd cyrff y GIG yng Nghymru amrywiaeth o ddulliau cynllunio swyddi gan y cyrff a'u rhagflaenodd, gan greu anghysonderau mewn meysydd arbenigol (trafodir hyn ymhellach yn ddiweddarach yn yr adran hon).



Arddangosyn 16 - Cyfran y meddygon ymgynghorol a ddywedodd fod eu cynllun swydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn



Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o feddygon ymgynghorol y GIG

4.10 Mae amrywiaeth rhwng cyrff y GIG o ran i ba raddau y mae canllawiau lleol sydd wedi'u diweddarau wedi cael eu cyflwyno. Mewn rhai cyrff y GIG, gwnaethpwyd hyn yn fuan ar ôl ad-drefnu'r GIG yn 2009, ond mewn cyrff eraill, dim ond yn ddiweddar y mae hyn wedi digwydd ac roedd y gwaith yn dal i fynd rhagddo adeg yr archwiliadau lleol.

4.11 Gwelwyd yr un math o amrywiaeth o ran dulliau wrth ddarparu hyfforddiant i staff sy'n adolygu cynlluniau swyddi. Yn 2004, ochr yn ochr â gweithredu'r contract diwygiedig, trefnwyd hyfforddiant cynhwysfawr ar gynllunio swyddi yn ymddiriedolaethau'r GIG. Fodd bynnag, oherwydd mai'r un corff o staff a oedd yn cynnal yr adolygiadau swyddi bob blwyddyn yn y sefydliadau hyn, tybiwyd nad oedd angen parhau i ddarparu hyfforddiant

ac fe edwinodd. Yn sgil ad-drefnu'r GIG droeon, mae recriwtio meddygon ymgynghorol ychwanegol a chyfarwyddwyr clinigol newydd wedi golygu bod hyfforddiant wedi dod yn bwysig unwaith eto, yn enwedig er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r canllawiau lleol diwygiedig, lle mae'r rheini wedi'u cyflwyno.

4.12 Yn ystod yr archwiliadau lleol, gwelwyd bod amrywiaeth rhwng sefydliadau ac o'u mewn o ran i ba raddau y darparwyd hyfforddiant i feddygon ymgynghorol yn gyffredinol, ac i'r rhai sy'n gyfrifol am adolygu cynlluniau swyddi pobl eraill. Crynhoir y sefyllfa o ran cyhoeddi canllawiau lleol a darparu hyfforddiant ym mhob un o gyrff y GIG adeg cynnal yr archwiliad yn **Arddangosyn 17**.

Arddangosyn 17 - Datblygu canllawiau a hyfforddiant ar gyfer cynllunio swyddi

Sefydliad	Y sefyllfa yn 2011
BIP Abertawe Bro Morgannwg	Canllawiau newydd wedi'u datblygu ac ar waith ar gyfer 2010-11. I ategu'r canllawiau hyn, darparwyd hyfforddiant ar gyfer meddygon ymgynghorol a oedd yn newydd i'r broses.
BI Aneurin Bevan	Canllawiau wedi'u diweddarau ar waith a rhaglen hyfforddi i ategu hynny a oedd wedi'i hamserlennu i'w chyflwyno yn ystod 2012.
BIP Betsi Cadwaladr	Dim canllawiau ar waith ar gyfer y bwrdd iechyd drwyddo draw. Trefniadau cynllunio swyddi wedi'u seilio ar dri dull gwahanol a etifeddwyd gan yr ymddiriedolaethau a'i rhagflaenodd yn y GIG.
BIP Caerdydd a'r Fro	Canllawiau newydd wedi'u datblygu a'u cyhoeddi yn 2010 gyda hyfforddiant cynhwysfawr a chyfathrebu parhaus i ategu hynny.
BI Cwm Taf	Sefydlwyd system newydd yn 2009-10 gyda chanllawiau manwl i gyfarwyddwyr clinigol a rheolwyr ond ni chawsant eu dosbarthu i bob meddyg ymgynghorol. Darparwyd hyfforddiant i staff uwch.
BI Hywel Dda	Datblygwyd canllawiau newydd ac maent yn cael eu cyflwyno wedi'u hategu gan hyfforddiant i adolygwyr.
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	Dim canllawiau na hyfforddiant ffurfiol ar waith oherwydd bod yr un adolygwyr wedi bod yn cynnal yr adolygiadau blynyddol yn y rhan fwyaf o feysydd er 2004.
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	Cyflwynwyd gweithdrefnau cynllunio swyddi diwygiedig gan y cyfarwyddwr meddygol newydd yn 2010 ond ni ddarparwyd canllawiau na hyfforddiant i feddygon ymgynghorol.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru



Mae'r ffordd yr eir ati i gynnal cyfarfodydd adolygu cynlluniau swyddi'n gallu amrywio'n sylweddol o fewn cyrff iechyd a rhyngddynt

4.13 Er mwyn i gyfarfodydd adolygu cynlluniau swyddi fod yn effeithiol, mae angen ystyried nifer o ffactorau:

- a** mae angen neilltuo digon o amser paratoi cyn y cyfarfod cynllunio swydd;
- b** mae angen i feddygon ymgynghorol ac adolygwyr allu cael gafael ar wybodaeth briodol am weithgarwch a chanlyniadau er mwyn cynnal y drafodaeth;
- c** mae angen caniatáu digon o amser i gynnal y cyfarfod adolygu a dewis lleoliad priodol;
- ch** mae angen i'r bobl briodol fod yn rhan o'r cyfarfod, yn enwedig pan fydd gan feddygon ymgynghorol fwy nag un cyflogwr.

Er bod y trefniadau ymarferol ar gyfer cyfarfodydd cynllunio swyddi gan amlaf yn gadarn, roedd diffyg gwybodaeth reoli briodol yn aml yn llesteirio'r trafodaethau

4.14 Yn ystod yr archwiliadau lleol, gwelwyd bod y trefniadau ymarferol sy'n gysylltiedig â'u cyfarfodydd cynllunio swyddi yn briodol i'r rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol. O blith y meddygon ymgynghorol a ymatebodd i'n harolwg:

- a** dywedodd 88 y cant eu bod wedi cael digon o amser i baratoi ar gyfer y cyfarfod;

- b** teimlai 94 y cant fod y cyfarfod wedi'i gynnal mewn lleoliad priodol, heb ddim i darfu arno;
- c** teimlai 79 y cant fod yr amser a neilltuwyd ar gyfer y cyfarfod yn briodol;
- ch** dywedodd 85 y cant fod naws y cyfarfod yn adeiladol ac yn gadarnhaol.

4.15 Agwedd lai cadarnhaol a ganfuwyd yn ystod ein harchwiliadau oedd bod y broses cynllunio swydd ar gyfer llawer o feddygon ymgynghorol yn cael ei llesteirio oherwydd diffyg gwybodaeth i seilio'r drafodaeth yn y cyfarfodydd adolygu hyn arni. Mae methiant y prosiect Dangosyddion Canlyniadau Meddygon Ymgynghorol, fel y'i disgrifiwyd yn **Rhan 2**, wedi golygu nad oes data ystyrion am ganlyniadau ar gael o hyd ar gyfer y rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol. Yn fwy cyffredinol, ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd yn ystod ein hadolygiad fod gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ategu'r broses cynllunio swyddi. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn yn yr arolwg, a ganfu mai dim ond tua hanner (53 y cant) y meddygon ymgynghorol a oedd yn gallu manteisio ar wybodaeth o systemau gwybodaeth clinigol neu systemau gwybodaeth rheoli lleol wrth drafod eu cynllun swydd. Ychydig o feddygon ymgynghorol (tri y cant) a oedd yn dibynnu'n llwyr ar wybodaeth y bwrdd iechyd/ynddiriedolaeth. Roedd y rhan fwyaf yn mynd â'u gwybodaeth eu hunain (52 y cant) neu'n defnyddio gwybodaeth y bwrdd iechyd/ynddiriedolaeth a'u gwybodaeth hwy eu hunain (28 y cant). Roedd y gweddill (11 y cant) yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwahanol o wybodaeth ac nid oedd saith y cant yn mynd ag unrhyw gwybodaeth o gwbl i'r cyfarfod.

- 4.16** Fodd bynnag, canfu'r archwiliad fod rhai o gyrff y GIG wedi bod yn llwyddiannus o ran datblygu dulliau o gynhyrchu gwybodaeth a fyddai o gymorth wrth gynllunio swyddi (Blwch 1).

Blwch 1 - Enghreifftiau o ddefnyddio gwybodaeth wrth gynllunio swyddi

Roedd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg** wedi datblygu ei system data clinigol ei hun, Hypercube, i'w defnyddio wrth gynllunio swyddi. Mae Hypercube ar gael i feddygon ymgynghorol a chyfarwyddwyr clinigol ar borth gwybodaeth y bwrdd iechyd a chyfrannodd meddygon ymgynghorol at ei datblygiad. Mae'r system yn golygu bod modd monitro perfformiad o'i gymharu â dangosyddion ansawdd ac effeithlonwydd allweddol. Gall meddygon ymgynghorol ddefnyddio data Cyfeiriol CHKS hefyd sy'n golygu bod modd defnyddio meincnodau er mwyn cymharu'r ffigurau â ffigurau ysbysai tebyg eraill.

Yn **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**, defnyddir data canlyniadau am weithgarwch a chleifion wrth gynllunio swyddi yn y Ganolfan Ganser. Dywedodd y rhan fwyaf o'r meddygon ymgynghorol a gyfwelwyd y gallent gael gafael ar y data a'u bod yn gadarn. Er bod y data'n eithaf sylfaenol, roeddent i gyd yn cytuno eu bod yn fan cychwyn defnyddiol er mwyn trafod gweithgarwch.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 4.17** Yn gyffredinol, canfu'r archwiliad batrwm anghyson iawn o ran cynhyrchu gwybodaeth i'w defnyddio wrth gynllunio swyddi. Mae angen gwneud rhagor i hybu cysondeb o fewn gyrff y GIG a rhyngddynt. Heb fynediad i wybodaeth briodol, mae'n anochel y bydd trafodaethau cynllunio swyddi'n canolbwyntio mwy ar amserlennu gweithgareddau, yn hytrach nag ar y canlyniadau y mae angen i'r gweithgareddau hynny eu cyflawni.

Nid yw rheolwyr cyffredinol yn rhan o drafodaethau cynllunio swyddi bob tro

- 4.18** Gall amrywiaeth eang o staff fod yn rhan o drafodaethau cynllunio swyddi. Fan leiaf, bydd angen i'r meddyg ymgynghorol gyfarfod â rheolwr clinigol priodol (cyfarwyddwr meddygol, cyfarwyddwr clinigol neu glinigydd arweiniol arall). Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod cynllunio swyddi'n dod yn rhan hanfodol o gynllunio busnes a chynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau, mae angen mewnbwn priodol hefyd gan reolwyr y gyfarwyddiaeth neu reolwyr cyffredinol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried y goblygiadau o ran adnoddau sydd ynghlwm wrth weithgareddau meddygon ymgynghorol a'r cysylltiadau rhwng amcanion corfforaethol ac amcanion cyfarwyddiaethau.
- 4.19** At hynny, mae diffyg mewnbwn gan reolwyr cyffredinol i drafodaethau cynllunio swyddi i bob golwg yn groes i un o brif nodau'r contract diwygiedig yng Nghymru, sef meithrin trefniadau cydweithio agosach rhwng meddygon ymgynghorol a rheolwyr y GIG.
- 4.20** Yn ein gwaith archwilio, amlygwyd dulliau amrywiol o gynnwys rheolwyr cyffredinol yn ymwneud mewn cyfarfodydd cynllunio swyddi. Mewn pedwar corff iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Hywel Dda), roedd rheolwyr cyffredinol yn ymwneud â'r broses bob tro. Ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan, anaml y byddai rheolwyr yn ymwneud â chynllunio swyddi ond yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, nid oeddent byth yn ymwneud â'r broses. Yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre, dim ond os oedd materion penodol yn codi yr oedd angen eu trafod y byddai rheolwyr anghlinigol yn bresennol.



4.21 Er bod goblygiadau ariannol yn codi yn sgil rheolwyr clinigol a chyffredinol yn mynychu cyfarfodydd cynllunio swyddi, dylai'r manteision wrthbwysu'r costau a mynd gryn ffordd tuag at gyflawni rhai o'r prif nodau sy'n sail i'r contract diwygiedig.

Gall problemau godi wrth gynllunio swyddi pan fydd gan feddygon ymgynghorol fwy nag un cyflogwr

4.22 Mae rhai meddygon ymgynghorol yn academwyr clinigol sy'n darparu gwasanaethau ar y cyd i'r brifysgol ac i'r GIG. Oherwydd cymhlethdod y trefniadau gweithio a natur ddeuol yr wythnos waith, mae'n bwysig i'r brifysgol a chyflogwr y GIG fod yn bresennol yn y cyfarfod cynllunio swydd er mwyn sicrhau bod pawb yn cytuno ar un cynllun swydd unigol cyffredinol a bod pawb yn ymwybodol o holl ymrwymadau'r meddyg ymgynghorol. Dylid rhoi'r un pwysigrwydd i'r gwaith a wneir i'r GIG a'r gwaith a wneir i'r brifysgol, a dylid gosod ffiniau clir i ddangos pa bryd y mae meddyg ymgynghorol yn gweithio i ba gyflogwr.

4.23 Mae gan ddau fwrdd iechyd yng Nghymru, (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg) nifer sylweddol o feddygon ymgynghorol academiaidd ond canfuwyd yn ystod yr archwiliad nad oedd y prifysgolion yn ymwneud yn helaeth â'r broses cynllunio swyddi. Er enghraifft, canfu ein harolwg, wrth edrych ar y 21 y cant o'r meddygon ymgynghorol a oedd â contract academiaidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mai dim ond yn achos 35 y cant ohonynt yr oedd cynrychiolydd o'r brifysgol wedi bod yn rhan o'r broses o gytuno ar gynlluniau swyddi. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r meddygon ymgynghorol fod y brifysgol yn ymwneud llawer mwy â'r broses arfarnu.

4.24 Mae diffyg ymwneud y prifysgolion â'r broses wedi creu rhai anawsterau o ran cydnabod wythnos waith y meddygon ymgynghorol hyn yn llawn. Er mwyn datrys hyn, yn ddiweddar, cytunodd un bwrdd iechyd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - ar broses cynllunio swyddi ar y cyd â bwrdd partneriaeth Prifysgol Caerdydd.

4.25 Mae rhai meddygon ymgynghorol yn gweithio i fwy nag un cyflogwr yn y GIG. Bryd hynny mae'n bwysig i'r ddau sefydliad gydweithio, yn enwedig pan fydd cyfrifoldebau'r meddyg ymgynghorol yn newid. Mae'r broblem hon wedi bod yn arbennig o ddwys i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru gan fod ganddi nifer fawr o feddygon ymgynghorol sy'n gweithio i'r Ymddiriedolaeth a hefyd i fwrdd iechyd lleol. Gwelwyd enghreifftiau o gynllunio swyddi meddygon ymgynghorol iechyd cyhoeddus mewn bwrdd iechyd heb ystyried ymrwymadau'r meddyg ymgynghorol yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yna, bu'n rhaid cymryd camau i ddatrys hyn oherwydd bod gwrthdaro anochel wedi codi rhwng ymrwymadau.

Nid yw cynllunio swyddi ar sail tîm wedi digwydd i raddau helaeth mewn cyfarwyddiaethau

4.26 Roedd y canllawiau a gyhoeddwyd i gyrff y GIG er mwyn eu helpu i weithredu'r contract diwygiedig yn pwysleisio y dylid cynllunio swyddi ar sail tîm lle'r oedd hyn yn debygol o fod yn fwy effeithiol. Mae cynllunio swyddi ar sail tîm yn cynnig nifer o fanteision posibl megis y gallu i sicrhau bod gweithgareddau priodol a chydradd yn cael eu dyrannu'n deg i unigolion er mwyn cyflawni nodau cyffredinol y tîm, gan sicrhau ar yr un pryd bod gofynion datblygu proffesiynol unigolion yn cael sylw hefyd.

- 4.27** Mewn archwiliadau lleol, nodwyd nifer o feysydd arbenigol mewn cyrff iechyd a oedd yn defnyddio cynllunio ar sail tîm:
- a** Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg: Cardiolog, Patholeg ac Anableddau Dysgu
 - b** Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan: Niwroleg a Radioleg
 - c** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Anaestheteg yn yr ardal Ganol ac Obstetreg a Gynaecoleg yn y Gorllewin
 - ch** Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro: Histopatholeg
 - d** Bwrdd Iechyd Cwm Taf: Damwain ac Argyfwng
- 4.28** Fodd bynnag, ledled Cymru, canfu ein harolwg mai dim ond 17 y cant o feddygon ymgynghorol a ymatebodd a oedd yn ymwneud ag unrhyw gynllunio swyddi ar sail tîm. Gellir esbonio hyn drwy ddweud bod cynllunio swyddi wedi cael ei weld yn draddodiadol fel proses lle y bydd meddyg ymgynghorol yn llofnodi cytundeb unigol â'r cyflogwr. Gall hefyd adlewyrchu'r ffaith bod cynllunio swyddi ar sail tîm o bosibl yn broses hwy ac yn fwy anodd ei sefydlu na threfn lle y bydd swyddi'n cael eu cynllunio fesul un. Fodd bynnag, wrth i fodelau gwasanaeth newydd ddatblygu yn y GIG, mae'n debygol y bydd angen mwy o ffocws ar gynllunio swyddi ar sail tîm.

Mae cynlluniau swyddi'n gallu amrywio'n sylweddol ac ychydig iawn sy'n cynnwys canlyniadau amlwg a mesuradwy

Mae anghysonderau o ran y ffordd y diffinnir ac y cofnodir gwahanol fathau o sesiynau mewn cynlluniau swyddi

- 4.29** Gan amlaf, mae cynlluniau swyddi'n cofnodi gweithgareddau meddygon ymgynghorol o dan bedwar prif gategori: sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol; sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol; sesiynau rheoli; ac 'eraill'. Roedd y canllawiau ar gyfer gweithredu'r contract diwygiedig yn cynnwys diffiniadau o'r math o weithgarwch a ddylai gael ei gynnwys ym mhob un o'r categorïau (gweler **Atodiad 3**). Fodd bynnag, er gwaetha'r canllawiau hyn, canfu ein hadolygiad o gynlluniau swyddi nad yw cyrff y GIG yn gyson o ran y ffordd y maent yn dosbarthu gweithgareddau meddygon ymgynghorol. Y gwahaniaethau amlycaf oedd y ffordd y defnyddiwyd sesiynau rheoli a sesiynau 'eraill' (**Arddangosyn 18**).
- 4.30** Yn yr archwiliadau lleol, nodwyd bod rhai gwahaniaethau pwysig yn y ffordd y caiff y gwahanol fathau o sesiynau eu diffinio:
- a** Gofal Clinigol Uniongyrchol: Roedd rhai cyfarwyddiaethau wedi defnyddio eu diffiniadau eu hunain. Roedd hyn yn aml yn fwy o broblem ym maes diagnosteg, iechyd meddwl ac iechyd cyhoeddus lle nad yw Gofal Clinigol Uniongyrchol wedi'i ddiffinio cystal.
 - b** Gweithgareddau Proffesiynol Ategol: Roedd gweithgareddau rheoli ac 'eraill' yn aml yn cael eu cynnwys ochr yn ochr â Gweithgareddau Proffesiynol Ategol sy'n haws eu hadnabod.



Arddangosyn 18 - Sesiynau meddygon ymgynghorol 2009-10

Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth	Gofal Clinigol Uniongyrchol	Gweithgareddau Proffesiynol Ategol	Arall	Rheoli	Cyfanswm
BIP Abertawe Bro Morgannwg	8.49	2.41	0.26	0.04	11.19
BI Aneurin Bevan	8.20	2.83	0.01	0.22	11.25
BIP Betsi Cadwaladr - Canol a Dwyrain	8.48	2.72	0.08	0.16	11.44
BIP Betsi Cadwaladr - Gorllewin	8.65	2.28	0.37	0.09	11.38
BIP Caerdydd a'r Fro	8.23	2.84	0.15	0.13	11.34
BI Cwm Taf	8.26	2.32	0.15	0.14	10.87
BI Hywel Dda	8.49	2.37	0.01	0.00	10.89
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru	7.65	2.86	0.03	0.00	10.55
BIA Powys	7.87	1.67	1.26	0.36	11.16
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	7.84	2.85	0.00	1.15	11.84
Cyfartaledd Cymru	8.34	2.60	0.14	0.13	11.21

Ffynhonnell: Cronfa ddata sesiynau - Llywodraeth Cymru

- c** Amser rheoli: Ymddiriedolaeth GIG Felindre a oedd yn defnyddio sesiynau rheoli yn y ffordd fwyaf penodol mewn cynlluniau swyddi, ond roedd cyrff iechyd eraill wedi cynnwys rhywfaint o amser rheoli'n anghywir mewn sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol yn hytrach na'u cynnwys yn y Gweithgareddau Proffesiynol Ategol neu yn y sesiynau cyfrifoldeb ychwanegol.
- ch** Sesiynau eraill: Roedd y rhain yn aml wedi'u diffinio'n wael ac roedd y defnydd ohonynt yn amrywio ar draws cyrff y GIG.

Mae rhai cyrff iechyd wedi etifeddu patrymau gwaith gwahanol a'r rheini, mewn rhai achosion, wedi arwain at wahaniaeth sylweddol yn y cynllun swydd ar gyfer llwythi gwaith tebyg

4.31 Yn sgil yr uno yn 2008, etifeddodd llawer o'r ymddiriedolaethau newydd batrymau gweithio gwahanol, sydd wedi'u trosglwyddo i'r byrddau a 'r ymddiriedolaethau newydd ers mis Hydref 2009. Mewn ambell achos, roedd hyn yn golygu bod sesiwn lawn o wahaniaeth. Mae **Arddangosyn 19** yn dangos cynlluniau swyddi'r ymddiriedolaethau blaenorol adeg yr uno yn 2008.

Arddangosyn 19 - Gwahaniaethau rhwng cynlluniau swyddi'r ymddiriedolaethau yn 2008 cyn yr uno

Ymddiriedolaeth	Gofal Clinigol Uniongyrchol	Gweithgareddau Proffesiynol Ategol	Arall	Rheoli	Cyfanswm
Dwyrain Abertawe Bro Morgannwg	9.00	2.35	0.10	0.07	11.52
Gorllewin Abertawe Bro Morgannwg	8.41	2.44	0.40	0.04	11.29
Canol Betsi Cadwaladr	8.84	2.77	0.08	0.02	11.71
Dwyrain Betsi Cadwaladr	8.19	2.61	0.14	0.23	11.16
Gorllewin Betsi Cadwaladr	8.90	2.20	0.32	0.06	11.48
Caerdydd a'r Fro*	8.55	2.83	0.24	0.14	11.76
Gogledd Cwm Taf	8.89	2.47	0.02	0.14	11.51
De Cwm Taf	7.74	2.33	0.25	0.23	10.54
Gofal Iechyd Gwent*	8.22	2.66	0.34	0.26	11.47
Hywel Dda Sir Gaerfyrddin	8.93	2.16	0.05	0.00	11.15
Hywel Dda Ceredigion	9.43	2.12	0.03	0.33	11.91
Hywel Dda Sir Benfro a Derwen	7.90	2.50	0.03	0.28	10.71
Powys*	7.83	2.00	1.14	0.19	11.16
Felindre**	7.10	4.33	0.71	0.15	12.29
Cyfartaledd Cymru	8.45	2.61	0.25	0.14	11.46

*Dim newid er 2008

** Wedi'i rhannu'n ddiweddarach yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Contract Meddygon Ymgynghorol Llywodraeth Cymru



4.32 Er bod y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd wedi sylweddoli bod yna broblem, dim ond Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a oedd wedi gwneud unrhyw gynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â hyn. Gwnaethpwyd hyn drwy wneud rhagor o ddefnydd ar adolygiadau ar sail tîm.

4.33 Er bod nifer y sesiynau mewn cynlluniau swyddi'n amrywio'n fawr, dywedodd meddygon ymgynghorol sy'n gweithio llai o sesiynau wrthym eu bod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau a'u bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu trin yn deg.

Bu gormod o ffocws ar nifer y sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol heb edrych ar ansawdd a chanlyniadau'r buddsoddiad hwn

4.34 Mae Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yn elfen bwysig o wythnos waith meddyg ymgynghorol, ac mae angen i gyrff y GIG sicrhau bod nifer briodol o'r sesiynau hyn yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol. Bydd angen newid nifer a chynnwys y sesiynau hyn ar wahanol adegau drwy gydol gyrfa meddyg ymgynghorol gan gytuno ar y nifer a'u natur bob blwyddyn wrth adolygu'r cynllun swydd. Ategwyd hyn ym mis Chwefror 2011 pan ysgrifennodd y Prif Swyddog Meddygol at gyfarwyddwr meddygol byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'n cadarnhau y dylai cynlluniau swyddi gynnwys amser rhesymol ar gyfer Gweithgareddau Proffesiynol Ategol er mwyn i'r meddyg ymgynghorol allu cyflawni'r Gweithgareddau Proffesiynol Ategol y cytunwyd arnynt ac y cyflwynwyd tystiolaeth amdanynt, gan sylweddoli y bydd y rhain yn amrywio o'r naill feddyg i'r llall ac, o bosibl, o'r naill flwyddyn i'r llall.

4.35 Pan gyflwynwyd y contract diwygiedig yng Nghymru, roedd yn nodi y dylai meddygon ymgynghorol amser llawn 'yn nodweddiadol' gael tair sesiwn Gweithgareddau Proffesiynol

Ategol yr wythnos. Effaith hyn oedd creu disgwyliad ymysg rhai mai tair sesiwn Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yr wythnos fyddai'r norm, ni waeth beth fyddai anghenion proffesiynol y clinigwr, nac ychwaith beth fyddai anghenion busnes y sefydliad.

4.36 Mae'r ddadl hon wedi symud yn ei blaen, ac mewn gwirionedd, ychydig iawn o feddygon ymgynghorol a gaiff dair sesiwn Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yr wythnos. Fodd bynnag, gwaddol hyn yw bod llawer o'r dadleuon yng nghyrrff y GIG wedi canolbwyntio ar nifer y sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol, yn hytrach nag edrych mewn ffordd fwy cyfannol ar ba fath o Weithgareddau sydd eu hangen a sut y gellir dangos eu gwerth.

4.37 Dim ond gan ddau fwrdd iechyd yr oedd trefniadau ar waith a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i feddygon ymgynghorol roi tystiolaeth o'u hamser Gweithgareddau Proffesiynol Ategol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan). Roedd dau arall wedi rhoi canllawiau newydd ar waith yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r mater (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Cwm Taf). O ran y gweddill, naill ai nid oedd ganddynt ganllawiau o gwbl (Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre) neu roeddent ar fin dechrau datblygu canllawiau (Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

4.38 Yn yr un modd, adeg yr archwiliad, dim ond dau fwrdd iechyd (Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) a oedd wedi dechrau gweithio gyda meddygon ymgynghorol i geisio creu cysylltiad mwy amlwg rhwng rhai o'r Gweithgareddau Proffesiynol Ategol ac amcanion y gwasanaeth.

4.39 Mae'r contract diwygiedig yn golygu bod modd darparu sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol oddi ar y safle lle'n addas os yw'r gweithgareddau hynny'n bwysig, megis paratoi cyflwyniadau ac ysgrifennu adroddiadau ymchwil. Gan gydnabod rhai o oblygiadau ymarferol y trefniadau contract diwygiedig a'r ffaith nad yw popeth yn cael ei wneud yn y gweithle, awgrymodd canllawiau gweithredu Llywodraeth Cymru² y gellid cytuno bod hyd at un sesiwn Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yr wythnos gael ei gynnal yn y cartref neu i ffwrdd o'r man gwaith arferol. Wrth archwilio cynlluniau swyddi, gwelwyd mai ychydig iawn a oedd yn nodi ymhle y byddai unrhyw Weithgarwch Proffesiynol Ategol yn digwydd, ac roedd hynny'n golygu bod hyn yn anodd ei fonitro.

4.40 Canfu ein harolwg a'n cyfweiliadau fod llawer o feddygon ymgynghorol yn teimlo bod eu hymrwymadau clinigol ac ychwanegol yn aml yn golygu bod yr amser ar gyfer eu sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol yn cael ei wasgu. Dim ond 55 y cant o'r meddygon ymgynghorol a ymatebodd i'n harolwg a oedd yn credu bod cydbwysedd priodol rhwng eu sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol a'u sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol.

4.41 Yn gyffredinol, canfu ein harchwiliadau lleol fod cryn le i wella'r ffordd y rheolir sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol drwy gynllunio swyddi'n well er mwyn sicrhau bod y meddyg ymgynghorol a'r GIG ill dau yn gwireddu'r fantais lawn yn sgil y buddsoddiad hwn.

Ychydig iawn o gynlluniau swyddi sy'n cynnwys canlyniadau mesuradwy

4.42 Roedd y canllawiau ar y cyd ar gyfer cynllunio swyddi a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Feddygol Prydain a Llywodraeth Cymru yn dweud bod angen i gynlluniau swyddi bennu canlyniadau personol disgwylidig y cytunwyd arnynt gan nodi eu perthynas ag amcanion gwasanaeth ehangach y sefydliad cyflogi. Bydd natur canlyniadau personol disgwylidig meddyg ymgynghorol yn dibynnu'n rhannol ar ei arbenigedd, ond gallant gynnwys canlyniadau sy'n ymwneud â:

- a** Gweithgarwch ac ymarfer diogel
- b** Canlyniadau clinigol
- c** Safonau clinigol
- ch** Gofynion gwasanaeth lleol
- d** Rheoli adnoddau, gan gynnwys defnyddio adnoddau'r GIG mewn ffordd effeithlon
- dd** Ansawdd y gofal

4.43 Fodd bynnag, wrth inni adolygu cynlluniau swyddi, canfuwyd nad oedd cofnod o unrhyw ganlyniadau disgwylidig yn y rhan fwyaf ohonynt. Roedd ein harolwg o feddygon ymgynghorol yn ategu hyn i raddau helaeth gyda dim ond 34 y cant o'r ymatebwyr yn dweud eu bod wedi cytuno ar gyfres o ddangosyddion canlyniadau fel rhan o'u cynllun swydd. Ymddengys fod pobl yn sylweddoli pwysigrwydd cynnwys canlyniadau mewn cynlluniau swyddi, a gwelodd yr archwilwyr enghreifftiau o ganllawiau lleol a oedd yn pwysleisio hyn. Eto i gyd, nid oedd y canllawiau'n cael eu defnyddio mewn ffordd gyson. Er bod cryn le i wella o ran yr agwedd hon ar gynllunio swyddi ledled

² Gweithdrefn Gweithredu (dj/26.01.04) Uned Moderneiddio Tâl GIG Llywodraeth Cymru



Blwch 2 - Cynnwys dulliau mesurau canlyniadau mewn cynlluniau swyddi

Ym **Mwrdd Iechyd Cwm Taf**, roedd tri chwarter y cynlluniau swyddi a adolygwyd yn cynnwys ystod o amcanion. Roedd llawer o'r rhain yn cyfeirio at wella gwasanaethau, er enghraifft, sefydlu gwasanaethau newydd neu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a ddarperid eisoes. Roedd eraill yn cyfeirio at ysgwyddo rolau newydd neu at gyflawni targedau penodol.

Ym **Mwrdd Iechyd Hywel Dda** mae adran canlyniadau cynlluniau swyddi patholegwyr a haematolegwyr sy'n gweithio yn ardal Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin fel yr oedd gynt, wedi cael ei llenwi'n dda gydag amcanion CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol) priodol er mwyn gwella dulliau gweithio.

Roedd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** yn ceisio gwella'r ffordd yr oedd yn defnyddio canlyniadau drwy ddatblygu templed sy'n darparu sylfaen ar gyfer asesu'r hyn a gyflawnir. Rhaid i bob meddyg ymgynghorol gytuno ar ddulliau mesur canlyniadau ar gyfer y flwyddyn i ddod sy'n adlewyrchu targedau perfformiad y BILI a'r ffordd y defnyddir amser Gweithgareddau Proffesiynol Ategol, yn ogystal â Chynllun Datblygu Personol y meddyg ymgynghorol. Awgrymir fformat ar ffurf templed yn y canllawiau cynllunio swydd, ac mae'n cynnwys adrannau am: oriau yn yr wythnos; dulliau o fesur canlyniadau; camau gweithredu er mwyn rhoi'r dulliau hynny ar waith; meini prawf llwyddiant; mesurau; proses adolygu y cytunwyd arni ac amserlen; a'r cymorth sydd ei angen.

Cymru, yn ystod yr archwiliad gwelwyd nifer o enghreifftiau o arferion da ac arferion sy'n datblygu (**Blwch 2**).

Roedd ansawdd y dogfennau cynllunio swyddi yn wael ar y cyfan

4.44 Mae'n bwysig bod sefydliadau'r GIG yn datblygu dogfennaeth a threfniadau cadw cofnodion priodol ar gyfer cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol. Bydd hyn o gymorth i sicrhau eglurder ynglŷn â dyletswyddau, cyfrifoldebau a'r canlyniadau y dymunir eu gweld, a bod cofnod o'r hyn a gytunwyd a pha

Arddangosyn 20 - Problemau gyda dogfennau cynllunio swyddi


- nid oedd unrhyw un o gyrff y GIG yn defnyddio un templed cynllunio swyddi penodol ac roedd ansawdd y templedi o fewn sefydliadau'n amrywio'n sylweddol;
- roedd llawer o'r cynlluniau swyddi'n ddiffygiol o ran eu heglurder a'u tryloywder mewn perthynas â dyletswyddau a chyfrifoldebau
- roedd llawer yn anghyflawn ac nid oeddent yn nodi'r dyddiad adolygu nac ychwaith y cyfnod dan sylw;
- nid oedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau swyddi wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol;
- roedd rhai'n nodi gweithgarwch ond nid yr oriau;
- roedd tystiolaeth ddogfennol o'r trafodaethau'n aml ar goll;
- ychydig a oedd yn cael eu hadolygu'n ganolog ac roedd diffyg gwybodaeth gorfforaethol am eu cynnwys a'r canlyniad y dymunid ei weld.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

bryd y'i cytunwyd. At hynny, gall defnyddio templedi cynllunio swydd helpu i sicrhau cysondeb o ran y ffordd y caiff swyddi eu cynllunio o fewn sefydliadau a rhyngddynt.

4.45 Fel rhan o'n gwaith lleol, bu archwilywyr yn adolygu ansawdd dogfennau cynllunio swyddi ar draws cyrff y GIG yng Nghymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, canfuwyd bod ansawdd y dogfennau'n wael. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynlluniau swyddi a welwyd, nid oedd tystiolaeth i ddangos eu bod wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol, ac mewn rhai achosion roedd cynlluniau swyddi wedi mynd ar goll yn llwyr yn sgil ad-drefnu gwasanaethau'r GIG. Mae **Arddangosyn 20** yn dangos y problemau penodol a welwyd gyda dogfennau cynllunio swyddi yn ystod yr archwiliad.

Arddangosyn 21 - Barn meddygon ymgynghorol ynglŷn â pha mor ddefnyddiol yw'r broses cynllunio swyddi



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Mae gwahaniaeth barn ymhlith meddygon ymgynghorol ynglŷn â chynllunio swyddi

4.46 Roedd yr ymatebion a gafwyd i'n harolwg o feddygon ymgynghorol y GIG yn dangos cryn wahaniaeth barn ynglŷn â pha mor ddefnyddiol oedd y broses cynllunio swyddi. Yn gyffredinol, dywedodd 37 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo bod cynllunio swyddi'n ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, roedd y darlun yn amrywio rhwng cyrff y GIG ac roedd y ffigur yn nodweddiadol is ymhlith y cyrff GIG hynny lle nad oedd cynllunio swyddi'n digwydd mor aml (Arddangosyn 21).

4.47 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (65 y cant) fod y broses cynllunio swyddi wedi gwneud yr ymrwymadau a ddisgwyliid ganddynt yn fwy eglur. Fodd bynnag, roedd y ffaith bod lleiafrif sylweddol yn anghytuno â'r datganiad hwn yn destun pryder o gofio mai dyma brif nod y broses.

4.48 Mae cyrff y GIG yn gyfrifol am sicrhau bod meddygon ymgynghorol yn cael y cymorth angenrheidiol i wireddu'r ymrwymadau a restrir yn eu cynllun swydd. Dylid defnyddio cynllunio swyddi ac adolygu cynlluniau swyddi i weld pa fath o gymorth sydd ei angen o ran cyfleusterau, hyfforddiant a datblygu, ac adnoddau eraill. Dylid defnyddio cynllunio swyddi hefyd i weld a oes unrhyw rwystrau a allai atal rhywun rhag cyflawni ymrwymadau cynllun swydd.

4.49 Roedd yr ymatebion i'r arolwg o feddygon ymgynghorol yn awgrymu nad yw cynllunio swyddi'n gwbl effeithiol o hyd yn y meysydd hyn. Er bod 62 y cant o'r ymatebwyr yn teimlo bod y broses cynllunio swyddi'n golygu bod modd ystyried pwysau a chyfyngiadau a chytuno ar gamau er mwyn mynd i'r afael â'r rheini, dim ond 20 y cant a oedd yn teimlo bod y cynllun swydd yn dynodi'r adnoddau a'r cymorth yr oedd eu hangen er mwyn iddynt ei gyflawni.



Nid oes cysylltiad bob tro rhwng arfarnu swyddi a'r broses cynllunio swyddi

4.50 Yn ystod cyfnod cyntaf yr ailddilysu³ sydd i fod i ddechrau yng Nghymru ym mis Ebrill 2013, mae'n bwysig bod byrddau iechyd yn glir bod y broses arfarnu a'r broses cynllunio swyddi'n ddwy broses ar wahân ond bod cysylltiad rhyngddynt. Mae canllawiau diweddar gan Ddeoniaeth Cymru yn dweud y dylai'r meddyg ddod â'r cynllun swydd diweddaraf i'r arfarniad er mwyn i'r arfarnwr allu deall ymarfer clinigol y meddyg ac er mwyn ei helpu i weld a oes unrhyw anghenion dysgu'n gysylltiedig ag amcanion y gwasanaeth neu'r gweithgareddau arfaethedig. Dylid cofnodi'r rhain yn y Cynllun Datblygu Proffesiynol a dylid defnyddio arfarniadau dilynol i ddangos sut yr aethpwyd i'r afael â'r rhain.

4.51 Bydd llawer o'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y ddwy broses yn cael ei dyblygu a'r elfennau sy'n gyffredin i'r ddwy yw amcanion personol y meddyg ymgynghorol. Bydd yr amcanion a ystyrir yn ystod yr adolygiad cynllunio swydd yn deillio o flaenoriaethau corfforaethol/cyfarwyddiaethau y sefydliad ac o Gynllun Datblygu Proffesiynol y meddyg ymgynghorol. Mae **Arddangosyn 22** yn cynnig rhagor o wybodaeth am ddibenion cynllunio swyddi ac arfarnu.

4.52 Er bod angen cysylltu arfarniadau â chynllunio swyddi, gall cyrff unigol y GIG benderfynu sut y bydd hyn yn digwydd o safbwynt ymarferol a dylid eu cysylltu â'r cylchoedd busnes a chynllunio mewn cyfarwyddiaethau ac yn y sefydliad ehangach. Gallant fod yn brosesau ar wahân sy'n digwydd ar wahanol adegau a chyda gwahanol weithwyr, neu gall yr un person eu cynnal ar yr un pryd. Pa dull bynnag a ddefnyddir, rhaid sicrhau cysylltiad rhesymegol a chlir rhwng y ddwy broses.

Arddangosyn 22 - Cynllunio swyddi ac arfarnu

Diben cynllunio swyddi	Diben arfarnu
Gweithgarwch systematig yw cynllunio swyddi a'r nod yw sicrhau disgwyliadau clir i'r cyflogwr a'r cyflogai ynglŷn â defnyddio amser ac adnoddau er mwyn cyflawni amcanion yr unigolyn a'r gwasanaeth. Mae'n rhagolygonol o ran ei natur.	Dull systematig yw arfarnu i adolygu cyflawniadau meddygon ymgynghorol, ystyried eu cynnydd parhaus a nodi eu hanghenion datblygu. Ar gyfer meddygon ymgynghorol y GIG, dyma hefyd un o'r prif ddulliau o ddarparu tystiolaeth sy'n ofynnol at ddibenion trwyddedu ac ailddilysu. Adolygiad ôl-weithredol o weithgareddau proffesiynol ydyw sy'n cynnwys elfen ragolygol a datblygu Cynllun Datblygu Proffesiynol. Bydd angen trafod yr adnoddau sy'n ofynnol er mwyn gwireddu hyn yn y cyfarfod cynllunio swydd.

Ffynhonnell: Cynllunio Swyddi'n Effeithiol, Asiantaeth Moderneiddio'r GIG, 2005

³ Ailddilysu fydd y dull a ddefnyddir gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol i reoleiddio meddygon trwyddedig, gan roi sicrwydd ychwanegol i gleifion bod eu meddygon yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn addas i ymarfer. Bydd yn rhaid i feddygon trwyddedig gael eu hailddilysu, bob pum mlynedd fel rheol, drwy gael arfarniadau rheolaidd yn seiliedig ar ganllawiau craidd y Cyngor Meddygol Cyffredinol i feddygon, Ymarfer Meddygol Da.

- 4.53** Canfu ein harchwiliadau nad oedd dull arfarnu safonol ar waith. Er bod rhai meddygon ymgynghorol wedi cael arfarniadau bob blwyddyn, dywedodd eraill nad oeddent ond wedi cael arfarniad pan oeddent wedi gofyn am un neu nad oeddent erioed wedi cael arfarniad. Mewn rhai ardaloedd, canfuwyd bod mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i arfarniadau nag i'r broses cynllunio swyddi.
- 4.54** Canfu'r archwiliadau hefyd fod gwahaniaeth o ran y cysylltiadau rhwng y cyfarfod adolygu cynlluniau swyddi a'r arfarniadau, gyda rhai ardaloedd yn cynnal y cyfarfodydd gefn wrth gefn ac eraill yn eu cadw ar wahân. Yn ddiddorol ddigon, nid oedd llawer o'r meddygon ymgynghorol yn glir ynglŷn â'r cysylltiad rhwng cynllunio swyddi ac arfarnu a dim ond ychydig dros hanner (55 y cant) yr ymatebwyr i'n harolwg o feddygon ymgynghorol a oedd yn teimlo bod eu hadolygiad cynllunio swydd wedi bod o gymorth iddynt gyflawni'r Cynllun Datblygu Proffesiynol y cytunwyd arno yn eu harfarniad.



Atodiad 1 - Methodoleg yr astudiaeth

Cynhaliwyd yr archwiliadau'n lleol ym mhob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd sy'n cyflogi niferoedd sylweddol o feddygon ymgynghorol. Detholwyd sampl o arbenigeddau gan yr archwilywyr ym mhob bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd gan gyfweled â chyfarwyddwyr meddygol, cyfarwyddwyr clinigol, rheolwyr cyffredinol a staff Adnoddau Dynol, Cyllid a Rheoli Data a oedd yn ymwneud â chynllunio swyddi. Cyfweledwyd hefyd â sampl o feddygon ymgynghorol a ddewiswyd gan y bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd a'r Cyngor Negodi Lleol.

Yn ystod yr archwiliad, adolygwyd dogfennau a ddarparwyd gan y byrddau/ymddiriedolaethau iechyd megis:

- gwybodaeth a chanllawiau a roddwyd i feddygon ymgynghorol a rheolwyr yn y rownd adolygu cynlluniau swyddi ddiweddaraf;
- adroddiadau a anfonwyd at y bwrdd ynglŷn â materion a oedd yn ymwneud â chontractau meddygon ymgynghorol a chynllunio swyddi yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- adroddiadau monitro canlyniadau ar gyfer y broses cynllunio swyddi;
- unrhyw adolygiadau archwilio mewnol a oedd yn berthnasol i gontract y meddygon ymgynghorol.

Anfonwyd holiadur ar y we at bob meddyg ymgynghorol yn y byrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd a oedd yn cymryd rhan yn yr archwiliad yng Nghymru ym mis Medi 2010. Cafwyd cyfanswm o 580 o ymatebion a'r gyfradd ymateb ar gyfartaledd oedd 25 y cant.

Adolygwyd sampl o bum cynllun swydd gan bob cyfarwyddiaeth a archwiliwyd. Adolygwyd y cynlluniau swyddi ar sail nifer o feini prawf er mwyn deall pa dystiolaeth a ddarparwyd gan y meddyg ymgynghorol a gweld sut y cyfrifwyd y sesiynau. Edrychwyd i weld hefyd a oedd y cynllun swydd wedi'i gymeradwyo gan y meddyg ymgynghorol.

Arf meincnodi - Bob blwyddyn ers cyflwyno'r contract, mae byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yn rhoi data i Uned Moderneiddio Taliadau Llywodraeth Cymru ynglŷn ag ymrwymadau pob meddyg ymgynghorol, wedi'u rhannu'n sesiynau Gofal Clinigol Uniongyrchol, sesiynau Gweithgareddau Proffesiynol Ategol, cyfrifoldebau rheoli a chyfrifoldebau eraill y cytunir arnynt gyda'r sefydliad. Crynhowyd y wybodaeth hon gan Swyddfa Archwilio Cymru a lluniwyd cronfa ddata i ddadansoddi'r data hyn ar gyfer blynyddoedd 2007-08, 2008-09 a 2009-10. Gallai'r archwilywyr adolygu'r dadansoddiad yn erbyn sefyllfa gymharol Cymru a'r dadansoddiad o feysydd arbenigol o fewn y sefydliad.

Cyhoeddwyd yr holl adroddiadau lleol rhwng mis Ionawr a mis Mai 2011. Aethant drwy bwyllgorau archwilio'r bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Medi 2011. Yn ychwanegol i'r adroddiadau hyn, yn ystod 2012, mewn rhai cyrff GIG mae archwiliadau dilynol wedi eu cynnal i asesu'r cynnydd a wneir â materion lleol.

Atodiad 2 - Elfennau o gyflog meddygon ymgynghorol y GIG

Graddfa gyflog gynyddol chwe phwynt 2010-11						
0	1	2	3	4	5	6
£72,205	£74,504	£78,350	£82,818	£87,918	£90,827	£93,742

Ffynhonnell: Corff Adolygu Taliadau i Feddygon a Deintyddion - y Pedwerydd Adroddiad ar Bymtheg ar Hugain 2010.

Graddfa dyfarniadau ymrwymiad a nifer y dyfarniadau sydd gan feddygon ymgynghorol 2010-11							
1	2	3	4	5	6	7	8
£3,204	£6,408	£9,612	£12,816	£16,020	£19,224	£22,428	£25,632
469	220	127	103	72	60	32	53

Ffynhonnell: Corff Adolygu Taliadau i Feddygon a Deintyddion - y Pedwerydd Adroddiad ar Bymtheg ar Hugain 2010.

Dyfarniadau rhagoriaeth glinigol a nifer y dyfarniadau sydd gan feddygon ymgynghorol 2010-11			
Lefel 9 (Efydd)	Lefel 10 (Arian)	Lefel 11 (Aur)	Lefel 12 (Platinwm)
£35,484	£46,644	£58,305	£75,796
114	38	10	8

Ffynhonnell: Corff Adolygu Taliadau i Feddygon a Deintyddion - y Pedwerydd Adroddiad ar Bymtheg ar Hugain 2010.

Dyfarniadau teilyngdod a nifer y dyfarniadau sydd gan feddygon ymgynghorol 2010-11		
Dyfarniad B	Dyfarniad A	Dyfarniad A+
£31,959	£55,924	£75,889
17	13	1

Ffynhonnell: Corff Adolygu Taliadau i Feddygon a Deintyddion - y Pedwerydd Adroddiad ar Bymtheg ar Hugain 2010.



Atodiadau dwysedd ar gyfer meddygon ymgynghorol (a delir bob blwyddyn)		
Band 1 (dwysedd isel)	Band 2 (dwysedd canolig)	Band 3 (dwysedd uchel)
£2,213	£4,426	£6,637

Ffynhonnell: Corff Adolygu Taliadau i Feddygon a Deintyddion - y Pedwerydd Adroddiad ar Bymtheg ar Hugain 2010.

Y fenter rhestrau aros

Fe'i telir ar gyfradd safonol sef £565 y sesiwn.

Atodiad 3 - Dyletswyddau a chyfrifoldebau nodweddiadol a gynhwysir mewn sesiynau

Gofal clinigol uniongyrchol	Gweithgareddau proffesiynol ategol	Cyfrifoldebau ychwanegol	Dyletswyddau a gweithgareddau eraill yn y GIG ehangach
<ul style="list-style-type: none"> Dyletswyddau brys (gan gynnwys gwaith brys yn ystod cyfnod ar alwad neu waith sy'n codi yn sgil hynny) Sesiynau llawdriniaeth gan gynnwys gofal cyn ac ar ôl y llawdriniaeth Rowndiau ward Clinigau cleifion allanol Gwaith diagnostig clinigol Mathau eraill o driniaeth i gleifion Dyletswyddau iechyd cyhoeddus Cyfarfodydd amlddisgyblaeth ynglŷn â gofal uniongyrchol i gleifion Gweinyddu sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gofalu am gleifion (e.e. atgyfeiriadau, nodiadau) 	<ul style="list-style-type: none"> Hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus Addysgu Archwilio Cynllunio swyddi Arfarnu Ymchwilio Rheoli clinigol Gweithgareddau llywodraethu clinigol lleol 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarwyddwyr meddygol, cyfarwyddwyr clinigol a chlinigwyr arweiniol Gwarcheidwaid Caldicott Arweinwyr archwiliadau clinigol Arweinwyr llywodraethu clinigol Deoniaid is-raddedigion ac ôl-raddedigion, tiwtoriaid clinigol, cynghorydd addysg rhanbarthol Ymrwymadau addysgu ac ymchwil rheolaidd y tu hwnt i'r norm, na thelir amdanynt drwy fodd arall Rolau cynrychiolaeth broffesiynol 	<ul style="list-style-type: none"> Dyletswyddau undebau llafur Gweithredu fel aelod allanol ar bwyllgor penodi cynghorol Gwaith rhesymol i'r colegau brenhinol er lles y GIG ehangach Gwaith penodedig i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol Cynnal archwiliadau i gyrff rheoleiddio iechyd

Ffynhonnell: Y Contract Cenedlaethol Diwygiedig i Feddygon Ymgynghorol yng Nghymru

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Meeting Venue: **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd**

Meeting date: **Dydd Mawrth, 26 Chwefror 2013**

Meeting time: **09:00 – 11:00**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



This meeting can be viewed on Senedd TV at:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_26_02_2013&t=0&l=en

Concise Minutes:

Assembly Members:

Darren Millar (Cadeirydd)
Mohammad Asghar
Mike Hedges
Julie Morgan
Gwyn Price
Jenny Rathbone
Aled Roberts
Jocelyn Davies

Witnesses:

**Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol,
Swyddfa Archwilio Cymru**
**Paul Dimplebee, Cyfarwyddwr Grŵp – Archwilio
Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru**

Committee Staff:

Tom Jackson (Clerc)
Daniel Collier (Dirprwy Glerc)

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

2. Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a ganlyn:

- gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Llywydd ynghylch amserlen y Pwyllgor;
- ymateb gan Swyddfa'r Cabinet i'r camau i'w cymryd a nodwyd yn y cyfarfod ar 18 Chwefror 2013; a
- chofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor ar 18 Chwefror.

3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 4 a 5.

4. Trafod amserlen y Pwyllgor

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod materion mewn perthynas â'r amserlen, a chytunodd ar gynigion a amlinellwyd gan y Cadeirydd ynghylch trefnu blaenraglen waith y Pwyllgor.

5. Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen

5.1 Cafwyd datganiad o fuddiant gan Julie Morgan o dan yr eitem hon, a gadawodd y cyfarfod cyn i'r drafodaeth ddechrau.

5.2 Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei adroddiad drafft ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen Westy River Lodge, Llangollen. Cytunodd y Pwyllgor ar nifer o newidiadau i'r adroddiad, a chytunodd i ystyried yr adroddiad eto mewn cyfarfod arall.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon